

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 33/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o Wasanaethau Cynghori y Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig mewn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Gwerthusiad o Wasanaethau Cyngori y Ganolfan Byd Gwaith mewn Canolfannau Plant Integredig mewn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Beth Foley, Helen Stevens a Becci Newton

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Mike Harmer

Tîm Dadansoddi Llywodraeth Leol a Chymunedau, Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi, Yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a
Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 0628134

michael.harmer@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, blwyddyn

ISBN 978-0-7504-7969-1

© Crown Copyright 2012

Tabl cynnwys

Geirfa acronymau	2
1 Cyflwyniad.....	3
2 Sefydlu a chyflawni y peilot – ac effaith ddeongledig Error! Bookmark not defined.	
3 Ffactorau ac ymagweddau a brofodd i fod yn effeithiol.....	37
4 Casgliadau	43
Atodiad: Offerynnau Ymchwil.....	51

Geirfa acronymau

BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
BOC	Cyfrifiadau Mwyaf Manteisiol
CF	Cymunedau yn Gyntaf
CFP	Partneriaeth(au) Cymunedau yn Gyntaf
ESA	Lwfans Cefnogaeth Cyflogaeth
ESICC	Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig
ESOL	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Tramor
FJF	Cronfa Swyddi'r Dyfodol
HTR	Anodd eu cyrraedd
IAG	Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad
ICC	Canolfan(nau) Plant Integredig
JCP	Canolfan Byd Gwaith
JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
LMS	System Marchnad Lafur
MI	Gwybodaeth rheoli
NCA	Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
PEA	Cynghorydd Cyflogaeth Rhiant
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
WFI	Cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith
LIC	Llywodraeth Cymru
WTC	Credyd(au) Treth Gwaith

1 Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru (LIC) y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) i arwain adolygiad o'i beilot a gyflwynodd wasanaethau Cynghori dan Arweiniad y Ganolfan Byd Gwaith i Ganolfannau Plant Integredig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Galwyd y peilot yn Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig (ESICC). Cydariannwyd y prosiect gan Cymunedau yn Gyntaf a'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP). Roedd gan IES brofiad o werthuso'r Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar Waith yn y Peilot Canolfannau Plant yn Lloegr.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys casgliadau o'r gwerthusiad i ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru (LIC) ar gynnydd a chyflawniadau'r peilot ESICC.

Cyd-destun polisi a chefnidir i'r peilot

- 1.3 Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyfres o gynlluniau peilot tloidi plant yn Lloegr, oedd yn ymgeisio i brofi effeithlonrwydd ymagweddau lleol cydgysylltiol i daclo tloidi plant. Un o'r rhain oedd y peilot Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar Waith mewn Canolfannau Plant. Roedd hyn yn integreiddio Cynghorydd JCP llawn amser mewn 30 o ganolfannau plant ledled Lloegr, i brofi a allai canolfannau plant gynnig modd effeithiol o ymgysylltu rhieni â gweithgaredd y farchnad lafur, gan eu symud yn agosach at waith ac yn y pen draw i gyflogaeth.
- 1.4 Cysylltodd y JCP yng Nghymru â LIC, a bu'r sefydliadau hyn yn cydweithio i nodi modd o addasu'r model Saesneg i gyd-fynd â pholisi Cymreig. Yna fe brofwyd y model newydd am ddwy flynedd (rhwng 2010 a 2012) mewn pedair ardal awdurdod lleol: Llwynhendy (Sir Gaerfyrddin), Penlan (Abertawe), Parc Caia (Wrecsam), a Dyffryn (Casnewydd).
- 1.5 Nod cynllun y peilot Cymreig oedd mewnosod Cynghorwyr Personol JCP (a alwyd yn Gynghorwyr Cyflogaeth rhieni (PEA)) mewn Canolfannau Plant Integredig (ICC), gan weithio'n agos gyda'r

Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf (CFP) i gyrraedd y rhai oedd fwyaf pell o'r farchnad lafur.

- 1.6 Cynlluniwyd ICCs i ddarparu addysg integredig, gofal, cefnogaeth deuluol a gwasanaethau iechyd, yn seiliedig ar y gred fod integreiddiad gwasanaethau yn ffactor allweddol i gyflawni deilliannau positif i blant a'u rhieni, gan sicrhau'r cychwyn gorau mewn bywyd. Mae yna o leiaf un ganolfan ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru er nad yw pob un mewn ardaloedd o amddifadedd cymharol uchel.
- 1.7 Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru i wella amgylchiadau byw a rhagolygon i bobl yn y cymunedau mwyaf amddifad ledled Cymru. Lansiodd y rhaglen yn 2001 a bellach mae yna dros 150 o CFPs. Daw pob un ag aelodau o'r gymuned leol ynghyd â chynrychiolwyr y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Lleol. Mae timau staff bychain yn cefnogi pob partneriaeth. Fel arfer mae CFPs wedi eu lleoli yng nghalon y gymuned, yn gyfarwydd ag ac yn hygyrch i bobl leol, gan helpu eu cysylltu i ddarparu'r gwasanaeth ac asiantaethau cefnogaeth.
- 1.8 Mae cyllid deilliant ar gael i CFPs a'i fwriad yw datblygu a chyflawni gweithgareddau, gwasanaethau a phrosiectau newydd er budd ardaloedd CF. Nod y cyllid yw annog a galluogi CFPs i weithio'n agosach gyda darparwyr gwasanaeth allweddol ac arianwyr eraill. Mae arian cyfatebol yn ofyniad allweddol i gyllid deilliant. Ariannwyd y peilot gwasanaethau cyflogaeth mewn canolfannau plant integredig (ESICC) trwy'r Gronfa Deilliant CF, gydag arian cyfatebol gan JCP.

Nodau ac amcanion y peilot

- 1.9 Nod cyffredinol y peilot oedd cynyddu'r nifer o rieni mewn gwaith trwy ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i'w galluogi i symud yn agosach at y farchnad lafur ac i waith. Y grŵp targed oedd teuluoedd heb waith, unig rieni a rhieni gyda phlant dan bump¹ gan fod disgwyl i rieni ailymgysylltu â gwaith erbyn y pwynt hwn.
- 1.10 Ceisiodd y peilot gyflawni'r nod hwn trwy:

¹ Tan 2012, byddai disgwyl i rieni ymgysylltu â chwilio am waith pan oedd eu plentyn ieuengaf yn saith oed.

- gryfhau gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig
- codi ymwybyddiaeth rhieni o rwydweithiau cefnogaeth, darpariaeth sydd ar gael i'w cefnogi, a'u hawl i fudd-daliadau mewn gwaith
- cynyddu'r niferoedd o gwsmeriaid JCP a gyfeiriwyd at hyfforddiant perthnasol, rhieni sydd yn barod am waith, a rhieni yn dod o hyd i gyflogaeth
- cynyddu ceisiadau am swyddi gan bobl leol i gyflogwyr lleol, a'r swm o gyllid llywodraeth y Deyrnas Unedig a datganoledig sy'n cyrraedd cyflogwyr lleol trwy sianeli fel cymorthdaliadau swyddi a chronfeydd ReAct.

1.11 Lleolodd yr ESICC gefnogaeth Cynghorydd Personol JCP ym mhob un i'r pedwar ICC. Yn ogystal, darparodd CF weithiwr craidd ym mhob ardal i weithredu fel cyswllt i gefnogi'r ymgysylltiad a dargadw rhieni.

1.12 Darparwyd cyfres graidd o wasanaethau, wedi ei ategu gan wasanaethau ychwanegol neu fecanweithiau cyflawni a gynlluniwyd i fodloni anghenion lleol. Roedd y gwasanaethau craidd yn cynnwys *allgymorth* i'r rhai nad oeddynt yn defnyddio'r ganolfan a'r rhai yn defnyddio'r ganolfan ond nid yn defnyddio gwasanaethau JCP, darparu *Gwasanaethau Cynghorydd Unig Riant* megis Cefnogaeth gyda Ffocws ar Waith i Unig Rieni (y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol gynt), a chynnig *gwasanaethau i'r rhai tu allan i'r grŵp cyswllt JCP traddodiadol*, e.e. ail enillwyr posibl.

1.13 Rhoddwyd gorchwyl i ICCs a CFPs gefnogi'r peilot trwy weithgareddau a chydweithio gyda'r PEAs. Rhagwelwyd y byddent yn ychwanegu gwerth trwy rannu gwybodaeth leol a rhwydweithiau i nodi'r rhai yn y gymuned oedd anoddaf eu cyrraedd ac i drechu rhwystrau i rieni yn cael mynediad at y gwasanaeth. Y bwriad oedd i'r PEAs adeiladu ar rwydweithiau presennol i gyrraedd rhieni oedd yn gyndyn i gael mynediad at wasanaethau JCP trwy'r llwybr arferol ac i sefydlu ymddiriedaeth a pherthynas â rhieni. Byddai amser PEA yn cael ei dreulio yn:

- gweithio gyda staff ICC a CF i hyrwyddo dealltwriaeth o bolisi cyflogaeth a'i ryngweithio gyda'r agenda tlodi plant

- ymgysylltu mewn gweithgareddau allgymorth, ynghyd â staff CF, yn yr ICC a'r gymuned leol
- cyflawni ystod o swyddogaethau Cynghorydd unig Riant JCP ar gyfer cleientiaid JCP (e.e. cyfweiliadau sy'n canolbwyntio ar waith (WFI), gwneud apwyntiadau a gweithgaredd llwyth achos) a chefnogi partneriaid enillwyr incwm isel
- trefnu a rhedeg seminarau grŵp a digwyddiadau cyflogwr
- gwneud atgyfeiriadau priodol i bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn unol â'r nodau craidd i gefnogi rhieni a lleihau tlodi plant.

Ynglŷn â'r ymagwedd o werthuso

1.14 Ceisiodd y gwerthusiad asesu i ba raddau yr oedd y peilot wedi bod yn llwyddiannus o ran symud rhieni yn y grwpiau targed yn agosach at gyflogaeth. Trwy waith i archwilio materion proses a gweithrediad yn ogystal ag effeithiau deongledig; fe'i tasgwyd i ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- A wnaeth y peilot gyflawni ei dargedau?
- A wnaeth y rhai oedd wedi ymgysylltu â'r PEAs trwy'r ICCs symud i hyfforddiant neu gyflogaeth ac, os felly, pa ffactorau oedd yn allweddol?
- A lwyddodd y peilot i gyrraedd ei grŵp targed o rieni, h.y. y rhai oedd bellaf o'r farchnad lafur?
- A oedd yna unrhyw effaith atodol, tu hwnt i waith presennol y JCP, mewn ardaloedd peilot?

1.15 Roedd yr ymchwil yn cynnwys y pedwar ICCs oedd wedi eu cynnwys yn y peilot.

- Ar gyfer cwmpasu cychwynnol, cyflawnwyd ymchwil desg, a archwiliodd ddogfennaeth y peilot yn cynnwys gwybodaeth rheoli a adroddodd ar allbynnau allweddol. Yn rhan o'r cam hwn, derbyniwyd canllaw gan y grŵp llywio, a chyflawnwyd cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, yn benodol gyda swyddogion o'r Uned CF.
- Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad cwmpasu, detholwyd dau o'r pedwar ICC i gymryd rhan mewn ymweliadau

ymchwil dau i dri diwrnod tra bod y ddau oedd yn weddill yn cael eu cynnwys trwy gyfres o gyfweiliadau ffôn.

- 1.16 Ym mhob un o'r ardaloedd peilot, cyflawnwyd cyfweiliadau gyda staff a rhanddeiliaid allweddol. Roedd ymatebwyr yn amrywio yn ôl ardal, ond yn cynnwys PEAs, Rheolwyr Partneriaeth a swyddogion prosiect JCP; Cydlynwyr a gweithwyr datblygu CF; aelodau CFP; rheolwyr a staff ICC; a darparwyr gwasanaethau eraill gyfunwyd â'r ICCs ac/neu gyda CF.
- 1.17 Yn rhan o'r ymchwil, cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws rhieni (dau grŵp yn rhan o bob ymweliad). Roedd y rhain yn ceisio cyferbynnu gwahanol grwpiau o rieni, er enghraifft, rhieni a oedd wedi eu cynnwys yn llawn, a'r rhai nad oedd, yn y peilot ESICC.
- 1.18 Yn rhan o'r gwerthusiad, cwblhawyd 23 cyfweiliad gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol, a chynhaliwyd pedwar grŵp ffocws gyda rhieni.

Ynglŷn â'r ICCs a ddetholwyd

- 1.19 O ystyried nodau'r peilot, mae'r ICCs a ddefnyddiwyd i gyflawni'r peilot wedi eu lleoli mewn ardaloedd difreintiedig a chymunedau amddifad.
 - Mae *Llwynhendy* wedi ei leoli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ICC wedi bod yn weithredol ers tua phum mlynedd ac mae wedi ei leoli yn agos at yr ysgol gynradd leol. Mae'r rhieni a gefnogir yn dueddol o fod yn ifanc ac fe adawodd nifer yr ysgol yn gynnar er mwyn cael plant. Mae'r rhan fwyaf yn ddi-waith ac mae lefelau sgiliau yn dueddol o fod yn isel. Cyn yr ESICC roedd cynllun peilot tebyg yn weithredol, a alwyd yn Gynllun Gweithredu Sir Gaerfyrddin, oedd yn golygu bod staff y JCP yn gweithio yn y gymuned leol.
 - Mae *Penlan* wedi ei leoli tua chwe milltir o ganol Abertawe. Mae'r ardal wedi ei rhannu yn ddwy gymuned, gogledd a de. Mae'r ICC wedi ei atodi i ysgol leol yn ne Penlan. Mae'n denu grŵp cymysg o rieni, mamau yn bennaf ond ambell dad hefyd; daw'r rhan fwyaf o'r rhieni sy'n cael mynediad at yr ICC o dde Penlan. Maent yn amrywio o ran oed o 14 i ganol eu 40au. Mae'r rhan fwyaf â sgiliau isel ond hefyd yn brin o hyder. Yn debyg i Llwynhendy, bu cynllun peilot

blaenorol yn cysylltu gwasanaethau cyflogaeth i'r gymuned hon yn weithredol mewn blynyddoedd diweddar.

- *Parc Caia*, Wrecsam yw'r ystâd dai fwyaf yng Ngogledd Cymru. Mae gan yr ardal hanes o broblemau cymdeithasol, yn cynnwys lefelau tlodi uchel ymysg plant a chyrhaeddiad addysgol isel. Mae'r ICC yn rhan o brosiect sefydledig wedi ei anelu at daclo troseddau ieuencid yn yr ardal. Defnyddir yr ICC gan rieni mwy tlawd yr ardal leol, er bod rhai o'r rhai mwy cefnog hefyd yn defnyddio ei wasanaethau. Amcangyfrifir bod 85 y cant o'r rhieni sy'n defnyddio'r ICC yn dod o wardiau Parc Caia. Mae CF wedi bod yn allweddol i'r ICC hwn yn cyflawni cyrhaeddiad daearyddol ehangach.
- *Dyffryn* yw un o'r cymunedau mwyaf diffreintiedig yng Nghasnewydd. Mae'r ICC hefyd wedi ei gysylltu i ysgol. Daw rhieni sy'n cael mynediad at yr ICC, yn bennaf, o gymuned Dyffryn. Mae mwy o gymysgedd ethnig yn yr ardal hon na rhai o'r rhai eraill yn y peilot, ac mae'r ICC wedi gweld cynnydd mewn mamau Pwyleg ac Indiaidd yn mynychu'r ganolfan. Adeiladwyd rhywfaint o dai newydd yn yr ardal ac mae hyn wedi denu rhywfaint o deuluoedd mwy cefnog i'r gymuned a'r ICC.

Strwythur yr adroddiad

- 1.20 Mae ail bennod yr adroddiad hwn yn archwilio gweithrediad y peilot, yn cynnwys y broses o'i sefydlu, rôl CF, beth sy'n deillio o'r cyflawniad, dehongliadau o'r targedau, gweithio mewn partneriaeth, ymagweddau i farchnata ac ymgysylltu, ac effaith ddeongledig.
- 1.21 Noda pennod 3 ffactorau llwyddiant allweddol ac mae'n archwilio heriau cyflawni a sut y'i trechwyd.
- 1.22 Mae'r adroddiad yn cloi gydag asesiad o'r peilot yn erbyn yr amcanion gwerthuso a'n hasesiad cyffredinol o'u cyflawniadau.
- 1.23 Ym mhrif gorff yr adroddiad, adroddiad ar ddata yn ddiennw, h.y. nid yw wedi ei briodoli i ardal benodol, ac eithrio ble'r amlygir ymarfer arbennig o dda.

2 Sefydlu a chyflawni'r peilot - ac effaith ddeongledig

- 2.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r wybodaeth eang a gasglwyd yn rhan o'r adolygiad dogfennol a'r ymchwil ansoddol ac yn darparu naratif o'r materion sefydlu a chyflawni sy'n gysylltiedig â'r peilot, ynghyd â dehongliadau o'r effeithiau a gyflawnwyd.

Sefydlu'r peilot

Dethol y Canolfannau Plant Integredig

- 2.2 Detholwyr ICCs y peilot ar sail eu lleoliad mewn cymunedau o amddifadedd a threfniadau gwaith partneriaeth effeithiol gyda CFPs. Nododd rhai ymatebwyr fod yr ICC a Rheolwyr CF yn aml wedi bod yn gefnogol o symud yr agenda cyflogaeth ymlaen ymhellach o fewn eu cymunedau ond eu bod angen cefnogaeth arbenigol i wneud hyn. Fodd bynnag, efallai bod y broses i ddethol a brocera ymgysylltiad staff lleol o'r tair asiantaeth leol wedi cael canlyniad ar gyflawniad.
- 2.3 Er i'r broses ddethol yng Nghymru isafu'r baich ar staff o ysgrifennu cynigion neu fynegiant o ddiddordeb i ymuno â'r cynllun peilot, mae rhywfaint o densiwn wedi codi ble nad oedd staff yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys yn ddigonol yn ystod cam cynllunio'r gwaith. Arweiniodd hyn at farn fod y peilot wedi ei orfodi arnynt, yn hytrach na'i sefydlu yn dilyn trafodaeth â nhw. Roedd helaethrwydd cynhwysiant yn aml yn ddibynnol ar berthnasau rhwng y tair asiantaeth allweddol (CF, ICC a JCP) ac roedd yn amlwg ei fod yn fanteisiol i bawb oedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ynglŷn â sut ddylai'r peilot weithredu. Nid oedd hyn wedi digwydd ym mhob achos.
- 2.4 Mewn cyferbyniad i'r broses ddethol Gymreig, yn Lloegr yr ICCs a ysgrifennodd y cynigion i ymuno â'r peilot ac fe'i detholwyd ar y sail hon. Efallai y byddai hyn wedi golygu fod ganddynt fwy o deimlad o berchnogaeth a rheolaeth o'r cychwyn. Fodd bynnag, ymddengys fod gan y broses ddethol yng Nghymru fanteision gwirioneddol dros y broses fidio a ddefnyddiwyd yn Lloegr, megis sicrhau bod gan bob ICC a ddetholwyd, a'r CFP perthnasol, gysylltiadau cymunedol cryf, cyfleusterau ac ymagweddau allai gefnogi'r peilot.

- 2.5 Os oedd beirniadaeth o sefydliad y peilot, roedd yn ymwneud â strwythurau rheoli yn lleol a'r sefydliad dosbarth/cenedlaethol. Yn lleol, byddai'r asiantaethau allweddol wedi gwerthfawrogi mwy o amser i gwrdd a chyfnewid gwybodaeth a dysgu allai eu helpu i wella cynnig y peilot i fodloni anghenion lleol yn well. Byddai mwy o bwyslais ar hyn yn fuddiol, er y gallai arallgyfeirio adnoddau i'r gweithgaredd hwn fod yn heriol.
- 2.6 Roedd rhywfaint o bryder fod y strwythur rheoli i'r peilot yn ddryslyd ar gyfer staff nad oeddynt yn gweithio i'r JCP. Efallai na fydd gan Reolwyr JCP ar lefel dosbarth annibyniaeth i wneud penderfyniadau heb ymgynghori ar lefel genedlaethol ac felly roeddynt yn gam canolradd rhwng staff lleol (o'r holl asiantaethau allweddol) a'r rhai ar lefel genedlaethol. Efallai y byddai strwythur symlach, yn arbennig o ystyried maint bychan y peilot, wedi bod yn fuddiol.

Dewis Cynghorwyr Cyflogaeth Rhiant

- 2.7 Yn y rhan fwyaf o achosion, detholwyd y PEAs ar sail profiad blaenorol o arwain allgymorth mewn cymunedau ac/neu o weithio gyda gwahanol grwpiau, yn cynnwys gwahanol grwpiau cwsmeriaid a chyflogwyr, neu mewn rolau nad ydynt yn wynebu'r cyhoedd, yn cynnwys ymagweddau marchnata. Yn debyg i'r peilot yn Lloegr, ymddengys i'r profiad hwn fod yn fuddiol iawn.
- 2.8 Yn ogystal, ar gyfer y set sgiliau hon, arddangosodd y peilot yn Lloegr fod gwybodaeth o weithdrefnau a phrosesau JCP yn werthfawr. Roedd hyn yn wir yn y peilot Cymreig gan i un PEA oedd â phrofiad cyfyngedig o weithio o yn y JCP ei chael yn anodd darparu'r wybodaeth fanwl oedd yr ICC, staff CF a rhieni ei angen ar adegau.
- 2.9 Roedd yn amlwg fod priodweddau penodol yn ddymunol ymysg PEAs, ac y gallai newid PEAs arwain at ddarparu set sgiliau/priodweddau uwch i'r peilot. Roedd y sgiliau a phriodweddau oedd yn ymddangos i fod yn allweddol i gynnydd yn cynnwys ymagwedd ragweithiol, parodwydd i fynd a'u hunain a'u gwaith i'r gymuned, hyblygrwydd o ran sut oeddynt yn dehongli eu rôl, a gwybodaeth o waith y JCP.

- 2.10 Roedd y PEAs a ddynodwyd i'r peilot wedi newid mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i amgylchiadau personol (e.e. absenoldeb salwch ac absenoldeb mamolaeth) ac er y gallai hyn gael effaith ar gyflawniad, roedd yn ddealladwy tu hwnt i reolaeth y peilot.
- 2.11 Gallai newid PEA gael effaith ar gyflawniad y peilot gan ei fod yn angenrheidiol er mwyn sefydlu perthnasau a dulliau gweithio newydd gydag asiantaethau allweddol ac i feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas unwaith eto gyda rhieni. Yn fwy positif, gallai PEA newydd ddod â safbwynt newydd a gwahanol gyfres o sgiliau. Roedd p'un a oedd unrhyw effaith arwyddocaol o newidiadau staff ar gyflawniad yn ymarferol yn dibynnu'n fawr iawn ar frwdfrydedd yr asiantaethau allweddol i ddechrau o'r dechrau eto gyda staffio newydd, a allai fod wedi ei hysbysu gan eu perthynas gyda staff yn gadael a dehongliadau o staff newydd eu penodi.

Lleoliad Cyngorwyr Cyflogaeth Rhieni

- 2.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y PEAs wedi eu lleoli yn gyntaf o fewn yr ICC er bod prif ganolfan un gyda CF. Ni threuliodd yr un o'r PEAs eu holl amser yn yr ICC. Ym mhob ardal, neilltuwyd amser ar gyfer gweithgareddau allgymorth yn y gymuned ac mewn eiddo CF. Mae hyn yn alinio'n dda gydag amcanion y peilot. Treuliwyd o leiaf un diwrnod, ac yn fwy aml dau ddiwrnod, yr wythnos o amser PEA yn y gymuned.
- 2.13 Roedd gan y rhan fwyaf o'r PEAs ofod preifat neu swyddfa yn y lleoliad ICC neu CF ble gallant gyflawni cyfweiliadau yn canolbwyntio ar waith a thrafodaethau preifat eraill gyda rhieni. Fodd bynnag, nid oedd gofod preifat wedi bod ar gael o gychwyn cyntaf y peilot. Mewn rhai achosion, roedd angen trafodaeth sylweddol er mwyn i staff yr ICC neu CF ddeall pam fod angen preifatrwydd a sut y gellid ei sicrhau. Roedd hyn am fod ICCs yn aml yn llawn, neu'n agos at fod yn llawn, o ran y gwasanaethau integredig y gallent ddarparu ar eu cyfer. Dylid nodi mewn un ardal, na chafwyd gofod preifat penodedig ar gyfer y peilot o gwbl.
- 2.14 Roedd trefniant gofodau preifat (ble roeddynt ar gael) yn amrywiol, gyda rhai yn cynnig cyfleusterau mwy derbyniol i blant (seddi meddal, teganau

ac ati) nag eraill. Roedd yr un yn wir yn y gwerthusiad o'r peilot Saesneg ac mae trefn y swyddfa yn debygol o fod yn adlewyrchiad i'r adnoddau sydd ar gael ym mhob ICC. Un argymhelliad o'r peilot yn Lloegr oedd y dylai gwasanaethau cyflogaeth fod wedi eu lleoli mewn ICCs sydd â'r gallu i ddarparu gofod cyfarfodydd, a gellid dadlau y gallai'r peilot Cymreig fod wedi rhoi mwy o bwyslais ar hyn. Roedd argymhellion eraill o Loegr ynglŷn â dethol ICCs yn cynnwys eu lleoliad mewn cymunedau o amddifadedd a nifer uchel sefydledig o ymwelwyr sy'n rhieni – ymddengys y deliwyd â'r ddau argymhelliad hyn yn y peilot Cymreig.

- 2.15 Roedd y lleoliadau ICC a CF eu hunain yn cynnig ystod o gyfleusterau y gallai rhieni elwa ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys gorsafoedd cyfrifiadurol, llyfrgelloedd llyfrau a theganau, a gofodau caffi. Yn aml roed PEAs yn gwneud defnydd o'r rhain i naill ai gyrraedd rhieni ac/neu i gynnig cefnogaeth – fel cefnogaeth sgiliau TG neu i helpu gyda fformatio llythyrau a CVs. Roeddynt hefyd yn amlygu'r cyfleusterau hyn i rieni nad oedd yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r ICC neu CF.

Lefel cefnogaeth cyflogaeth cyn y peilot

- 2.16 Mewn tri o'r pedwar ardal beilot, cafwyd mentrau blaenorol (rhai byrdymor yn aml) i gyflenwi cefnogaeth cyflogaeth yn y cymunedau lleol. Golygai hyn yn yr ardaloedd hynny roedd yna ddealltwriaeth sefydledig o sut fyddai cyflenwi cefnogaeth cyflogaeth trwy'r JCP (neu ffynonellau eraill) o fantais i rieni. Mewn un, roedd y prosiect cyflogaeth yn dod i ben ar yr un pryd ag y dechreuodd yr ESICC. Golygai hyn y gellid cael cyfnod trosglwyddo heb fwch mewn cefnogaeth i rieni.
- 2.17 Ymhellach, mae gan y CF amcanion sy'n ymwneud â chyflogadwyedd unigolion yn ei gymunedau; felly yn y rhan fwyaf o ardaloedd roedd darpariaeth fel clybiau swyddi neu glybiau gwaith, cefnogaeth CV a hyfforddiant yn ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd eisoes yn bodoli. Roedd yn amlwg fod PEAs wedi cynorthwyo i ailfywiogi rhywfaint o'r ddarpariaeth hon.
- 2.18 Mewn un ardal roedd tystiolaeth fod PEAs wedi cynorthwyo CF i hogi ei amcanion ymhellach tuag at gyflogaeth a chynyddu cyflogadwyedd pobl

yn y gymuned leol. Cyflawnwyd hyn trwy osod mwy o bwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth o sgiliau trosglwyddadwy.

- 2.19 Ymddengys fod y pwyslais blaenorol hwn ar gyflogaeth yn fuddiol gan awgrymu gwahaniaeth rhwng y peilot Seisnig. Yn Lloegr, mewn ambell achos, roedd rhaid i PEAs dreulio amser yn perswadio staff ICC a rhanddeiliaid lleol eraill o fanteision lleoli gwasanaethau cyflogaeth yn y gymuned, a'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hynny a'r agenda Tlodi Plant. Yng Nghymru, fe ymddengys fod yn ddealltwriaeth fwy sefydlog o rôl cyflogaeth mewn lliniaru tlodi yn fwy cyffredinol, os nad tlodi plant yn benodol. Golygai'r ddealltwriaeth hon y gallai PEAs yng Nghymru ganolbwyntio eu hymdrechion ar rieni yn hytrach nag at ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol gyda'r peilot.

Heriau i sefydlu

- 2.20 Gallai i ba raddau y teimlai'r asiantaethau allweddol eu bod yn rhan o sefydlu'r peilot (neu a oeddynt yn teimlo y gorfodwyd y peilot arnynt) fod yn her. Fodd bynnag, gellid broceru mwy o gynhwysiant gydag amser; ac felly ni ymddengys fod yna unrhyw effaith barhaol. Yn ogystal, roedd tensiynau yn ymwneud â'r ymagwedd i gyflwyno'r peilot ac i ba raddau y'i gwelwyd fel trafodaeth rhwng y tair asiantaeth allweddol, neu agenda a orfodwyd gan un; ar lawr gwlad, roedd asiantaethau allweddol wedi croesawu a chefnogi'r staff gweithredol a'r ESICC.
- 2.21 Roedd heriau eraill, oedd i'w cael ar draws yr holl ardaloedd peilot, yn amgylchynu ffynonellu a chyfleusterau megis canfod gofod preifat i PEAs, cyflenwi rhynggrwyd/band eang a deunydd marchnata. Byddwn yn archwilio effaith y materion adnodau hyn yn yr adran ar gyflawni.
- 2.22 Yn ogystal i'r heriau adnoddau, roedd yna rai gweithredol. Roedd y rhain yn adlewyrchu gwahanol ddehongliadau o rôl a diben y PEAs (e.e. i fod 'ar lawr gwlad' yn yr ICC, bod yn weithredol yn y gymuned neu gwblhau dyletswyddau swyddfa gefn), sut fyddent yn cael eu rheoli (h.y. gan JCP, ICC/CF neu ymagwedd matrices), a rhywfaint o ddryswch o ran cyfrifoldebau'r gwahanol asiantaethau allweddol yng ngweithrediad y peilot (ymddengys fod hyn yn cysylltu yn ôl i sut y trafodwyd y gweithrediad ar lefel leol). Gydag amser, datryswyd y sefyllfa wrth i'r

gwerth a gyflawnwyd gan y PEAs trwy bob agwedd o'u gwaith ddod yn amlwg i bawb oedd ynghlwm. Nid oedd y sefyllfa hon yn annhebyg i gamau cynnar y peilot Saesneg ble byddai partïon wedi gwerthfawrogi canllaw mwy pendant am rolau a chyfrifoldebau o'r cychwyn.

2.23 Gwersi allweddol o gam cynnar gwaith oedd y byddai pwyslais ar godi ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu yn cyflawni'r deilliannau a ddeisyfir gydag amser. Argymhellodd PEAs a rhanddeiliaid eraill y dylai hyn lunio'r rhan fwyaf o waith y PEAs ar gychwyn y fenter.

Rôl y CF o ran cyflenwi

- 2.24 Awgrymodd rhanddeiliaid cenedlaethol fod gan CF botensial arbennig i gefnogi mewnosodiad buan y peilot ac y gallai helpu lliniaru rhai o'r heriau a welwyd yn y gweithrediad yn Lloegr. Roedd y rhain yn ymwneud â'r amser oedd angen i adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau angenrheidiol i sicrhau llwyddiant. Gan fod CF eisoes wedi eu mewnosod yn y cymunedau lleol, ac wedi rhwydweithio yn dda iawn, fe allent gynorthwyo PEAs trwy eu '*mewnosod yn*' y rhwydweithiau sefydledig hyn.
- 2.25 Yn ymarferol, roedd rhwydweithiau cryf CF yn ased enfawr ac wedi golygu y gallai'r peilot gychwyn '*gweithredu ar unwaith*'. Gwnaeth y PEAs ddefnydd sylweddol o'r rhwydweithiau a sefydlwyd gan CF a mewnosod eu hunain yn gyflym i rai'r ICC hefyd. Golygai hyn, yn hytrach na threulio amser yn cwmpasu sefydliadau/darpariaeth leol, adeiladu perthnasau a datblygu gwybodaeth gwasanaethau lleol (yr amcangyfrifodd un Cydlynnydd CF fyddai'n cymryd rhwng chwech a naw mis), roedd y PEAs yn gallu cychwyn cyflawniad effeithiol yn fuan (e.e. o fewn mis i gychwyn gwaith peilot).
- 2.26 Roedd CF hefyd yn bartner gweithredol i'r peilot (ac wrth gwrs yn gyd sylfaenydd gyda JCP). Cymerodd Cydlynwyr lleol rôl weithredol mewn cyflawniad a, gyda gweithwyr datblygu CF, roeddynt wedi ymgysylltu'n fawr iawn gyda nodau a chyflenwad y peilot. Cynigiodd CFPs gefnogaeth benodol o ran marchnata'r peilot trwy ei gynnwys mewn cylchlythyrau a danfoniad post eraill mewn cymunedau lleol ac yn eu

trafodaethau gydag unigolion yn y gymuned leol a gyda phartneriaid wedi rhwydweithio.

- 2.27 Roedd awgrymiadau fod yr ymagweddau CF ac ESICC wedi croestorri'n dda. Er enghraifft, gallai gweithwyr CF ddarparu cefnogaeth brysbennu i unigolion yn y gymuned, gan eu cyfeirio at wasanaethau a chefnogaeth angenrheidiol (e.e. i drechu rhwystrau penodol neu i ennill hyder) nes y byddant yn barod am gefnogaeth cyflogaeth fwy penodol. Fel hyn, roedd y CF yn darparu cefnogaeth 'amlapio' i'r ESICC. Gallai'r PEAs hefyd ddefnyddio'r rhwydweithiau cyfeirio CF i gyfarwyddo rhieni yr oeddynt yn gweithio gyda nhw at ffynonellau cefnogaeth priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae hyn yn gyson â'r ymagweddau a sefydlwyd yn y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi'², sy'n nodi rôl bendant ar gyfer ymagweddau amlasiantaethol i liniaru tlodi plant a theuluol.
- 2.28 Rôl allweddol a chwaraewyd gan weithwyr CF oedd helpu ESICC i ymgysylltu â'r rhieni anod eu cyrraedd (HTR). Mae hyn yn rhannol am y gwelir CFP fel rhywbeth anfygythiol i rieni HTR gan eu bod yn gorff anstatudol heb rym gorfodaeth dros fywydau rhieni/unigolion: *'Rydym yn denu'r bobl anoddaf i'w cyrraedd oherwydd fe'n gwelir fel gwasanaeth cymdeithasol yn y gymuned.'*
- 2.29 Roedd gan nifer o'r teuluoedd hyn ddehongliadau negyddol o JCP ac yn debygol o fod wedi eu datgysylltu o wasanaethau cyflogaeth prif ffrwd; teimlai PEA *'nad oeddynt yn gallu cyfathrebu'n gywir gyda'r Ganolfan Waith'* tra bod Rheolwr ICC yn teimlo fod y rhieni HTR hyn – oedd yn hawdd i'w adnabod gan staff yn gweithio mewn cymunedau – wedi tueddu i gael eu *'hanghofio'* gan y gymuned ehangach. Roedd cyrraedd y grwpiau hyn – a adroddwyd i fod yn arwain at arbedion parthed gwasanaethau cymdeithasol, timau prawf a phlisma – yn allweddol i'r prosiect. *'Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn yn dysgu unrhyw beth mor sylfaenol o'r prosiect, sef bod angen i chi fynd ar ôl y grŵp hwnnw [yr anoddaf i'w helpu] a dal ati, oherwydd mae'r... enillion posibl werth miliynau o bunnoedd.'* [Rheolwr ICC]

² Llywodraeth Cymru (2012) Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016

2.30 Ble bu gweithwyr CF yn ymgysylltu â'r grwpiau, fe sefydlont gydberthynas ac ymddiriedaeth y gallant ddod i mewn i'r PEAs pan fo'n briodol, gan adeiladu ar yr ymddiriedaeth hon. Yn nodedig, roedd yn anodd i'r PEAs a'r ESICC yn gyffredinol i sicrhau cynnydd gyda rhieni HTR ble nad oedd CF wedi llwyddo i wneud ychwaith. Awgryma hyn fod CF yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau cyrhaeddiad ehangach yr ESICC.

Beth oedd cyflawniad yn golygu

Sut y treuliodd Cyngorwyr Cyflogaeth Rhieni eu hamser

2.31 Fel byddid disgwyl, roedd rhywfaint o amrywiaeth rhwng y pedair ardal o ran sut y defnyddiai PEAs eu hamser. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd yn amlwg fod angen i'r rôl gydbwyso gweithgaredd ymgysylltu ac allgymorth, cyflenwi cefnogaeth cyflogaeth benodedig a chyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith (WFI), yn ogystal â darparu cefnogaeth cyflogaeth galw heibio.

2.32 Ar gyfer PEAs, roedd angen cyfnod o addasu i ddeall sut y gellid cydbwyso'r agweddau hyn o'r rôl. Yn aml roedd hyn yn ymagwedd llawer llai ffurfiol nag a ddefnyddiwyd yn swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith:

'Pan gyrhaeddais yma i weithio, wedi bod yn gweithio yn y Ganolfan Waith am gyhyd, fe sylweddolais y byddai'n rhaid i mi newid fy null o weithio'n llwyr.'

2.33 Datblygodd y ddealltwriaeth fod sesiynau galw i mewn yn bwysig gydag amser gan arwain at ymagweddau newydd o ran cyflawniad WFIs i sicrhau bod digon o amser ar gael i'r ddwy agwedd. Mewn un maes, roedd WFIs grŵp wedi eu cyflwyno oedd yn cynnwys grŵp bychan o rieni - yn barod i rannu'r sesiwn - mewn sesiwn cefnogaeth cyflogaeth un i ddwy awr. Adroddwyd bod yr ymagwedd arloesol hon yn dilyn strwythur WFIs un i un, er ei fod yn galluogi rhieni i rannu gwahanol safbwyntiau a barnau yn ogystal â dysgu o'i gilydd. Efallai ei fod hefyd wedi cynyddu hyder rhieni i rannu gwybodaeth am rai o'u hamgylchiadau gan eu bod wedi sicrhau cefnogaeth gan gyfoedion. Fodd bynnag, i fod yn effeithiol roedd yn allweddol fod rhieni yn rhoi

caniatâd gwybodus i fod yn rhan o'r grŵp, ac y daethpwyd i gytundeb am ddatgeliad a chyfrinachedd cyn i'r cyfarfodydd grŵp gychwyn. Roedd hefyd yn bwysig i rieni wybod y gallent gael mynediad at gefnogaeth un i un os nad ydynt yn gyfforddus yn trafod rhai materion mewn sesiwn grŵp.

- 2.34 Cynhwyswyd cyflawniad y WFIs yn rhan o'r ESICC o'r cychwyn, oedd yn amrywiad ar y peilot yn Lloegr. Fodd bynnag, ymddengys fod yr ymagwedd hon yn fuddiol: golygai y gellid cyfeirio rhieni cymwys at yr ESICC gan JCP gan sicrhau llif o gwsmeriaid i'r gwasanaeth; yn ail, unwaith yn safle'r peilot, gan amlaf, gellid cyflwyno rhieni nad oedd eisoes yn ei ddefnyddio i'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael; yn fwyaf allweddol, roedd rhieni yn falch i gael lle llai ffurfiol, gyda darpariaeth i blant, i'w fynychu (oedd yn dyblygu profiad yn Lloegr) ac felly'n lledaenu'r gair yn y gymuned, a helpodd greu galw am y gwasanaeth.
- 2.35 I gychwyn dylai'r amser a dreulwyd ar y gymuned, yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a rhieni lleol, fod yn uwch, er gydag amser iddo sefydlogi ar tua dau ddiwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, roedd cytundeb hefyd y byddai arian a dreulwyd fel hyn yn dod ag enillion gydag amser wrth i'r gymuned ddod yn fwy bodlon gyda PEAs a'r gefnogaeth yr oeddynt yn gynnig.
- 2.36 Ymddengys fod gwaith y PEAs wedi addasu'n dda i amgylchiadau lleol, er ei bod yn bosibl y byddai hyn wedi cymryd amser i'w sefydlu gan i'r ymchwil ddigwydd tuag at ddiwedd y cyfnod prawf cychwynnol. Roedd yn amlwg bod allgymorth yn rhan angenrheidiol o '*bontio*' tuag at gyflogaeth a sicrhau bod unigolion yn derbyn cefnogaeth i drechu rhwystrau ehangach a fyddai'n helpu eu paratoi ar gyfer cefnogaeth cyflogaeth, yn arbennig i weithwyr CF.
- 2.37 Yn debyg i brofiad y peilot yn Lloegr, gallai fod yn densiynau os nad oedd yr hol asiantaethau yn ymwybodol o sut y defnyddiwyd amser PEA – yn arbennig os nad yw'r amser yn cael ei rhannu. Yn gysylltiedig i hyn, efallai na fydd staff CF ac ICC yn deall yr amser yr oedd angen i PEAs dreulio yn cofnodi cysylltiadau a WFIs ar systemau rheoli gwybodaeth (MI). Fodd bynnag, ym mhob amgylchiad, datryswyd y tensiynau hyn trwy wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Grwpiau hawlwr gyda mynediad at y peilot

- 2.38 Y prif grŵp targed ar gyfer y peilot oedd rhieni, yn arbennig wrth i'w plant gyrraedd yr oed pan oedd disgwyl i rieni ddechrau chwilio am waith, ac fe gofnodwyd mai dyma oedd mwyafrif y rhai a dderbyniodd gymorth. Fodd bynnag, cafodd grwpiau hawlwr eraill fynediad at y gwasanaeth, yn cynnwys rhieni sy'n derbyn Lwfans Cefnogaeth cyflogaeth (ESA), y rhai nad ydynt yn derbyn budd-daliadau, a grwpiau na chefnogir yn draddodiadol gan JCP, fel enillwyr ail gyflog posibl.
- 2.39 Roedd yna neges gref yn codi o'r ymchwil y dylai rhai PEAs weithio gyda phob rhiant, a'u bod yn gwneud hyn, er bod rhai rhieni yn y grwpiau ffocws yn teimlo fod unig rieni yn derbyn cefnogaeth fwy dwys. Ar y cyfan, roedd manteision gweithio gydag ystod o rieni yn cynnwys trosglwyddo'r neges trwy dafod lleferydd fod yr ESICC ar gael ac yn werth gael mynediad ato.
- 2.40 Cefnogwyd ystod o anghenion ymysg rhieni gan y peilot. Er ei fod wedi ei ganoli ar wardiau amddifad, ni ellir tybio fod pob rhiant yn rhannu'r un anghenion. Awgrymai'r dystiolaeth gwerthuso fod rhai rhieni yn hynod gymwys (hyd at lefel gradd) tra bod eraill angen cefnogaeth llythrennedd a rhifedd ar lefel cyn mynediad. Roedd y rhwystrau i gyflogaeth yn amrywio (er enghraifft, o ddim mwy na materion gofal plant i rwystrau lluosog ac arwyddocaol) ond roedd y peilot yn ddigon hyblyg i gefnogi'r ystod hwn o anghenion.
- 2.41 Gan weithio yn y gymuned, roedd PEAs yn hyderus eu bod yn ymgysylltu â rhieni HTR. Gallai perthnasau adeiladu o ymholiadau syml am fudd-daliadau i gefnogaeth fwy helaeth. Teimlai PEAs na fyddai rhieni HTR wedi rhannu gwybodaeth am eu sefyllfa mor agored heb gael cyfle i fagu perthynas, mewn camau bach, trwy'r ESICC. *'Teimlai cwsmeriaid yn gyfforddus... felly byddent yn bod yn agored ac yn dweud beth oedd yn digwydd yn eu bywydau... [tra bod] y cwsmer yn y JCP yn dueddol o ddilyn y drefn'*.
- 2.42 Gofynnwyd i rieni am eu barnau am a oedd y peilot yn cyrraedd pawb oedd yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth yn y gymuned leol. Awgrymont nad oedd, er i'r grŵp a nodwyd i fod yn ymgysylltu lleiaf â'r gwasanaeth

yn rhieni mwy cefnog, *'yn rhuthro i ffwrdd i weithio wedi gadael eu plant'*, neu'n rhieni oedd yn gwybod am y gwasanaeth ond nad oedd eu hamgylchiadau yn addas iddynt ymgysylltu.

- 2.43 Cynigiodd un fam ei hachos ei hun fel enghraifft o hyn: Nododd iddi ddysgu am y peilot o ganlyniad i gael gwybod amdano gan famau eraill yn y gymuned. Fodd bynnag, roedd yn dod o hyd i flaenoriaethau eraill i ddelio â nhw o hyd, yn gysylltiedig â chael dau o blant ag anableddau dwys oedd angen cefnogaeth iechyd ac addysgol, yn hytrach nag ymgysylltu â'r peilot. Ysgogodd atgyfeiriad i fynychu'r brif swyddfa JCP hi i wneud apwyntiad gyda'r PEA gan y teimlai fod amgylchedd y brif swyddfa JCP yn heriol parthed mynd â'i phlant yno. Awgryma hyn ei bod yn cymryd amser i ddatblygu galw, a bod yna gydadwaith â ffactorau eraill allanol sy'n pennu galw.
- 2.44 Mae trechu'r syrthni mae nifer o rieni yn teimlo yn ddi-os yn heriol. Teimlai PEAs mai un o'r cyfranwyr mwyaf i'r syrthni hwn oedd diffyg hyder, yn arbennig ymysg rhieni gyda rhwystrau lluosog i gyflogaeth oedd wedi bod allan o'r gweithlu am gyfnodau hir. Yn aml roedd angen cefnogaeth fwy dwys i feithrin hyder, gyda phwyslais ar ddangos i rieni sut i wneud pethau yn hytrach na dim ond dweud wrthynt beth i'w wneud. Mewn un ardal, roedd y Cynghorydd hefyd wedi canolbwyntio ar sefydlu hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol lefel cyn mynediad i daclo rhai o'r rhwystrau hyn i hyder.

Ffocws ar Deuluoedd Anodd eu Cyrraedd (HTR)

- 2.45 Nod benodol y cynlluniau peilot yng Nghymru a Lloegr oedd ymgysylltu gyda'r teuluoedd hynny y gellid eu dosbarthu yn 'anodd eu cyrraedd' (HTR). Gellir dosbarthu'r categori HTR hwn yn ddau fath eang o rieni - un sy'n anodd i'r JCP ei gyrraedd yn logistaidd, a'r llall y mae gan y JCP gyswllt mwy rheolaidd â nhw y byddai'r term 'anodd ymgysylltu â nhw' yn fwy addas iddynt.
- 2.46 Mae'r categori HTR cyntaf yn cynnwys rhieni nad ydynt yn gweithio ond sy'n annhebygol o gael unrhyw gyswllt â'r JCP am fod ganddynt bartner mewn gwaith. Gelwir y rhain yn 'enillwyr ail gyflog posibl', ac fel arfer maent yn rhieni nad ydynt yn gymwys am Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)

ac nad ydynt yn chwilio'n weithredol am waith. Fodd bynnag, o ystyried fod gan tua hanner plant sy'n byw mewn tlodi riant mewn gwaith a bod risg sylweddol is i gartrefi ble mae dau yn ennill cyflog syrthio i dlodi³, maent yn darged pwysig i wasanaethau cyflogaeth er nad ydynt yn gwsmeriaid JCP traddodiadol.

- 2.47 Roedd tystiolaeth gyfyngedig ynglŷn ag i ba raddau oedd y grŵp HTR hwn wedi ymgysylltu â'r peilot. Roedd rhai rhieni yn y categori hwn wedi eu cynnwys yn yr ymchwil grŵp ffocws ac fe nododd PEAs ar wahân berthnasedd cynnig cefnogaeth cyflogaeth iddynt. Nododd y ddwy ffynhonnell na thargedwyd gwasanaethau statudol i gefnogi enillwyr ail gyflog posibl. Fodd bynnag, roedd gan darparu cefnogaeth cyflogaeth allai symud rhieni o'r fath tuag at, ac yn ddelfrydol i mewn i, waith y potensial i gynyddu diogelwch ariannol teuluoedd trwy leihau eu dibyniaeth ar gyflog un riant. Ar gyfer y grŵp hwn, roedd gofal plant fforddiadwy yn rhwystr, a gellir cyflenwi cefnogaeth arbenigol ar hyn trwy'r gwasanaethau a gydleolwyd yn yr ICCs.
- 2.48 Yr ail grŵp HTR yw'r rhai mae'r JCP yn ymwybodol ohonynt, ond sy'n 'anodd ymgysylltu â nhw' - i'r JCP a sefydliadau cymunedol. Mae'r rhieni hyn yn dueddol o fod â rhwystrau lluosog i gyflogaeth, megis cofnodion troseddol, diffyg sgiliau sylfaenol, problemau corfforol neu feddyliol, materion gofal plant, a phroblemau gyda dyled neu gamdriniaeth o sylweddau. Yn aml maent wedi treulio cyfnodau hir iawn allan o'r farchnad lafur, a gallant fod yn amheus o'r JCP ac yn amharod i ymgysylltu â chefnogaeth cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r rhieni hyn hefyd yn debygol o fod yn bell o'r farchnad lafur, gan alw am gefnogaeth a hyfforddiant hirdymor a dwys.
- 2.49 Teimlai'r rhai a gyfwelwyd i'r peilot fod yn arbennig o effeithiol o ran cyrraedd y grŵp 'anodd ymgysylltu ag o' hwn. Roedd hyn yn gysylltiedig yn helaeth ar gynnwys CF a'u cysylltiadau gyda sefydliadau allgymorth cymunedol eraill. Er enghraifft, mewn un ardal, gallai'r PEA ddefnyddio rhwydweithiau CF i gael mynediad at ystod o wasanaethau a ganolbwyntiai ar yr anoddaf i'w helpu, megis darpariaeth parseli bwyd,

³ Harker, L. (2006). Delivering on child poverty: What would it take? Llundain: DWP

ymweliadau cartref, gwasanaethau cyngor dyledion a mentora. Teimlai PEAs hefyd fod ymagwedd seiliedig ar y gymuned yn rhoi amser a hyblygrwydd iddynt i ail-ymgysylltu â'r teuluoedd hyn, ennill eu hymddiriedaeth, ac i ddechrau taclo'r rhwystrau lluosog a wynebant. Roedd hyn yn galluogi'r peilot i gynnig cefnogaeth llawer mwy personol a pharhaus na fyddai fel arfer ar gael mewn JCP. Ystyriwyd ymgysylltiad y grŵp hwn o rieni i fod yn elfen ganolog i werth ychwanegol y peilot hwn, gan fod y grwpiau hyn yn cyflwyno cost sylweddol i wasanaethau lleol cyhoeddus (megis plismona a phrawf).

Y mathau mwyaf poblogaidd o gefnogaeth cyflogaeth

- 2.50 Adroddodd y PEAs mai Cyfrifiadau Gwell eu Byd (BOC), WFIs a chyngor galw heibio oedd y mwyaf poblogaidd – yn bennaf yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd yna rywfaint o amrywiaeth rhwng y safleoedd peilot oedd yn adlewyrchu sut oedd yr asiantaethau allweddol yn gweld gwerth ychwanegol yr ESICC.
- 2.51 Mewn un safle, roedd yr ESICC wedi, yng ngeiriau'r Rheolwr ICC *'ein cwblhau'*. Golygai fod cyfres lawn o wasanaethau ar gael i rieni oedd yn darparu cefnogaeth gynhwysfawr. Roedd pob un o'r gwasanaethau yn deall eu cryfderau a'r ffiniau o ran eu gwybodaeth ac arbenigedd, ac felly'n croes gyfeirio yn gyson. Roedd hefyd yn amlwg y cefnogwyd y trosiant rhwng gwasanaethau cefnogaeth wedi cydleoli gan 'drosglwyddiadau cynnes' rhwng y gwahanol gynghorwyr, oedd yn helpu sicrhau fod rhieni yn cael mynediad i'r gefnogaeth a nododd gwasanaethau eu bod angen. Cynigiwyd sawl enghraifft am sut yr oedd hyn yn helpu rhieni i drechu rhwystrau a sut y cyflenwyd gwasanaethau mewn modd fyddai'n osgoi dyblygiad ymdrechion. Mae'r ymagwedd hon yn amlwg yn cysylltu i'r uchelgais a sefydlwyd yn y Ddeddf Tlodi Plant (2010) a'r Strategaeth Tlodi Plant (2011), sydd ill dau yn annog cydleoli gwasanaethau i ddarparu ymyrraeth gynnar ac effeithiol ac ymagweddau teulu cyfan i daclo tlodi plant.
- 2.52 Mewn cyferbyniad, daeth y Cyfrifiad Gwell eu Byd (BOC) i dra-arglwyddiaethu ar gynnig yr ESICC mewn safle arall gan y gwelwyd hyn fel y gwerth atodol gan asiantaethau allweddol a'r rheswm pam eu bod

yn cyfeirio rhieni ar y PEA. Yn yr ardal hon, roedd gan yr ICC a CF hanes cymharol hir o gynnig eu gweithgareddau cyflogaeth eu hunain (trwy hyfforddiant yn ymwneud â chyflogaeth, clybiau gwaith, profiad gwaith a broceru cyfleoedd gwirfoddoli). Yn eu barn nhw, gallai'r elfen JCP ganolbwyntio orau ar gynorthwyo rhieni i lywio'r system JCP a deall sut y gallai gweithio fod yn fuddiol i'w sefyllfa ariannol.

- 2.53 Fodd bynnag, er bod y BOCs wedi datblygu i fod y nodwedd bwysicaf yma, sicrhodd y PEA fod gwasanaethau yn ymestyn tu hwnt i hyn ac yn cyflenwi cefnogaeth ar hyder a hunan-barch. Roedd y PEA hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol i sicrhau gwell cyrhaeddiad. Roedd rhieni wedi dechrau gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon: *'Mae'n gwneud i chi gredu y gallwch wneud unrhyw beth, ac mae'n cofio pwy ydych chi.'*
- 2.54 Roedd parhad y gefnogaeth oedd ar gael trwy'r PEAs yn fantais allweddol a nodwyd gan rieni. Byddai'r PEAs yn cofio eu straeon – hyd yn oed os nad oedd cofnod o achos y rhiant, ac roedd hyn yn meithrin ymddiriedaeth a alluogodd y rhieni i sicrhau cynnydd tuag ar gyflogaeth trwy gymryd rhan mewn hyfforddiant neu fathau eraill o gefnogaeth.
- 2.55 Ar y cyfan, ymddengys fod y PEA wedi integreiddio'n dda gyda'r ICCs a'r CFPs. Roedd tystiolaeth eu bod wedi eu hystyried yn rhan o'r tîm, a'u bod yn ymwneud â gweithgareddau a gefnogai amcanion ehangach yr ICCs a'r CF, yn ogystal â rhai'r peilot.

Targedau

- 2.56 Ar lefel genedlaethol, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn ag a ddylid gosod targedau i'r peilot yng Nghymru (ac yn Lloegr fe weithredwyd y peilot heb dargedau), ond daethpwyd i benderfyniad fod targedau'n bwysig fel modd o fonitro cynnydd ac effaith y peilot. Roedd yn amlwg fod y targedau yn gosod disgwyliad o ran beth allai ddylai ddeillio o'r gwaith ac yn gweithredu fel llyw i'r rhai oedd yn gweithio ar gyflenwi.
- 2.57 Ar lefel leol, nododd y rhai a gyfwelwyd fod y targedau yn ymarferol yn hytrach nag ymestynnol. Fodd bynnag, nid beirniadaeth oedd hyn. Golygai gweithredu mewn amgylchedd o dargedau ymarferol y teimlai'r PEAs y gallant neilltuo swm arwyddocaol o amser i rieni HTR, y pellach

o'r farchnad lafur, heb ofni y byddent yn cael eu canfod i fod yn tanberfformio. Gydag amser, fe ymddengys fod yr ymagwedd hon yn sicrhau rhywfaint o lwyddiant: dywedodd PEA oedd wedi sicrhau canlyniad gwaith i ddau o'r rhieni HTR ym mlwyddyn 1: *'Roedd cyflawni'r ddwy swydd honno yn beth go fawr... mae'n gyflawniad enfawr i ddweud y gwir i fod wedi helpu'r grwpiau cwsmeriaid anoddaf i'w helpu.'*

- 2.58 Er nad oedd y gwerthusiad wedi cael mynediad at wybodaeth rheoli diwedd y flwyddyn, awgrymai data rhan o'r flwyddyn ar gyfer blwyddyn 2 a'r data blwyddyn lawn ar gyfer blwyddyn 2 gynnydd da, a gadarnhawyd yn y cyfweiliadau. Mewn sawl achos, adroddwyd y rhagorwyd ar y targedau ac roedd y dystiolaeth oedd ar gael yn cefnogi hyn.
- 2.59 Fodd bynnag, nododd y rhai a gyfwelwyd a'r tîm gwerthuso ambell broblem y gellid delio â nhw wrth osod targedau yn y dyfodol. Un pwynt oedd a oedd targedau yn allbynnau arwahanol i'w gilydd ac os nad, a oedd llif clir a rhesymegol rhyngddynt. Er enghraifft, roedd y ddalen gwybodaeth rhieni (MI) ar gyfer y cyfnod peilot gwreiddiol yn gofyn i'r PEAs gofnodi'r nifer o atgyfeiriadau i gyfleoedd eraill, ac fel is-grŵp, y nifer a dderbyniodd gyngor ar hyfforddiant, ac o'r *rhain* y nifer a gyfeiriwyd at ddarparwr hyfforddiant, a'r o'r *rhain* y nifer a ddechreuodd dderbyn hyfforddiant. Fodd bynnag, teimlai'r PEAs fod llwybrau o gyfeiriad yn fwy amrywiol nag oedd y llif rhesymeg hwn yn caniatáu.
- 2.60 Mater arall oedd a oedd yna gyswllt digon cryf rhwng rhai o amcanion y peilot, a'r targedau a gofnodwyd ar yr MI. Er enghraifft, ni chofnodwyd data manwl gywir ar gyfer y nifer o gleientiaid newydd yn bodloni'r PEAs; yn hytrach cofnododd yr MI y nifer o gleientiaid a ymgysylltodd â'r PEAs.
- 2.61 Yn bwysicach fyth, cynigiodd y rhai a gyfwelwyd rywfaint o fewnwelediad i sut yr oedd y targedau wedi eu dehongli'n wahanol ymysg y rhai dan sylw. Er enghraifft, adroddwyd y gallai gwahaniaethau godi yn nehongliad cyfeirio ac atgyfeirio; hefyd a oedd hyn yn cynrychioli allbwn unigryw o ystyried natur ac amcanion gwaith yr ICC a'r CFP.
- 2.62 Adroddodd gweithwyr CF bod atgyfeirio a chyfeirio yn ail natur ac wedi ei fewnosod yn eu rôl, ac nad oedd yn rhywbeth y byddent yn weld yn naturiol fel allbwn o'u gwaith. Gwnaethpwyd y pwynt y gellid fod wedi cynnwys CF ac ICCs yn fwy mewn cynllunio'r targedau – yn arbennig y

rhai oedd yn ymwneud â'u gweithgareddau. Adroddodd rhai ardaloedd anawsterau o ran cael CF ac ICCs i adrodd ar eu hallbynnau parthed y peilot, ac ynghyd ag ymagweddau llai gweithdrefnol yn y sefydliadau hynny o gymharu â'r JCP, efallai i ddiffyg cynhwysiant yng nghynllunio targedau fod yn ffactor.

2.63 Gwnaethpwyd pwynt hefyd am y mentrau a weithredai ar y cyd â'r peilot, yn arbennig yn ei flwyddyn gyntaf. Mewn un ardal, nododd PEA y cyflawnwyd y targed cyflogaeth ym mlwyddyn 1. Fodd bynnag, roedd y swyddi a sicrhaodd rhieni yn rolau Cronfa Swyddi'r Dyfodol (FJF) nad oeddynt yn teimlo oedd yn gwarantu cynaliadwyedd⁴. Nid yw'n glir pa mor bell mae rolau FJF wedi dylanwadu ar allbynnau cyflogaeth mewn meysydd eraill.

2.64 Yn fwy trawiadol, cyflawnodd y JCP asesiadau cynaliadwyedd ar gyfer yr ESICC, ym Medi 2010 a Medi 2011, sy'n adrodd ar ddeilliannau cyflogaeth ac all-lifoedd o fudd-daliadau, gan rannu penawdau o hyn gyda'r gwerthusiad. Dengys y data hwn fod:

- Bod 64 y cant o gwsmeriaid a gafodd gymorth gan y peilot a sicrhaodd gyflogaeth rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 yn dal mewn gwaith neu heb ddychwelyd at hawlio budd-daliadau di-waith chwe mis yn ddiweddarach, a
- Bod 92 y cant o gwsmeriaid a gafodd gymorth gan y peilot a sicrhaodd gyflogaeth rhwng 01.04.11 a 30.09.11 yn dal mewn gwaith neu heb ddychwelyd at hawlio budd-daliadau di-waith chwe mis yn ddiweddarach.

Mae JCP yn bwriadu cynnal ymarfer tebyg ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth 2012 ym Medi 2012.

2.65 Un pwynt terfynol yw i ba raddau y cofnododd y targedau holl drwybynnau'r peilot. Er enghraifft, roedd yn amlwg y cafwyd cyflawniadau penodol o ran ymgysylltu ag a chefnogi teuluoedd HTR gyda deilliannau perthnasol, megis sesiynau cyngor a hyfforddiant,

⁴ Nid oes gwerthusiad a gomisiynwyd yn genedlaethol wedi ei gyflawni o'r FJF, ond fe gyhoeddodd y DWP astudiaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad cynnar sy'n awgrymu nad oedd 50 y cant o'r rhai oedd yn ymgysylltu â'r FJF yn dychwelyd i fod ar fudd-daliadau; ar gael yma, lawrlwythwyd Gorffennaf 2012: http://research.dwp.gov.uk/asd/asd1/adhoc_analysis/2010/fjf_nov_2010.pdf

mewn rhai ardaloedd, nad oedd yr MI yn gallu eu cofnodi'n ddigon trylwyr i fanylu ar effaith benodol y peilot ar y grwpiau hyn o rieni.

Gweithio mewn partneriaeth

- 2.66 Ym mhob achos, roedd partneriaethau a atgyfnerthwyd wedi datblygu o ganlyniad i'r peilot. Yn allweddol ymysg y rhain oedd gwell dehongliad o JCP gan asiantaethau allweddol eraill ac yn arbennig CF (yr oedd eu barn yn aml wedi ei ddylanwadu gan brofiadau o aelodau'r gymuned leol gyda'r gwasanaeth hwn). Mae cael PEAs yn y gymuned wedi trechu rhai o'r ystrydebau o'r JCP.
- 2.67 Yn ddealladwy, roedd wedi cymryd amser ac ymdrech gan bawb i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth effeithiol. Roedd gan yr holl sefydliadau eu dulliau eu hunain o weithio. Fodd bynnag, yn fwy dylanwadol oedd y berthynas rhwng yr asiantaethau allweddol cyn y peilot. Roedd rhai enghreifftiau o hanes hir o waith partneriaeth rhwng yr ICC a JCP mewn rhai achosion, gydag un Rheolwr ICC yn adrodd bod Rheolwr JCP allweddol yn *'angerddol am yr hyn a wnawn'*.
- 2.68 Roedd gweithio mewn partneriaeth wedi ei sefydlu'n fwyaf cadarn ble roedd ymddiriedaeth yn y PEAs eu bod yn cyflawni eu rôl. Yn hyn o beth, roedd angen cael eu gweld i fod yn weithredol gan yr asiantaethau allweddol, neu i esbonio pam eu bod angen treulio amser i ffwrdd o gyflawni i ddatblygu dealltwriaeth o beth oedd ynghlwm â'u rôl, oedd yn cynnwys diweddarau'r System Marchnad Lafur JCP (LMS) wedi cwblhau WFIs a chyfweliadau/galw heibio arall.
- 2.69 Roedd yn amlwg y croesawyd PEAs i rwydweithiau lleol gan ddod yn rhan effeithiol ohonynt. Cafwyd sawl enghraifft o drosglwyddiadau rhwng gwahanol wasanaethau cefnogaeth arbenigol ac o wasanaethau a'r ESICC yn cydweithio i fodloni targedau – pob un yn berthnasol i'r nodau a sefydlwyd yn y Ddeddf Tlodi Plant 2011 a'r Strategaeth Tlodi Plant cysylltiedig. Roedd enghreifftiau yn cynnwys atgyfeirio rhieni at gyngor ar ddyledion gan CF neu Swyddfa Cyngor ar Bopeth. Gallai gwasanaethau cymorth hefyd gysylltu â PEAs am gyngor manwl ar drefniadau newydd i hawlwyd megis prosesau cosbi budd-daliadau dan y Rhaglen Waith.

- 2.70 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad y gall cynyddu mynediad i **ofal plant** fforddiadwy wneud i gefnogi trosiant i gyflogaeth, ac felly'n helpu lliniaru tlodi.⁵ Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCA) yn rhan o'r rhwydwaith ICC, gan ddarparu gwybodaeth ar argaeledd gwahanol ffynonellau gofal plant, ond yn allweddol, ar ddatblygu gyrfa fel gofalwr plant. Gosodwyd y dasg i'r PEAs gyfrannu i'r agenda hon trwy gyfeirio rhieni â diddordeb at wasanaethau addasu trwy'r NCA. Gallai gofal plant hefyd ddarparu gwaith hunangyflogedig, a gofynnwyd i'r PEAs ystyried hyn. Defnyddiodd un PEA gysylltiadau CF i drefnu lleoliadau gwirfoddol i rieni oedd â diddordeb mewn datblygu gyrfa mewn gofal plant mewn meithrinfeydd a chanolfannau teuluol CF lleol. Ers hynny aeth nifer o rieni ymlaen i gychwyn hyfforddiant gofal plant ffurfiol. Cyfeiriodd ESICC arall rieni oedd â diddordeb mewn datblygu gyrfa mewn gofal plant at y Cynghorydd NCA. Arweiniodd hyn at ddeilliant hyfforddiant ar gyfer y peilot a helpodd yr NCA i gyflawni ei dargedau canlyniad hefyd.
- 2.71 Roedd enghreifftiau hefyd o sut yr oedd yr asiantaethau allweddol yn cydweithio i gyflenwi amcanion eu peilot. Daeth yr enghraifft ym Mluch 1 o Benlan.

⁵ Llywodraeth Cymru (2012) Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Plant

Blwch 1: Digwyddiad Get Gok!

Nod y digwyddiad hwn oedd dod â rhywbeth newydd i'r ffair yrfaeodd draddodiadol a gynhaliwyd ychydig cyn Sul y Mamau i gynnig rhywbeth arbennig i rieni tra hefyd yn darparu cyngor. Nododd y partneriaid allweddol (PEAs, CF ac ICC) angen i gynnig canllaw i rieni am gyflwyniad personol a beth i'w wisgo ar gyfer cyfweiliadau am swydd. Cynlluniwyd ymagwedd greadigol ar sut i wneud hyn a alwyd yn 'Get Gok'. Ariannodd yr ICC wisg lawn ar gyfer tri rhiant yn gweithio gyda'r PEAs. Aeth y PEAs i siopa gyda'r rhieni i'w helpu i ddewis y dillad (pob yn costio tua £30). Nod y gwisgoedd oedd bod yn addas ar gyfer gwahanol nodau gwaith (swyddfa, gwerthiant ac ati).

Defnyddiwyd y lleoliad CF ar gyfer y digwyddiad ac roedd y Cydlynnydd CF wedi gwisgo fel Gok Wan i roi adborth ar y gwisgoedd a pham eu bod yn gweithio. Cysylltodd y Gweithiwr Datblygu CF â chyflogwyr lleol i ofyn iddynt gyfrannu bagiau rhodd i'r rhieni. Roedd y bagiau yn cynnwys eitemau sba a harddwch. Cysylltwyd ag M&S (cyflogwr lleol) i arwain sesiwn gosod bras gan i'r gweithwyr CF a PEAs nodi bod rhai o'r mamau angen eu mesur eto er mwyn edrych ar eu gorau wrth fynd am gyfweiliad. Mynychodd darparwyr hyfforddiant a cholegau lleol y digwyddiad hefyd. Fodd bynnag, yn hytrach na chyflwyno eu prospectws cyfan, rhoddodd y PEAs ganllaw iddynt am y mathau o gyrsiau yr oedd rhieni a'r gymuned fwyaf eu hangen. Mynychodd tua 30 o rieni'r digwyddiad a chipiwyd eu manylion cyswllt.

Yn nodedig, cyflawnwyd o leiaf un canlyniad o waith o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

2.72 Roedd sawl enghraifft hefyd o sut yr ychwanegodd y PEAs werth i brosiectau ICCs a CFPs yn lleol (gweler Blwch 2). Gan eu bod wedi eu derbyn fel aelod o'r tîm, yn rhannol oherwydd eu parodrwydd i gymryd rhan, roedd hyn yn ymddangos i fod yn estyniad naturiol i'w gwaith.

Blwch 2: Enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth

Yn Nyffryn, cynorthwyodd y PEA CF i wneud cais am gyllid cronfa gefnogaeth hyblyg JCP i redeg cwrs magu hyder ac ysgogiad. Darparodd gyngor ar y ffordd orau o farchnata'r ddarpariaeth hon i warantu atgyfeiriadau hefyd.

O ganlyniad i wybodaeth a ddarparwyd gan PEA, helpodd gweithiwr allgymorth ICC i ddatrys digwyddiad bwlio oedd yn effeithio ar blentyn rhiant, ac fe gododd hyn rwystr i'r rhiant o ran eu taith tuag at gyflogaeth.

Ym Mharc Caia, nododd y PEA broblemau llythrennedd sylfaenol fel rhwystr sylweddol i nifer a gefnogai, ond hefyd fod diffyg darpariaeth hyfforddiant perthnasol yn lleol. Nododd mai dim ond cyrsiau achrededig (Lefel 1) oedd ar gael wedi eu hariannu, a'u bod yn rhy anodd i nifer o'i chwsmeriaid. I drechu hyn, cynigiodd CF arian o'i gyllideb hyfforddiant i ariannu darpariaeth benodol, ac fe weithiodd y PEA gyda'r awdurdod lleol i ganfod darparwr addas i lenwi'r bwch. Profodd y cyrsiau cyn mynediad hyn i fod yn boblogaidd iawn; mae lle ar gyfer 13 o ddysgwyr ac, pan gyflawnwyd yr ymchwil, roedd saith yn aros i ymuno. Cwblhaodd dau unigolyn y cwrs ac maent bellach yn barod i symud ymlaen i hyfforddiant achrededig. Roedd y PEA hefyd wedi creu partneriaethau gydag ystod o sefydliadau eraill - yn fwyaf diweddar gyda chanolfannau iechyd lleol. Roedd ymwelwyr iechyd wedi dod yn ffynhonnell bwysig o atgyfeiriadau newydd. Teimlai'r PEA fod cyswllt gydag asiantaethau eraill yn golygu nad oedd unrhyw wasanaeth nad oedd ar gael. Teimlwyd fod y peilot hefyd yn helpu'r rhai yr oedd yn eu cefnogi i ymgysylltu gyda'u cymuned leol: *'Yn amlach na dim nid ydynt yn ymwybodol o bopeth sydd ar gael iddynt.'*

Yn Llwynhendy, gallai'r PEA gyfeirio rhieni tuag at waith gwirfoddol trwy CF. Roedd rhai rhieni wedi helpu yn rhandiroedd lleol CF neu ei Ganolfannau Teuluol. Helpodd hyn i ddatblygu eu CV a rhoi profiad gwaith iddynt. Roedd rhai a fu'n gwirfoddoli mewn Canolfannau Teuluol wedi dechrau ystyried gyrfaedd neu gymwysterau gofal plant.

- 2.73 Roedd yn amlwg y gwelwyd ymagweddau integredig a gweithio ar y cyd fel allweddol yn yr ardaloedd lleol er mwyn bodloni anghenion y gymuned. O ganlyniad, teimlwyd bod lleoli gwasanaethau JCP yn y gymuned yn briodol a bod cefnogaeth arwyddocaol i barhad y gwasanaeth: *'Rhaid i ni barhau [i weithio mewn partneriaethau], mae rhai o'r teuluoedd yn dibynnu cymaint ar hyn.'*
- 2.74 Roedd rhai partneriaid allweddol i'w cynnwys yn y cynnig mewn ICCs, ac ynghyd â'r JCP yn cynnwys cyngor ar ddyledion (yn cynnwys y Swyddfa Cyngor ar Bopeth a darpariaeth dyledion CF), a gwasanaethau eraill sy'n lliniaru pwysau ariannol megis banciau bwyd. Nododd staff CF y golygai lleoli cyngor JCP yn y gymuned eu bod wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r anfanteision a wynebai rhai teuluoedd: *'Mewn canolfan alwadau, nid yw'r [Cynghorydd] JCP yn deall, nid yw'n gweld yr unigolyn hwn mewn trafferthion mawr a heb fwyd i fwydo eu plant. Yma rydym yn gweld hyn ac maent hefyd yn dod i adnabod y gwasanaethau y gallwn gynnig i helpu'r teuluoedd hynny.'*

Ymagweddau marchnata ac ymgysylltu

Cyrraedd rhieni

- 2.75 Roedd yna gonsensws er mwyn i'r neges gyrraedd rhieni, mai marchnata anffurfiol – trwy dafod lleferydd, cyfeirio, ac atgyfeiriadau ymysg rhanddeiliaid lleol – oedd bwysicaf. Roedd rhieni a gafodd brofiad positif yn yr ardal beilot yn ffynhonnell atgyfeiriadau lawn cymaint â gwasanaethau lleol eraill.
- 2.76 Yn ogystal, roedd cael y PEAs i gynnig eu hunain yn yr ICC a CF, yn y caffu neu fannau cymdeithasol, ger y dderbynfa, ac mewn digwyddiadau cymunedol hefyd yn bwysig gan y byddai cyfarfodydd achlysurol allai arwain at gyflenwi cefnogaeth yn deillio o hyn. Roedd angen meithrin perthynas â rhieni dros gyfnod o amser ac roedd hyn ddechrau da arni.
- 2.77 Mae hyn yn ffactor llwyddiant allweddol ac yn awgrymu fod angen i'r PEAs fod yn unigolion rhadlon, sy'n gallu cychwyn sgysiau anffurfiol gyda rhieni allai arwain, gydag amser, at ymgysylltu â chefnogaeth cyflogaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn galw am ymagwedd sensitif fyddai'n cymryd amser i'r PEAs ddatblygu.

- 2.78 Nid oedd pob rhiant yn gwerthfawrogi presenoldeb y PEAs yn y manau anffurfiol, cymdeithasol hyn o'r ICC, a beirniadodd rhai o'r rhieni nad oedd wedi ymgysylltu'r PEAs am gymryd gormod o amser 'o'u gwaith'. Roedd y rhieni hyn hefyd yn ddrwgdybus o'r PEAs, ac yn amau y byddai PEAs yn torri eu cyfrinachedd. Teimlai'r rhieni hyn pe byddent yn datgelu gwybodaeth am eu hamgylchiadau (fel cofnod troseddol) y byddai'n cael ei rhannu â staff eraill yn yr ICC. Mae hyn yn awgrymu pa mor bwysig ydi hi i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda rhieni, a'r swm sylweddol y gallai gymryd i wneud hyn.
- 2.79 Unwaith yr oedd y neges ynglŷn â'r ESICC yn yr agored, datblygodd cylch rhinweddol ble byddai'r rhai oedd yn derbyn gwasanaeth yn cyfeirio rhieni eraill, gan ddatblygu rhywfaint o hunangyfeirio hefyd. Roedd tafod lleferydd yn arbennig o effeithiol mewn cymunedau o deuluoedd clos ble byddai'r gair yn lledaenu'n fuan, ac mewn ardaloedd ble roedd nifer o ddefnyddwyr yr ICCs heb sgiliau llythrennedd, gan wneud cyfathrebu ysgrifenedig yn aneffeithiol.
- 2.80 Fodd bynnag, er bod y mecanweithiau anffurfiol hyn yn hynod effeithiol, roedd CF yn aml yn cefnogi marchnata ar raddfa eang. Byddai hyn yn cynnwys post at y gymuned gyfan gyda gwybodaeth am y gwasanaeth, a chynnwys erthyglau am yr ESICC yng nghylchlythyrau CF. Fodd bynnag, dylid nodi fod CF wedi eu hysgogi i raddau i fod yn gyfrifol am farchnata o ganlyniad i systemau caffael a phrosesau caeth y DWP. Arweiniodd hyn at oedi prynu cynnyrch marchnata a chyhoeddu'rwydd i gychwyn. Fodd bynnag, cymeradwywyd proses a system i gefnogi'r peilot, er prin iawn y'i defnyddiwyd i brynu deunyddiau.
- 2.81 Arbrofodd PEAs ac ICCs ychydig gyda chyfryngau cymdeithasol hefyd - yn bennaf Facebook - er bod hyn yn fwy ar ffurf hysbysebion 'blaen siop' na gwneud defnydd o nodweddion rhyngweithiol. Rhan o'r rheswm dros hyn oedd y teimlai PEAs fod mwy o ddefnydd o elfennau rhyngweithiol yn peryglu tynnu'n groes i reolau diogelwch data'r JCP. Roedd rhywfaint o awgrym y teimlai rhieni fod Facebook yn ddefnyddiol. Ar y cyfan, fodd bynnag, ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o gyfryngau cymdeithasol ac nid oedd yn glir beth fyddai'r galw ymysg rhieni ar gyfer ei ddefnydd y tu hwnt i'r hyn a welwyd.

Marchnata i randdeiliaid a gwasanaethau lleol

- 2.82 Roedd beirniadaeth ym mhob ardal nad oedd mwy o ddarpariaeth ar gyfer marchnata'r gwasanaeth i randdeiliaid lleol a gwasanaethau eraill, oedd yn rhannol yn gysylltiedig i'r gweithdrefnau caffael maith yn y JCP. Teimlwyd y byddai rhai deunyddiau wedi brandio fel taflenni neu gardiau busnes yn ddefnyddiol. Yn rhai o'r ardaloedd, rhyddhawyd rhywfaint o gyllideb yn y pen draw i ariannu hyn, yn cynnwys baneri codi. Golygai hyn pan aethai'r PEAs â stondin i ddigwyddiadau lleol, bod yna rywbeth i amlygu beth allent gynnig a denu'r llygaid.
- 2.83 Mewn un ardal, roedd CF wedi darparu rhywfaint o adnodd, er nad oedd y deunyddiau a gynhyrchwyd yn cario brand y JCP gan nad oedd wedi darparu arian ar y cyd ar gyfer y deunydd marchnata.
- 2.84 Roedd yn anodd mesur i ba raddau y cafodd y diffyg deunydd marchnata brand hwn effaith ar gyflawniad y peilot. Er ei fod yn golygu nad oedd gan y PEAs eitemau i'w rhoi'n rhoddion i wasanaethau lleol gyfeirio atynt wedi'r digwyddiad, awgrymai'r MI a data gwerthuso fod yr ESICC wedi cyflawni cyrhaeddiad da ac yn adnabyddus ymysg gwasanaethau lleol (heb os diolch i ymdrechion y PEAs, CF ac ICCs) p'run bynnag.

Effaith ddeongledig

- 2.85 Adroddodd rhieni, buddiolwyr arfaethedig y peilot, eu bod yn teimlo yn fwy hyderus o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau a fyddai'n eu helpu i symud tuag at gyflogaeth. Fodd bynnag, y fantais allweddol - a ymddengys i fod yn allweddol i'w cynnydd mewn hyder - oedd datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r PEAs mewn amgylchedd cyfforddus ac ymddiriedol.
- 2.86 Helpodd lleoli gwasanaethau cyflogaeth yn yr ICC i leihau'r costau sy'n gysylltiedig â theithio i brif swyddfeydd y JCP, ond yn bwysicach fyth, golygai y gallai rhieni fynychu, a dod â'u plant i, amgylchedd mwy croesawgar a adroddwyd yn aml i fod yn gwbl wahanol i'r sefyllfa yn y swyddfa JCP. *'Yn y brif ganolfan waith dim ond amser penodedig a roddir iddynt - deg neu 15 munud... gyda CF a'r ICC, rydym yn gwybod beth yw cefndir y teulu, ru hamgylchiadau personol... mae'r cynghorydd*

sy'n gweithio yma nawr yn gwybod hanes y teuluoedd - ac mae yna fwy o empathi gyda'r cleient.'

- 2.87 Fodd bynnag, efallai i un grŵp (bychan) o rieni gael eu halltudio rhag mynychu'r ICC gan y peilot. Nododd staff mewn un ardal fod rhai rhieni yr oeddynt yn amau eu bod yn twyllo wrth hawlio budd-daliadau yn cadw draw. Mae hyn yn ganlyniad heriol gan fod y rhieni hyn yn tynnu'n ôl o nifer o wasanaethau, nid rhai'r JCP yn unig. Fodd bynnag, gwyddai'r PEA a staff eraill pe datgelwyd gwybodaeth am hawliadau twyllodrus, y byddai'r PEA dan ddyletswydd i'w adrodd. O ystyried y gwelir CF fel sefydliad anfygythiol i deuluoedd o'r fath, efallai bod rôl i'w staff i geisio cefnogi ail-ymgysylltu'r grŵp hwn gyda gwasanaethau ICC ac i'w helpu i ystyried sicrhau sefyllfa fwy cynaliadwy gyda gwasanaethau statudol.
- 2.88 O safbwynt y PEAs, roedd yr effeithiau yn amgylchynu dysgu mwy am gymunedau lleol a'r heriau a wynebai teuluoedd lleol. Roedd y peilot wedi dod â nhw yn agosach at broblemau pobl. Fodd bynnag, canfuont hefyd fod rhieni ac eraill yn fwy parod i rannu mwy o wybodaeth am eu hamgylchiadau nag y byddent yn swyddfeydd y JCP, ac roedd hyn wedi helpu PEAs i deilwra'r gefnogaeth y gallent gynnig.
- 2.89 Roedd gan y PEAs hefyd ddylanwad dros y ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth a gynigwyd yn yr ICC a CF, gan ddod â mwy o bwyslais ar gyflogadwyedd. Yn bositif, roedd yna enghreifftiau ble roedd y PEAs wedi helpu ailfywiogi'r ddarpariaeth bresennol gyda mwy o ffocws ar sgiliau trosglwyddadwy nag yr oeddynt yn eu datblygu.
- 2.90 Fodd bynnag, nid oedd eu dylanwad yn bositif ym marn y rhieni ar bob adeg. Un ddadl oedd o ran hyfforddiant. Mewn un peilot, teimlai staff fod cyrsiau hyfforddiant yn dueddol o fod â phwyslais ar grŵp penodol o rieni, oedd yn dueddol o weld y dosbarthiadau mwy fel digwyddiad cymdeithasol na modd o sicrhau cymhwyster. Roedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y peilot yn Lloegr, ble roedd rhai rhieni yn 'ddysgwyr hamdden cyson', yn amharod i symud ymlaen yn eu gweithgareddau dysgu gan nad oedd ganddynt awydd cryf i weithio. Roedd y peilot yn ceisio taclo hyn trwy annog y rhieni hyn i ganolbwyntio mwy ar eu golau a chyfleoedd i wella, a trwy geisio annog rhieni oedd wedi ymgysylltu llai i gymryd rhan. Fodd bynnag, cafwyd rhai cwynion

gan rieni i'r cyrsiau dysgu hamdden gael eu hamnewid am gyrsiau gyda mwy o bwyslais ar gyflogadwyedd. Mae'r peilot nawr yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng ymgysylltu â rhieni mewn dysgu ar gyfer pleser a'u hannog i ystyried cyrsiau. Ar y cyfan, mae'n parhau i fod yn bwysig herio rhieni i gael cynnydd yn eu dysgu ac i sylweddoli gwerth dysgu i gyflogaeth, gan y cydnabyddir cyflogaeth i fod yn llwybr allan o dlodi.

- 2.91 Roedd gweithwyr CF mewn sefyllfa i nodi'r gwahaniaeth a wnaed gan y peilot o ganlyniad i'w gwybodaeth fanwl o gymunedau lleol. Mewn un ardal, roedd staff CF yn hyderus fod 10 o rieni wedi cael gwaith o ganlyniad i'r peilot ESICC na fyddai wedi gwneud fel arall. Roedd yna hefyd achosion o rieni yn mynd i reolau FJF yn gyntaf ac yna'n canfod swydd arall wedi i'r swydd ddod i ben am fod eu teuluoedd wedi dod i arfer â'r incwm ychwanegol, a'r rhieni wedi gweld manteision cymdeithasol gweithio.
- 2.92 Mewn enghraifft arall, roedd gweithwyr CF wedi cyflawni dadansoddiad bylchau gan ddod i'r casgliad fod eu cynnydd o ran helpu rhieni i gael gwaith wedi ei gyfyngu heb gefnogaeth arbenigol ar BOCs, a gwybodaeth o'r system les a diwygiadau lles, yn cynnwys credydau treth gwaith (WTCs). Cadarnhaodd y peilot yr angen am gefnogaeth JCP yn y gymuned iddynt, a theimlai Rheolwr yr ICC fod rhai rhieni wedi parhau mewn gwaith o ganlyniad i gyngor ar WTC a fyddai fel arall wedi gadael eu swydd am nad oeddynt yn deall fod budd-daliadau mewn gwaith ar gael iddynt.
- 2.93 Roedd y PEAs hefyd yn helpu llenwi blychau eraill mewn darpariaeth leol. Er enghraifft, mewn un ardal fe nododd y PEAs ddiffyg darpariaeth sgiliau sylfaenol yr oedd pobl angen yn y gymuned leol. Roedd y PEAs wedi gallu gweithio gyda darparwyr lleol i lenwi'r bwlch hwn a sicrhau'r gefnogaeth yr oedd rhieni angen i ddechrau taith yn ôl i'r gwaith. Mae hyn yn effaith allweddol ac yn fater sydd angen ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cymru. Noda ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi rôl sgiliau sylfaenol o ran cefnogi trosiannau i waith ac felly'n lliniaru tlodi. Gallai sicrhau llythrennedd a rhifedd cyn lefel 1 fod yn gamfa bwysig i'r nod hwn i rieni mewn wardiau amddifadedd.

- 2.94 Mae'r peilot wedi galluogi PEAs i gael mwy o fanylion ynglŷn â'r ffactorau sy'n atal rhieni anoddach i'w helpu rhag symud i waith. Mewn ambell achos, mae staff eraill yn y JCP wedi bod eisiau clywed mwy am waith yn y gymuned a'r dysgu oedd ynghlwm i hyn, ac mewn un ardal, mae staff swyddfa JCP wedi ymweld â'r peilot.
- 2.95 Fodd bynnag, nid oedd y cynhwysiant hwn o staff ehangach y JCP yn gyffredin. Yn fwy aml, roedd yna farn bod gwaith yn y gymuned yn ddewis hawdd. Yn aml, teimlai PEAs fod angen amddiffyn ei gwaith cymunedol gyda chydweithwyr JCP, tra hefyd yn ceisio codi proffil y peilot a dosbarthu eu dealltwriaeth gynyddol o anghenion rhieni a'r gymuned leol. Gwelwyd y tensiwn hwn yn y peilot yn Lloegr hefyd, ble ystyriwyd gwaith cymunedol i fod yn 'antur' ymysg staff swyddfa JCP. Cynigia'r ymagwedd ymweliad cymunedol hon a sefydlwyd yn un o'r ardaloedd peilot yng Nghymru fodd effeithiol o drechu ystrydebau o'r fath os gellir sicrhau adnoddau i'w gefnogi.
- 2.96 Ar y cyfan cafwyd ymchwydd o gefnogaeth i'r peilot: ymysg rhieni, asiantaethau allweddol a gwasanaethau lleol eraill. Roedd nifer o ffactorau positif eraill yn gysylltiedig â gwasanaethau JCP mewn lleoliad cymunedol, oedd yn cynnwys parhad cefnogaeth, hygyrchedd, hyblygrwydd, ac amgylchedd croesawgar, addas i blant. Roedd bod yn y fan a'r lle, ac felly'n gallu ymateb ar unwaith, yn allweddol i ennill ymddiriedaeth rhieni, ond hefyd o ran datrys eu pryderon yn fuan, a oedd, pan yn gysylltiedig â hawliau a chefnogaeth mewn gwaith, yn gallu trechu rhwystrau i gyflogaeth.
- 2.97 Yn ogystal, cynigiai PEAs gefnogaeth gynaliadwy nad oedd yn dod i ben pan fyddai rhieni yn cael gwaith. Adroddodd un bod ganddi gyswllt rheolaidd gyda'i chwsmeriaid, naill ai trwy neges testun neu trwy eu gweld yn yr ICC, ac roedd hyn yn golygu y gallai eu helpu gydag unrhyw broblemau. Mewn rhai achosion, roedd hefyd wedi gallu cefnogi cwsmeriaid oedd wedi syrthio allan o waith, gan drafod problemau gyda nhw a cheisio eu helpu i ddychwelyd yn fuan i'r farchnad lafur. Nododd un arall ei bod wedi gallu helpu rhieni gyda goblygiadau ariannol gadael budd-daliadau a'i bod yn bwysig nad oedd rhieni yn teimlo eu bod wedi eu hanghofio unwaith y byddent yn dechrau gwaith. Ym mhob un o'r

ardaloedd peilot, roedd yn amlwg bod y PEAs wedi datblygu perthynas bersonol agosach gyda'u cwsmeriaid nag y byddent mewn amgylchedd Canolfan Waith. Cyfrannodd hyn at sicrhau cyswllt parhaus rhwng y Cynghorydd a'r cwsmer hyd yn oed wedi dechrau gweithio.

- 2.98 Ymddengys fod cefnogaeth yn gysylltiedig i ddeilliannau cyflogaeth gynaliadwy, a arddangoswyd gan yr asesiadau cynaliadwyedd JCP a adroddwyd yn gynharach. Mae hyn yn agwedd o werth ychwanegol a gyflawnwyd gan y peilot, ac yn arddangosiad o'r ymagwedd ragweithiol a gymerwyd gan y PEAs; mae hefyd yn gyson â'r strategaethau a fewnosodwyd yn y Rhaglen Waith, h.y. strategaeth y llywodraeth. Byddai'n werthfawr i ymestyn yr arfer o ddarparu cefnogaeth mewn gwaith mewn unrhyw gyflwyniad yn y dyfodol.

Ystyriaeth o ychwanegolrwydd ac/neu bwysau marw

- 2.99 Gofynnodd y grŵp llywio i'r gwerthusiad ddarparu rhywfaint o fewnwelediad ar ychwanegolrwydd ac/neu bwysau marw a gynhyrchwyd gan y peilot. Roedd hyn yn heriol am sawl rheswm.
- 2.100 Yn gyntaf, yn o leiaf dwy o'r ardaloedd a ddedholwyd, nid dyma oedd y peilot cyntaf i gyflwyno cefnogaeth cyflogaeth o JCP i'r gymuned. Yn gysylltiedig i hyn oedd argaeledd cyfleoedd datblygu cyflogadwyedd a hyfforddiant trwy CF ym mhob un o'r ardaloedd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd ynysu a phriodoli effaith benodol yr ESICC heb ddefnyddio strategaethau gwerthuso mwy helaeth megis arolygon effaith yn defnyddio cynlluniau lled-arbrofol.
- 2.101 Yn ail, yng nghyd-destun y fenter hon mae yna gwestiwn allweddol o ran beth, os unrhyw beth, ellir ei ystyried i fod yn bwysau marw. Os yw'r peilot yn cyflenwi cefnogaeth i rywun tu allan i'r grŵp targed ar gyfer ei wasanaethau, a ddylid diystyru hynny? Dengys profiad fod y peilot yn cefnogi rhai rhieni (megis enillwyr ail gyflog posibl yr oedd eu cymar mewn gwaith cynaliadwy a medrus iawn) nad oedd ganddynt fynediad at gefnogaeth cyflogaeth trwy ddulliau eraill, er nad oeddynt yn y grŵp targed. Pe byddai'r unigolion hyn yn lledaenu'r gair i'w ffrindiau, a oedd yn y grŵp targed, ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael a'i werth, byddai'n helpu marchnata'r peilot ac ymestyn ei gyrhaeddiad. Yn fwy cyffredinol,

gall helpu'r grŵp HTR hwn wneud cyfraniad sylweddol i liniaru tlodi plant. Mae gan tua hanner y plant sy'n byw mewn tlodi un rhiant mewn gwaith, ac os byddai 20 y cant o'r teuluoedd hyn 'yn dod yn gartrefi cwpl dau gyflog, gellid codi tua 80,000 o blant allan o dlodi' (Harker, 2006⁶).

- 2.102 Efallai y byddai'r MI wedi annog cofnodi gweithgaredd a fyddai wedi digwydd p'un bynnag heb i'r peilot weithredu yn yr ICCs. Mae hyn yn cynnwys atgyfeirio a chyfeirio at wahanol wasanaethau cymdeithasol ac i wahanol fathau o ddarpariaeth. Nid yw'n ddiogel priodoli'r holl allbynnau hyn i'r ESICC yn unig o fentrau lleol presennol. Yn yr un modd, ar y sail hon, efallai y bydd staff wedi cofnodi deilliannau y gellid eu priodoli i ffynonellau eraill heblaw'r peilot am nad oedd yr MI yn ddigon sensitif i amgylchiadau lleol. Er enghraifft, mewn un ardal mae CF wedi cynnig hyfforddiant cynaliadwyedd ers tipyn o amser ac yn adrodd fod 80 y cant o gyfranogwyr yn symud ymlaen i ddysgu pellach neu waith wedi cymryd rhan (er na welodd y gwerthusiad dystiolaeth i gadarnhau hyn). Pe gellir gwirio'r allbynnau hyn a'u priodoli i'r peilot, byddai hyn yn gambriodoliad o effaith y peilot.
- 2.103 Yn olaf, mewn rhai agweddau mae'r model ei hun yn mewnosod effaith dadleoliad gan fod rhieni a wahoddir i gael mynediad at y gwasanaeth trwy'r ICCs yn aml eisoes mewn cyswllt â swyddfeydd JCP prif ffrwd. Yn hyn o beth, nid yw'r model yn cynyddu'r nifer o rieni sy'n derbyn cymorth; yn hytrach, mae'n cyflenwi cefnogaeth mewn amgylchedd sy'n fwy deniadol iddynt a ble gallant ymgysylltu gydag ystod o wasanaethau hefyd.
- 2.104 Er ei bod yn bwysig amlygu'r heriau ychwanegolrwydd a phriodoli hyn, mae'r tîm gwerthuso yn parhau i fod yn argyhoeddedig bod digon o fanteision i gymunedau lleol wedi codi o waith y peilot.

⁶ Harker, L. (2006). Delivering on child poverty: What would it take? Llundain: DWP

3 Ffactorau ac ymagweddau a brofodd i fod yn effeithiol

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi ffactorau oedd yn allweddol i lwyddiant y peilot. Mae hefyd yn archwilio'r heriau a wynebwyd yn ystod ei gyflawniad a'r datrysiadau a ddyfeisiwyd yn yr ardaloedd.

Ffactorau llwyddiant allweddol

- 3.2 Yn allweddol i lwyddiant y peilot fu recriwtio PEAs gyda'r priodoleddau addas i'r rôl. Rhaid i'r PEAs fod yn gyfeillgar, agored a gwybodus, a deall pwysigrwydd allgymorth, a gweithio'n hyblyg a chreadigol.
- 3.3 Chwaraeodd CFPs – ac ICCs – rôl allweddol i helpu'r PEAs i gysylltu'n fuan gyda rhieni yn y cymunedau lleol (yn arbennig rhieni HTR) a gwasanaethau lleol eraill. Ymddengys fod y mewnbwn hwn wedi cyflymu cynnydd y peilot a chaniatáu iddo symud i gyflenwi yn llawer cyflymach na fyddai wedi digwydd fel arall. Ymddengys i hyn fod yn nodwedd unigryw o'r peilot Cymreig o gymharu â'r fersiwn Saesneg.
- 3.4 Ymddengys i waith cyfunol y CFPs a'r ICCs ar un llaw, a'r JCP ar y llaw arall, fod yn ganolog i lwyddiant y peilot. Roedd gan sefydliadau cymunedol ddealltwriaeth lawn a fanwl o'r gymuned, perthnasau sefydledig gyda gwasanaethau lleol cyhoeddus ac ymddiriedaeth pobl lleol. Roedd gan Gynghorwyr JCP fynediad at yr wybodaeth fwyaf gwerthfawr i geiswyr gwaith, yn arbennig o ran swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddi a hawliau i fudd-daliadau. Roedd defnyddio sefydliadau cymunedol i gael cyrhaeddiad trwy eu rhwydweithiau i hyrwyddo gwaith JCP a defnyddio Cynghorwyr JCP i gynnig gwybodaeth ar ffurf fwy hygyrch yn allweddol i ymgysylltu â'r teuluoedd anodd eu cyrraedd.
- 3.5 Yr un mor bwysig yw datblygu amcanion cyfunol a ffocws cyfunol rhwng asiantaethau allweddol (staff CF, ICC a JCP) ac yn ehangu hyn i gynnwys y gwasanaethau eraill a gydleolwyd a sefydliadau lleol, yn cynnwys cyflogwyr. Yn ogystal, mae angen gweithio i sicrhau bod yna ddealltwriaeth bendant o sut y gall gwasanaethau ychwanegu gwerth i'w gilydd er mwyn osgoi dyblygu darpariaeth.
- 3.6 Mae sefydliad CF ac ICCs yn amrywio rhwng ardaloedd a daw hyn a gwahanol fanteision ac anfanteision ar gyfer cyflawni. Er enghraifft,

gallai'r naill neu'r llall o'r asiantaethau hyn gael cysylltiadau cryfach â JCP neu wasanaethau lleol eraill, ac roedd hyn yn gofyn i'r PEAs ganfod datrysiadau lleol i lywio a broceru perthnasau a fyddai'n cefnogi'r peilot a'r rhieni yr oedd yn eu helpu. Ond ni chafwyd enghreifftiau penodol o ymarfer nad oedd yn drosglwyddadwy ynddynt eu hun, ond roedd prosesau'r peilot oll wedi esblygu yn ôl y cyd-destun lleol, ac roedd gan gyflenwi gwahanol bwyslais rhwng ardaloedd. Y pwynt amlwg yma oedd bod cynllun model y peilot hefyd yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r addasiadau angenrheidiol gyd-fynd â chyd-destunau lleol. Byddai cynnwys yr hyblygrwydd hwn yng nghynllun rhaglenni tebyg, neu i mewn i unrhyw gyflawniad o'r peilot, yn werthfawr.

- 3.7 Adroddodd y PEAs fanteision ymagweddau hyblyg ac anffurfiol. Cydnabuwyd nad yw'r un ffocws ar reolau a rheoliadau a geir mewn swyddfeydd JCP yn gweithio mewn lleoliadau cymunedol. Arweiniodd hyn at y PEAs yn siarad â rhieni wyneb yn wyneb yn bennaf, oddi wrth y cyfrifiadur, a heb gadw at amserau apwyntiad caeth. Dim ond wedi i'r hawlwr adael apwyntiadau y symudodd PEAs *'yn ôl i'r modd JCP'* i gwblhau gwaith papur. Roedd dulliau cyfathrebu anffurfiol fel negeseuon testun hefyd yn effeithiol.
- 3.8 O ganlyniad, ym mhob achos, fe addasodd y PEAs ddull llawer mwy hyblyg o weithio unwaith yn y gymuned nag y byddent wedi gwneud yn y swyddfeydd JCP. Roedd hyn yn cynnwys amserau apwyntiad ansafonol, WFIs grŵp a gwneud amser ar gyfer sesiynau galw i mewn. Roedd hyn yn caniatáu hyblygrwydd i rieni ac yn gwneud y JCP yn fwy dengar yn eu barn nhw. Trwy weithio fel hyn, teimlai PEAs fod ganddynt well dealltwriaeth o anghenion rhieni ac y gallent ganolbwyntio *'llai ar ddweud wrthynt beth i'w wneud, a mwy ar ddangos iddynt sut i'w wneud'*.
- 3.9 Teimlwyd fod lleoliad CF a'i leoliadau, a'r ICCs, yn allweddol i lwyddiant y peilot. Roedd nifer yn agos at ysgolion lleol ac yng nghalon y gymuned. Roedd nifer o rieni yn gyndyn i deithio i'r dref leol i fynychu'r JCP ac felly'n gwerthfawrogi mynediad trwy'r lleoliadau dibynadwy hyn.
- 3.10 Helpodd cyfraniad y PEAs mewn gweithgareddau fel dyddiau hwyl teuluol a grwpiau rhieni i drechu'r ffurfioldeb sy'n gysylltiedig â'r JCP gan

roi argraff llawer mwy positif i rieni o'r gwasanaeth. Gwnaeth hyn y PEAs yn bobl yn y gallai rhieni 'sgwrsio' â nhw ac ymddiried ynddynt.

- 3.11 Golygai cyswllt rheolaidd y PEAs gyda staff ICC a CF, yn ogystal â datblygu perthynas â rhieni lleol, eu bod yn dod i ddeall eu cwsmeriaid mewn modd nad oedd yn bosibl yn yr amgylchedd JCP rheolaidd. Teimlai nifer o PEAs fod hyn yn gwneud eu gwasanaethau yn fwy effeithiol, gan eu bod yn deall anghenion eu cwsmeriaid ac yn gallu teilwra eu cefnogaeth yn fwy priodol.

Gwersi ymarfer

- 3.12 Cododd sawl gwers o'r ymchwil, a allai gynorthwyo unrhyw gyflwyniad o'r peilot ESICC neu fentrau â nodau tebyg yn y dyfodol, ac/neu gynorthwyo'r JCP i arwain gwaith cymunedol.

I gyflwyno neu gyflawni prosiectau tebyg:

- Mae caniatáu amser a hyblygrwydd i'r PEAs ddatblygu perthynas dda â sefydliadau lleol yn effeithiol. Roedd partneriaethau cryf, yn seiliedig ar deimlad o ddiben cyfunol, ac ymdrech amlasiantaethol yn allweddol i lwyddiant y peilot, yn arbennig o ran ymgysylltu â theuluoedd HTR.
- Gosod cyfundrefn targed a ganiataodd ar gyfer ffocws a chydabyddiaeth, ond nad oeddynt yn mentro gormod. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd targedau yn ffocws yn ganolog i'r peilot ac yn caniatáu Cynghorwyr i ddatblygu eu cefnogaeth i'r HTR.
- Adeiladu cefnogaeth ar rwydweithiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, megis y rhai a ddatblygwyd gan CF.

I'w JCP yn fwy cyffredinol:

- Mae gweithio'n agosach gyda chymunedau yn caniatáu i staff y JCP cael teimlad mwy realistig o'r rhwystrau a wyneba'r teuluoedd hyn, gan alluogi Cynghorwyr i allu targedu eu cefnogaeth.
- Gallai arferion gwaith mwy hyblyg – megis ble y cyflawnir cyfweiliadau a pha mor hir maent yn parhau – helpu Cynghorwyr sy'n gweithio gyda'r cwsmeriaid mwyaf heriol.
- Gallai ymgysylltu mewn gweithgareddau allgymorth llai ffurfiol helpu addasu dehongliadau negyddol cwsmeriaid o'r JCP.

Heriau a wynebwyd a'r datrysiadau a sicrhawyd

- 3.13 Roedd gan bob un i'r ardaloedd peilot ffasedau unigryw parthed y gymuned leol, y CFP a'r ffordd yr oedd yn gweithredu, yn ogystal â'r ICC a'i weithrediad. Roedd yn amlwg na fyddai ymagwedd un maint addas i bawb yn effeithiol⁷ a bod angen cyfathrebu a gwaith ymysg y partneriaid allweddol i sicrhau bod yr ESICC yn gweddu ac yn mewnosod yn y lleoliad lleol. Fodd bynnag, gwelwyd rhai materion y gellir eu cyffredinoli a fanylir yma.
- 3.14 Roedd i ba raddau yr oedd y PEAs yn teimlo eu bod wedi cysylltu i'r JCP, yn ogystal ag asiantaethau allweddol eraill, yn fater mawr. Gallai'r PEAs deimlo wedi eu hynysu o staff JCP eraill, ond roeddynt hefyd yn eu camddeall. Adroddwyd y gwelwyd gwaith cymunedol fel yr opsiwn hawdd - er bod ymarfer yn awgrymu ei fod yn ymdrechgar. Roedd hefyd yn wir fod y PEAs yn teimlo eu bod yn colli allan ar wybodaeth a diweddariadau polisi allweddol trwy beidio bod yn rhan o gyfarfodydd yn y prif swyddfeydd. Nid oedd yn glir pob tro fod y tensiynau hyn wedi eu trechu'n llwyr, er i gyfathrebu rheolaidd gyda Chynghorwyr JCP eraill, a dibynadwyedd ar ran y PEAs (i anwybyddu unrhyw sylwadau negyddol am eu gwaith cymunedol) helpu cryn dipyn. Adroddodd PEAs yn y peilot Saesneg deimladau tebyg o ynysu ac eto teimlwyd fod y cyfarfodydd rheolaidd hyn gyda chydweithwyr JCP yn bwysig i drechu hyn.
- 3.15 Cododd rhywfaint o gamddealltwriaeth o ganlyniad i'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng y gwahanol asiantaethau allweddol. Er enghraifft, mewn un ardal fe adroddwyd nad oedd gweithwyr CF yn sylweddol faint o waith papur oedd rhaid i'r PEAs gwblhau i ddogfennu eu rhyngweithio â rhieni, a'r amser mae hyn yn cymryd. Fodd bynnag, trechwyd hyn trwy gyfathrebu effeithiol gyda staff lleol am yr angen dros a diben y gwaith gweinyddol hwn.
- 3.16 Byddai rhai o'r heriau a wynebwyd yn cymryd mwy o amser i'w datrys. Er enghraifft, mae yna ymdrech i greu mwy o ofal plant, mwy fforddiadwy, yn y cymunedau ond bydd yn cymryd amser i gyflawni hyn. Mewn un ardal, roedd gofal plant i ddelio â gwaith shifft yn her nad oedd

⁷ Adlewyrchwyd hyn yng nghynllun y peilot a ragwelodd hyblygrwydd lleol.

wedi datrys. Nodwyd bylchau darpariaeth eraill a wynebwyd gyda hyfforddiant sgiliau sylfaenol cyn mynediad ym Mhennod 2. Er y canfuwyd datrysiad ar raddfa fach a byr dymor o ganlyniad i'r cyllid a ddarparwyd gan CF, nid oedd sicrwydd y gellid sicrhau cyllid i gyflwyno hyn yn ehangach.

- 3.17 Her na ddatryswyd oedd na ellir perswadio nifer fechan o rieni am fanteision presenoldeb JCP yn yr ICCs a'u bod wedi tynnu yn ôl o ddefnyddio'r gwasanaethau yn yr ICCs. Credai staff fod eu cilid yn ymwneud o bosibl â hawliadau budd-daliadau twyllodrus, er na chasglwyd tystiolaeth wrthrychol o hyn gan y gwerthusiad. Nid yw'n glir a fydd rhieni sydd wedi cilio o'r ICC yn dychwelyd gydag amser - o bosibl gyda chefnogaeth gan CF, a welwyd fel sefydliad llawer llai bygythiol na'r JCP. Yn sicr mae'n allweddol fod y CF yn ceisio ail-ymgysylltu â'r rhai a effeithiwyd. Rhaid hefyd nodi na chafodd y mater hwn effaith ar farnau o fanteision y peilot ymysg staff allweddol yn lleol. Gallai unrhyw brosiectau tebyg o'r fath yn y dyfodol ystyried ymagweddau i atal cilio gyda'r ICCs am y rheswm hwn, ac i brofi'r rhain yn rhan o'u gweithrediad.
- 3.18 Ar y cyfan, ni welwyd bod yr anawsterau a wynebwyd mor sylweddol â'r rhai a welwyd yn y peilot yn Lloegr. Fodd bynnag, gallai hyn fod o ganlyniad i'r fethodoleg gwerthuso gan ei fod yn ôl-weithredol (wedi ei gyflawni ar ddiwedd y cyfnod peilot a ariannwyd yn wreiddiol), yn hytrach na thrwy gydol cyfnod y peilot.
- 3.19 Awgrymwyd rhai manteision yn y peilot Cymreig y gallai rhanbarthau eraill ddysgu ohonynt. Dechreuodd y peilot Cymreig gyflenwi yn gynt o gymharu â'r peilot yn Lloegr, ac fe ellir priodoli hyn i:
- y rhwydwaith CF sefydledig y gallai'r ESICC fod yn rhan ohono - a leihaodd yn sylweddol yr amser sydd angen i sefydlu perthnasau lleol. Wrth geisio dyblygu'r effaith hon, dylai rhanbarthau eraill geisio lleol ardaloedd peilot tebyg sy'n elwa o rwydweithiau tebyg i rai CF.
 - yng Nghymru ymddengys fod yna fwy o ymwybyddiaeth yn barod o rôl cyflogaeth fel modd o liniaru tlodi plant ledled yr ICCs, CF a gwasanaethau cefnogaeth eraill yn yr ardaloedd lleol. Gallai hyn fod

yn arteffact o amseriad y peilot Cymreig (h.y. yn dilyn y peilot yn Lloegr), er yr ymddengys i fod yn fwy o adlewyrchiad o bryder a rennir ymysg CF ac ICCs i rymuso teuluoedd yn eu cymuned a sylweddoliad eu bod yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd a phriodoleddau sy'n gallu cefnogi trosiant i waith trwy rymuso teuluoedd i gymryd rheolaeth.

3.20 Dangosodd y peilot yng Nghymru hefyd ymagweddau arloesol a fyddai'n werth eu dyblygu mewn rhanbarthau eraill, neu'n fwy eang os cyflwynir y fenter mewn mwy o gymunedau:

- Rhoddodd darpariaeth WFIs grŵp hyder i rieni trwy rannu profiadau mewn grŵp o gyfoedion; golygai hefyd y gellid rhyddhau amser y PEAs i ddarparu ar gyfer cyfleoedd cefnogaeth galw i mewn. Fe helpodd y PEAs i reoli eu hamser yn effeithiol yn ogystal â darparu modd pellach o gefnogi rhieni oedd â phryderon ac ofnau am weithio gyda gwasanaethau statudol fel JCP.
- Golygai gosod targedau ymarferol fod yna awgrym clir o raddfa'r gwaith a ragwelwyd ar gyfer y PEAs a'r mathau o ganlyniad y gellid ei gyflawni. Roedd hyn yn ymddangos i fod yn fuddiol a byddai'n nodwedd ddefnyddiol i gynnwys mewn gweithredoedd eraill.
- Mae'r prif ddiwylliant JCP yn seiliedig ar y swyddfa, ac mae rhai o staff y JCP yn edrych ar waith cymunedol fel dewis hawdd. Yn y peilot yng Nghymru, mewn un ardal, roedd staff swyddfa'r JCP yn gallu cyflawni 'ymweliadau ymchwil' i'r ESICC, a helpodd drechu ystrydebau am waith cymunedol. Golygai hyn fod staff swyddfa yn fwy agored i negeseuon am anghenion teuluoedd dan anfantais yn y cymunedau, a allai gynyddu manteision i'r JCP o gynhwysiant yn y peilot o ran cymhwyster a gwybodaeth.

4 Casgliadau

- 4.1 Yn y bennod olaf hon, adolygir y peilot o ran yr amcanion a osodwyd i'w gwerthuso a rhai o'r casgliadau a wnaethpwyd.

Asesiad yn erbyn yr amcanion gwerthuso

A wnaeth y peilot gyflawni ei dargedau?

- 4.2 Er nad oedd gan y gwerthusiad fynediad at ddata MI diwedd y flwyddyn, fe adolygodd ddata rhan o'r flwyddyn yn ystod y cam ymchwil dysgu a chasglu MI lleol yn rhan o'r ymweliadau ymchwil. Awgrymodd y ffynonellau hyn fod y peilot wedi cyflawni'r allbynnau a osodwyd ar ei gyfer.
- 4.3 Fel y gellid disgwyl, profodd ymgysylltiad a thargedau llwytho achosion i fod yn ddidrafferth ac fe ragorwyd arnynt i raddau helaeth. Profodd BOCs i fod yn boblogaidd iawn ac i'r nifer a gyflawnwyd ragori ar beth oedd yn debygol o fod yn darged allbwn eithaf isel. Felly hefyd rhagorodd y nifer o'r atgyfeiriadau a gofnodwyd ar y targed o bell ffordd, er y byddai rhai o'r atgyfeiriadau hyn wedi digwydd p'un a oedd y peilot yn weithredol neu beidio.
- 4.4 Awgrymai'r data rhan o'r flwyddyn mai'r targedau nad oedd yn cael eu cyflawni oedd y rhai yn ymwneud â hyfforddiant ac achrediad. Fodd bynnag, dangosodd MI nad oedd tri o bedwar o'r ardaloedd yn cofnodi'r data hwn; hefyd dangosodd y data MI lleol ar gyfer yr un ardal oedd yn cofnodi'r deilliannau hyn rywfaint o amrywiad gyda'r data cenedlaethol rhan o'r flwyddyn. Mae yna, felly, resymau i fod yn ofalus ynglŷn ag a gyrhaeddwyd y targedau hyfforddiant ac achredu neu fel arall.
- 4.5 Roedd mynediad i waith yn gryfach ac efallai bod hyn yn peri syndod gan fod cydadwaith yma gyda ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y peilot, gan fod recriwtio yn nwylo cyflogwyr yn hytrach na staff y peilot. Roedd rhai o'r swyddi hyn yn cynnwys cyfleoedd yn deillio o'r polisi FJF a oedd yn rhai byrdymor mewn rhai achosion. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anfantais bosibl hon, mae'r swyddi yn debygol o fod wedi helpu rhieni i arddangos sgiliau a phriodweddau cyflogadwyedd, a sicrhau geirada diweddar allai eu cynorthwyo i symud ymlaen i waith pellach.

Cydnabyddir manteision gwaith i liniaru tlodi plant yn eang; o ganlyniad, gellir pennu bod y peilot yn llwyddiannus o ran gwneud cyfraniad i'r agenda hwn.

- 4.6 Tu hwnt i'r targedau rhifol, roedd tystiolaeth ansoddol o fodloni'r amcanion ehangach (gweler Pennod 2). Ar lawr gwlad, sefydlwyd perthnasau cryf rhwng staff y JCP, ICC a CF a ategodd gydweithio effeithiol er lles y gymuned leol ac sy'n cyfrannu i'r Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Plant (2012). Cryfhaodd y perthnasau hyn rhai oedd eisoes wedi eu sefydlu mewn ambell achos ar lefel strategol neu, ar adegau, a oedd yn fwy cydweithredol na'r rhai a welwyd ar y lefel strategol.
- 4.7 Amlygodd tystiolaeth o'r grwpiau ffocws rhieni fanteision y rhwydweithiau cefnogaeth a sefydlwyd gan ymagweddau'r CF a'r ICC, ac roedd yn amlwg y gwerthfawrogwyd ychwanegu cefnogaeth JCP i hyn. Nododd y rhieni hefyd ei bod wedi derbyn ystod o gefnogaeth a gwasanaethau na fyddent wedi derbyn fel arall, gan eu helpu i drechu rhwystrau a symud yn agosach at waith.
- 4.8 Roedd tystiolaeth gyfyngedig ynglŷn ag i ba raddau yr oedd y peilot wedi dylanwadu ar y nifer o ymgeiswyr lleol i swyddi lleol, er y gellid tybio hyn gan fod yn well gan rieni weithio'n lleol. Ni chanfu'r gwerthusiad unrhyw gasgliadau parthed cyllid y cyhoedd yn cyrraedd cyflogwyr lleol trwy gyllid ReAct neu gymorthdaliadau gwaith.

A wnaeth y rhai oedd wedi ymgysylltu â'r Cynghorwyr Cyflogaeth Personol (PEAs) trwy'r ICCs symud i hyfforddiant neu gyflogaeth ac, os felly, pa ffactorau oedd yn allweddol?

- 4.9 Roedd yr MI yn gofyn i'r PEAs nodi nifer o rieni ar y llwyth achosion a ddechreuodd weithio neu dderbyn hyfforddiant. O ganlyniad, mae'n bosibl i'r gwerthusiad gadarnhau i hyn ddigwydd.⁸ Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi nad oedd tystiolaeth gwrth-ffeithiol ar gael, na thystiolaeth sylfaenol ar gyfraddau cynnydd cyn cyflwyno'r peilot. Felly, mae angen bod yr un mor ofalus wrth briodoli deilliannau yn llwyr i'r peilot.

⁸ Nodwyd y pwynt eisoes ynglŷn â gwendid yr MI o ran cipio gwybodaeth am allbynnau hyfforddiant ac achrediad.

- 4.10 Roedd yn bwysig gwahaniaethu a oedd unrhyw ffactor yn allweddol i gyflawniad y deilliannau hyn; yn hytrach, y cyfuniad o elfennau gwasanaeth a ymddengys i fod yn effeithiol. Roedd yn amlwg bod rhieni yn gwerthfawrogi gweithio gyda rhywun a ddaeth i wybod eu storio ac y gellid cronni eu cyngor dros gyfnod o amser gan addasu i amgylchiadau penodol wrth iddynt godi.
- 4.11 Adlewyrchwyd y teilwra a phersonoleiddio hwn o gefnogaeth o fewn y trafodaethau Cynghorydd, a ddatgelodd syniadau creadigol a hyblyg i helpu rhieni i hogi eu golau gwaith a symud tuag at gyflogaeth.
- 4.12 Beth oedd hefyd yn allweddol oedd gwybodaeth weithredol dda o'r gwasanaethau integredig eraill, CF a darpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth arall, a arweiniodd at atgyfeiriadau effeithiol a priodol a helpodd fagu ymddiriedaeth rhieni a'u hysgogi tuag at eu nodau.
- 4.13 Ymddengys bod helpu rhieni i ddatblygu ymdeimlad o reolaeth dros eu tynged, yn ogystal â hyder yn eu gallu, yn elfen allweddol a chritigol o'r cynnig i'r holl wasanaethau dan sylw. Fodd bynnag, byddai'r teimlad hwn o hyder ac annibyniaeth yn esblygu o'r ystod o weithgareddau yr oeddynt yn ymwneud â nhw (ble gallai'r PEAs fod yn allweddol wrth eu cyfeirio atynt) Yn hytrach nac un agwedd o'r peilot.

A lwyddodd y peilot i gyrraedd ei grŵp targed o rieni, h.y. y rhai oedd bellaf o'r farchnad lafur?

- 4.14 Roedd tystiolaeth i'r peilot gyrraedd ac ymgysylltu â rhieni HTR, er bod graddau hyn yn amrywio rhwng y gwahanol ardaloedd. Roedd CF yn allweddol yn hyn o beth: ble roedd CF wedi sicrhau cynnydd gyda theuluoedd HTR, gallai hwyluso mynediad y peilot at y teuluoedd hyn. Ble nad oedd CF wedi llwydd i ymgysylltu â theuluoedd HTR, roedd y PEAs wedi ei chael yn anodd gwneud hynny. Roedd awgrym hefyd mai gwaith amlasiantaethol oedd yr unig fodd o gyrraedd y teuluoedd hyn, sy'n cadarnhau gwerth ymagwedd y peilot ac sy'n gyson â'r negeseuon yn y Strategaeth ar Dlodi Plant (2011) a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012).
- 4.15 Roedd gan y gwahanol gyd-destunau rywfaint o ddylanwad ar y pwynt hwn, gan fod nodweddion teuluoedd HTR yn amrywio rhwng ardaloedd.

Yn un, roedd gwahaniaethau daearyddol yn y gymuned a bennodd pa CF a lleoliadau eraill a ddefnyddiont. Mewn un arall, roedd y gwahaniaethau yn fwy economaidd na daearyddol; gallai rhieni cefnog arwain y galw ac o bosibl drechu (o ran nifer) unrhyw rieni HTR yr oedd canolfannau peilot yn ymgysylltu â nhw. Nododd PEAs fod eu cyswllt gyda staff a sefydliadau yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol wedi bod yn allweddol o ran eu helpu i nodi'r teuluoedd HTR.

- 4.16 Roedd PEAs, a'r asiantaethau allweddol eraill, yn ymwybodol iawn o werth penodol ymgysylltu â'r grŵp hwn. Ble'r ymgysylltwyd â rhieni HTR, a ble cyflawnwyd deilliannau cyflogaeth neu hyfforddiant, barnwyd fod y rhain yn llwyddiannau penodol. *'Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr... roedd gennym un fenyw a gymerodd bedair wythnos i*

A oedd yna unrhyw effeithiau atodol, tu hwnt i waith presennol y JCP, mewn ardaloedd peilot?

- 4.17 Roedd awgrym bod y peilot wedi helpu gwasanaethau cyflogaeth i gyrraedd unigolion nad oeddynt yn eu derbyn am nad oedd ganddynt hawl i gefnogaeth. Gan fod bron i hanner y plant sy'n byw mewn tlodi mewn cartrefi ble mae un rhiant yn gweithio, mae gan hyn y potensial i gael effaith sylweddol dlodi plant yng Nghymru. Roedd hefyd yn amlwg y gallai rhieni ddechrau adeiladu eu hymgysylltiad gyda gwasanaethau cyflogaeth cyn iddo ddod yn ofynnol.
- 4.18 Roedd cael eu lleoli yn y gymuned yn golygu fod staff JCP yn cynyddu eu dealltwriaeth o anghenion pobl leol ac yn gallu addasu eu cynnig i weddu i'r anghenion hynny. Fodd bynnag, gallai bwydo'r wybodaeth hon yn ôl i brif swyddfeydd y JCP fod yn drafferthus, gan yr adroddwyd nad oedd holl staff y JCP yn credu fod gwerth i waith cymunedol, ac yn ei weld fel dewis hawdd. Cododd y mater hwn yn y peilot yn Lloegr hefyd. Mewn ymagwedd arloesol a fabwysiadwyd gan un o ganolfannau peilot Cymru, anogwyd Cynghorwyr o'r Ganolfan Waith i ymweld â'r PEA cymunedol i ddeall mwy am ei gwaith ac i rannu ei dysgu ar ymgysylltu â chwsmeriaid HTR. Yn ddelfrydol, byddai'r arfer hwn yn lledaenu, ond gall fod cyfyngiadau o ran adnoddau. Efallai y bydd angen i'r JCP ystyried y ffordd orau o gyflawni newid diwylliant ymysg ei staff - p'un a

yw hyn trwy hyfforddi staff ar gyfraniad posibl mentrau cymunedol i nodau'r Ddeddf Tlodi Plant, ac/neu a oes angen arweinyddiaeth ranbarthol a lleol cryfach o'r agenda. Mae yna hyblygrwydd cynyddol yn caniatáu i'r JCP leoli ei wasanaethau mewn lleoliadau amgen, ac felly mae'n bwysig ei fod yn ystyried sut i ddelio â'r gwrthdaro diwylliannol hwn i gefnogi'r agenda hon.

4.19 Taflodd y PEAs eu hunain i amrywiaeth o weithgareddau lleol, ac aeth y rhain tu hwnt i'r lefelau gwasanaeth arferol. Fe helpont:

- ailfywiogi gweithgaredd cefnogaeth cyflogaeth bresennol megis clybiau swyddi
- canfod dulliau o lenwi bylchau mewn darpariaeth leol
- nodi ymagweddau creadigol i ddelio â rhai materion allweddol fel cyflwyniad.

Golygai hyn y gellid dod ag elfen cyflogaeth i weithgareddau ble nad cynt, ac fe ymestynnwyd rôl y JCP yn ogystal ag asiantaethau allweddol eraill.

4.20 Pwynt terfynol yw am effaith bosibl y peilot ESICC ar deuluoedd lleol. Nid oedd yn anghyffredin i deuluoedd fod y drydedd neu bedwaredd genhedlaeth i fod yn ddi-waith. Mae CF wedi cydnabod fod angen codi disgwyliadau plant er mwyn torri'r gadwyn o anfantais. Mae'r peilot wedi helpu'r rhieni, ac yn ei dro mae hyn yn helpu'r plant: *'Er mai'n gysylltiedig â'r rhieni mae'r peilot, mae'n ymwneud â symud i lawr i'r plentyn fel bod y plentyn yn meddwl, "Wel dwi eisiau myn i weithio, dwi eisiau cael swydd"'* [swyddog prosiect CF].

4.21 Ar y cyfan croesawyd y peilot gan yr asiantaethau allweddol oedd ynghlwm a gan nifer o'r rhieni oedd yn gymwys am gefnogaeth. Roedd yna gefnogaeth aruthrol i gyflawniad cefnogaeth cyflogaeth mewn lleoliadau cymunedol, gan ddatblygu galw sylweddol.

4.22 Roedd tystiolaeth fod rhieni yn gwerthfawrogi cyngor ar les a budd-daliadau mewn gwaith ynghyd â Chynghorwyr eraill (fel Cyngor ar Bopeth). Golyga dod â chefnogaeth cyflogaeth arbenigol i'r ICC fod y gwasanaeth yn fwy holistaidd.

- 4.23 Roedd galw arwyddocaol i barhau gyda gwasanaethau cyflogaeth yn yr ardaloedd peilot, tu hwnt i'r cam treial cychwynnol. Roedd rhywfaint o gyfiawnhad hefyd i annog y math hwn o ymagwedd mewn mwy o ardaloedd gan ei fod yn gwneud gwasanaethau cyflogaeth yn fwy hygyrch a chroesawgar, ac yn helpu rhieni i drechu rhwystrau, a olygai eu bod yn symud yn agosach at gyflogaeth neu i waith. Gellir casglu y cafwyd effeithiau positif Tlodi Plant ar sail effeithiau a nodwyd a'u cysondeb gyda'r rhai a nodwyd yn y peilot Saesnig (oedd yn amodol i werthusiad mwy gyda sawl dull).
- 4.24 Roedd PEAs yn gwerthfawrogi bodolaeth targedau fel mesur cadarn o lwyddiant y peilot. Teimlai rhai staff fod targedau wedi bod yn gymharol geidwadol, er bod eraill yn gwerthfawrogi'r ffaith fod targedau cymharol isel wedi galluogi'r PEAs i ganolbwyntio ar y cwsmeriaid HTR, allai fynd yn angof mewn cyfundrefn o dargedau uchel.

Beth ellid ei wella yn y dyfodol?

- 4.25 Pe byddai'r ymagwedd yn cael ei chyflwyno'n ehangach, dylid ystyried ambell bwynt i esmwytho ei lwybr a sicrhau effaith:
- Dylai gwaith cyfathrebu a datblygu cynnar a pharhaus gynnwys yr holl asiantaethau allweddol i osgoi'r teimlad y gorfodwyd y gweithgaredd, yn hytrach na'i ddatblygu gyda'u cefnogaeth. Mae cydleoili a chydweithio yn egwyddorion allweddol y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi; gan sicrhau bod yr holl bartneriaid yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys mewn strategaeth a bydd cyflenwi yn sicrhau y bodlonir nodau cydweithredu parthed lliniaru tlodi plant.
 - Er mwyn sicrhau ymagwedd deilwredig, mae'n allweddol cynllunio hyblygrwydd lleol i fentrau fel hyn. Roedd y peilot yn effeithiol yn hyn o beth, ac roedd hyblygrwydd lleol yn gyfrannydd allweddol i drefniadau cydweithio a ddogfennwyd gan yr ymchwil.
 - Dylai gosod targedau gynnwys yr holl asiantaethau allweddol i sicrhau y gwelir y data i'w gipio fel perthnasol a gwerthfawr. Yn fwy cyffredinol, mae gosod targedau ymarferol (gan osgoi creu

amgylchedd targedau 'uchel') yn llywio disgwyliadau am y nifer o rieni i'w cefnogi a'r deilliannau a gyflawnir gyda nhw, ond mae hefyd yn caniatáu ar gyfer gwaith dwys gyda rhieni sydd â rhwystrau lluosog.

- Byddai hefyd yn ddefnyddiol i annog PEAs i ddarparu cefnogaeth mewn swydd, fel y gwnaethant yn y peilot, sy'n gallu helpu rhieni i gynnal eu deilliannau cyflogaeth. Roedd PEAs yn gynhyrchiol iawn yn hyn o beth ac roedd cefnogaeth ar gael i blygu i anghenion rhieni, yn amrywio o gyswllt trwy negeseuon testun i gefnogaeth bersonol. Byddai'n werthfawr i ddyblygu'r teilwra hwn o gefnogaeth mewn gwaith mewn rhaglenni tebyg.
- Mae ansawdd ac ymroddiad PEAs wedi bod yn allweddol i lwyddiant y peilot. Ymddengys mai'r PEAs a ddetholwyd oherwydd eu brwdfrydedd tuag at y peilot, yn cynnwys gwaith allgymorth a chymunedol angenrheidiol, cysylltiadau cymunedol presennol a'u dealltwriaeth o waith y JCP, a gafodd y llwyddiant mwyaf. Byddai'n fuddiol i gynnwys y priodweddau hyn yn y meini prawf dethol wrth recriwtio i rolau tebyg.
- Wynebwyd heriau gyda mynediad at ddeunydd marchnata, cyfleusterau TG a gofod preifat i gynnal cyfweiliadau yn yr ICC neu CF – bydd angen delio â hyn mewn unrhyw estyniad o'r gwaith. Mae'n bwysig dewis ICCs sy'n gallu lletya gwasanaeth atodol, ac ICCs gyda nifer uchel o fynychwyr presennol. Byddai darparu canllaw clir am y prosesau caffael adnoddau hefyd yn fuddiol.
- Mae PEAs yn gweithio yn y gymuned yn elwa o gyswllt rheolaidd gyda'r JCP, yn ffurfiol ac anffurfiol. Fodd bynnag, gellir dehongli bod gwaith cymunedol yn ddewis hawdd yn niwylliant prif ffrwd y JCP. Gallai annog Cynghorwyr swyddfa JCP i ymweld â safleoedd cymunedol, a ddigwyddodd mewn un ardal, gryfhau clymau'r JCP gyda'r gymuned ac arddangos gwerth y math hwn o beilot i holl staff y JCP. Gallai hefyd gynyddu'r manteision dysgu i'r JCP o gynhwysiant mewn prosiectau cymunedol. Fodd bynnag, gallai'r materion adnoddau sy'n gysylltiedig ag adnoddau fod yn waharddol

yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Felly gallai fod yn werthfawr dod o hyd i ddulliau eraill o ddelio â'r 'gwrthdaro diwylliant' hwn, er enghraifft, trwy hyfforddiant ac arweinyddiaeth ymysg staff uwch.

- Derbyniodd yr holl PEAs gyswllt anffurfiol gyda staff mewn ICCs CF, ond adroddodd PEAs oedd hefyd yn gweithio'n ffurfiol ar lefel gymunedol – yn eistedd ar fyrddau ICC neu CF, er enghraifft – fanteision penodol o rannu gwybodaeth neu sefydlu partneriaethau i daclo materion lleol. Gallai'r math hwn o gyswllt ffurfiol rhwng PEAs a rheolaeth mewn ICCs neu CF helpu datrys unrhyw faterion diwylliannol a chreu teimlad o ddiben a rennir, ac fe ddylid annog hyn ble mae'r ymagwedd wedi ei chyflwyno'n fwy eang.
- Mewn rhai ardaloedd, adroddwyd diffyg ar dargedau hyfforddiant ac achrediad. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn berthnasol i fylchau yn y ddarpariaeth addas. Felly byddai'n werthfawr i PEAs, CFs ac ICCs archwilio yn fanylach anghenion hyfforddiant penodol y rhai anoddaf i'w helpu mewn cymunedau lleol, ac argaeledd darpariaeth berthnasol a ffrydiau cyllid allai lenwi bylchau ble nodwyd. Mae helpu rhieni i symud yn agosach at gyflogaeth, trwy ganiatáu iddynt ddatblygu sgiliau sylfaenol yn ogystal â phriodweddau cyflogadwyedd, yn allweddol i leihau tlodi plant ac yn strategaeth a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012).

Atodiad: Offerynnau Ymchwil

1. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys yr offerynnau ymchwil (canllawiau pynciau) a ddefnyddiwyd i gasglu data yn rhan o'r cyfweiliadau rhanddeiliaid cenedlaethol, a'r ymchwil astudiaeth achos (yn bersonol a dros y ffôn) gyda staff lleol, rhanddeiliaid a rhieni yn yr ardaloedd lleol.
2. Darparodd y canllawiau pynciau fframwaith o gwestiynau allweddol ac ysgogiadau enghreifftiau. yn wahanol i sgrïpt, defnyddiwyd canllawiau pynciau yn hyblyg ac nid yn eu cyfanrwydd gydag unrhyw ymatebydd. Roedd cwestiynau hefyd wedi eu cynllunio i adlewyrchu statws pob ymatebydd yn y peilot a'r cyd-destun Cymreig.
3. Defnyddiwyd yr un cyflwyniad gyda phob ymatebydd. Roedd hyn yn datgan: 'Comisiynwyd yr adolygiad hwn o wasanaethau cyflogaeth yn y prosiect canolfan plant integredig gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei gyflawni gan y Sefydliad dros Astudiaethau Cyflogaeth, sefydliad ymchwil annibynnol. Yn rhan o'r adolygiad rydym yn cyflawni ymchwil bwrdd gwaith (dadansoddiad o ddogfennau a gwybodaeth rheoli), a thrafod amcanion a deilliannau'r peilot gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol yn cynnwys staff o Cymunedau yn Gyntaf, y Ganolfan Byd Gwaith a Chanolfannau Plant Integredig. Byddwn hefyd yn ceisio barnau rhieni sydd wedi gweithio gyda Chynghorwyr JCP a'r rhai nad ydynt.'
4. Sicrhawyd yr holl ymatebwyr o gyfrinachedd ac fe'u cynghorwyd na fyddai unigolion, sefydliadau na chleientiaid yn cael eu henwi yn yr ymchwil. cynigiwyd cyfle i ymatebwyr hefyd ofyn unrhyw gwestiynau oedd cyn cychwyn eu cyfweiliad.

Cyfweliadau Rhanddeiliaid Cenedlaethol

Cefndir

- A allech ddisgrifio eich rôl gwaith yn gryno? Ers faint ydych chi wedi gweithio yn y rôl hon?
- Beth fu eich cyfrifoldebau parthed y peilot ICC? Er enghraifft:
 - A ydych chi wedi ymwneud â'r peilot o'r cychwyn?
 - A yw'ch rôl wedi newid neu ddatblygu yn ystod y peilot? Sut?
 - Beth yw'ch perthynas i lywodraethu'r prosiect – h.y. aelodaeth o'r grŵp llywio? Pwy sydd ar y grŵp llywio?
 - Faint o'ch amser sy'n mynd ar weithio ar y peilot? Ar beth? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
 - Gyda phwy ydych chi'n cyfathrebu/pa gyfathrebu ydych chi'n derbyn ynglŷn â'r peilot yn rheolaidd?
 - Sut mae hyn yn cyd-fynd â'ch cyfrifoldebau eraill yn CF?
- A oes unrhyw wybodaeth gefndirol y gallech ddweud wrthym yn ymwneud â'r CFPs neu ICCs y teimlwch fyddai'n gyd-destun defnyddiol i'r gwerthusiad (e.e. strwythur neu waith/prosiectau arferol a parthed peilot ICC/CFP i'r rhain)?
- A oes unrhyw wybodaeth gefndirol y teimlwch fyddai'n ddefnyddiol i ni wybod parthed ysgogiadau i'r peilot a'i gynllun i gyd-fynd â pholisi Cymreig?
 - Sut y detholwyd y pedair ardal beilot? A oes unrhyw wahaniaethau allweddol rhwng yr ardaloedd (e.e. gwledig/trefol, nifer defnyddwyr ICC, nodweddion y farchnad lafur, lefelau amddifadedd)?
 - Sut y detholwyr y Cynghorwyr JCP a gweithwyr craidd CF ar gyfer y rôl? A yw hyn yn amrywio rhwng y cynlluniau peilot?
 - Sut mae ICCs Cymru yn wahanol i'r ICCs yng nghynlluniau peilot llywodraeth y Deyrnas Unedig?

- Beth yw'r nodweddion tebyg/gwahanol rhwng cynlluniau peilot Cymru a Lloegr?
- Ym mha ffordd y cynlluniwyd y peilot i'w gefnogi gan CFPs?
 - Sut y dychmygwyd y byddai'r peilot yn cysylltu gydag ac yn elwa o weithgaredd CF presennol? Unrhyw enghreifftiau?
 - Pa weithgareddau newydd ellid eu datblygu i gefnogi'r peilot? Unrhyw enghreifftiau?
 - PA werth oedd disgwyl i hyn ychwanegu?
 - A oes gennych unrhyw wybodaeth parthed pa mor dda ydych chi'n meddwl y gweithiodd hyn mewn gwirionedd?
- Yn hanesyddol, beth fu'r berthynas weithredol rhwng CFPs, ICCs a'r JCP cyn y peilot? Sut mae hyn wedi amrywio yn ôl ardal?
- A oes unrhyw bartneriaid allweddol neu randdeiliaid eraill yr ydych yn ymwybodol ohonynt sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r peilot hwn? Rôl ymchwilio Teuluoedd yn Gyntaf.
 - Ym mha gymhwyster?
 - Sut fu'r sefydliadau hyn yn cymryd rhan? A wyddoch chi sut y datblygodd y berthynas yn ystod y peilot?
 - A oedd y partneriaethau yn bodoli cyn cyflwyno'r peilot neu a ydynt yn berthnasau newydd?
 - Pa werth maent wedi ychwanegu/a ragwelwyd y byddai'r partneriaethau hyn yn ychwanegu?
- Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r partneriaethau hyn rhwng CF, JCP a'r ICCs wedi gweithio? Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda? A gafwyd unrhyw heriau nodedig?
- A wyddoch chi sut y datblygodd y perthnasau hyn o ganlyniad i'r peilot? A welwyd unrhyw wahaniaethau yn ôl ardal beilot? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn wedi digwydd?

Cyflawniad y Peilot

- Sut mae sianelau cyfathrebu yn gweithio rhyngoch chi/swyddogion CF cenedlaethol, CFP lleol, ICC a JCP? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain? A gafwyd unrhyw heriau? Sut y datryswyd y rhain?
- Faint o gyswllt sydd gennych chi'n bersonol gyda'r cynlluniau peilot unigol? Beth am swyddogion CF eraill? Beth yw natur y cyswllt hwn (cyfarfodydd ffurfiol/dal i fyny/e-bost)? A yw wedi gweithio fel y dymunoch?
- Faint ydych chi'n teimlo ydych chi wedi gallu bod yn rhan o'r peilot hwn? Faint o ddylanwad a gawsoch? Yw hyn cymaint ag y byddech wedi dymuno? Edrychwch ar pam/pam ddim.
- A ydych chi wedi cael unrhyw ddylanwad parthed y gweithgareddau mae'r Cynghorydd yn cyflawni a sut maent yn rhannu eu hamser? Ym mha fodd?
- Ar ba agweddau mae'r cynlluniau peilot lleol wedi bod angen y mwyaf o gefnogaeth a chynghor? A oedd hyn fel y disgwyl?
- Cyn belled ag y gwyddoch chi, a fu unrhyw anawsterau ymarferol neu logistaidd parhaus yn gysylltiedig â chyflenwi'r peilot?
- A gafwyd unrhyw gerrig milltir parthed cyflenwi'r peilot? Allwch chi ddweud wrthyf am y rhain?
- A gafwyd unrhyw gyfathrebu rhwng y pedwar peilot yn ystod y prosiect i rannu profiadau? Sut y rheolwyd y cyfathrebu hyn a pha effaith a gawsant?

Targedau Prosiect

- Allwch chi roi gwybod i mi sut y cytunwyd ar ddeilliannau'r peilot? Sut mae'r data a gipiwyd gan ardaloedd peilot yn ymwneud â'r targedau a osodwyd yn genedlaethol? Pam?
 - A yw'r targedau hyn wedi newid i gwbl yn ystod y peilot? Sut?
 - Sut y cesglir y data parthed y targedau hyn? (Systemau MI newydd, JCP, LMS; a oedd gan y peilot unrhyw ffordd o gipio deilliannau meddal, neu bellter a deithiwyd?)
 - Sut yr adroddwyd ar y deilliannau?

- Pa wybodaeth ydych wedi derbyn yn ymwneud â chynnydd y peilot? Pa mor aml fyddwch chi'n ei derbyn? Ar ba ffurf? (adroddiadau chwarterol, MI, arall?)
- A fu yna unrhyw heriau penodol yn gysylltiedig â'r broses cipio/adrodd ar ddata? Sut y datryswyd y rhain?
- Yn eich barn chi pa mor realistig yw'r targedau hyn?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl y cyflawnwyd y targedau hyn? Unrhyw dystiolaeth? (A ydych eisoes wedi gwneud dadansoddiad o adroddiadau MI/chwarterol? Ar ba ffurf oedd hyn?)
- A oes unrhyw wahaniaethau ym mherfformiad y peilot rhwng ardaloedd? Allwch chi ddweud wrthyf am y rhain?
- A wyddoch chi, neu a fwriadwyd, i'r targedau hyn ddylanwadu ar y math o weithgareddau a gyflawnwyd yn y peilot?
- A ydych chi'n meddwl bod y targedau hyn wedi effeithio ar beth a gyflawnodd y peilot?
- A fu yna unrhyw effeithiau ehangach yr oeddech yn ymwybodol ohonynt tu hwnt i waith y JCP yn yr ardaloedd peilot?

Diwedd y Peilot

- Pryd mae'r peilot yn dod i ben yn swyddogol? Allwch chi fynd trwy'r broses hon i mi? Beth sydd wedi ei gynllunio?
- A wnaed unrhyw beth i sicrhau cynaliadwyedd rhywfaint o ddarpariaeth y prosiect neu i fewnosod dysgu allweddol o'r peilot wedi i'r cyllid ddod i ben?
- A ydych chi'n meddwl y bydd rhywfaint o'r trefniadau gwaith partneriaeth yn parhau wedi diwedd y peilot? Pa elfennau a ellir eu cynnal, ar ddiwedd cyllid y peilot?
- A oes unrhyw gynlluniau i barhau gyda'r peilot o gwbl?
- Yn eich barn chi, a ydych chi'n meddwl fod y peilot hwn yn cynnig gwerth da am arian? Os felly/nad, pam? (Archwiliwch sut maent yn diffinio 'gwerth am arian' a beth sy'n bwysig yn 'llwyddiant' y peilot.)

- Yn seiliedig ar eich dealltwriaeth bresennol o lefelau adnoddau, sut ydych chi'n rhagweld bydd ymddangosiad y gyflogaeth a chefnogaeth sydd ar gael yn yr ICC wedi'r peilot?
- Beth ydych chi'n meddwl y cyflawnodd y peilot yn nhermau dulliau newydd o weithio a chydweithio?
- A chi'n meddwl bod yna unrhyw wersi penodol i CF sydd wedi codi o'r peilot hwn? Beth fydddech chi'n wneud yn wahanol os bydddech yn dechrau eto?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r ffactorau allweddol i lwyddiant?
- Unrhyw sylwadau eraill?

A oes unrhyw faterion penodol y credwch y dylem eu harchwilio yn yr ymchwil astudiaeth achos?

Diolch

Rheolwr ICC

Cefndir

- Ers faint ydych chi wedi gweithio (a) yn y rôl hon? (b) yn yr ICC hwn?
- Allwch chi drafod eich rôl a chyfrifoldebau allweddol yn gryno?
- Allwch chi roi gwybod i mi am unrhyw brofiadau blaenorol o weithio gyda gwasanaethau JCP (yn yr ICC hwn/rhywle arall) – eich barnau ar y rhain?
- Faint o staff a gyflogir gan yr ICC hwn?
- A fu unrhyw newidiadau mawr i'r ICC hwn yn y blynyddoedd diwethaf?
- Allwch chi drafod proffiliau cyffredinol y rhieni sy'n defnyddio'r ganolfan hon gyda mi? Dynion/menywod, oed, ethnigrwydd, pa ieithoedd a siaredir, pa lefelau o gymwysterau sydd ganddynt?

Cyflawniad y Peilot

- Sut y detholwyr eich ICC i gymryd rhan yn y peilot hwn? Sut ydych chi'n teimlo am hyn?
- A yw'r ICC wedi ei leoli mewn un adeilad neu wedi ei ledaenu ar draws nifer o safleoedd? Ble mae'r Cynghorydd wedi ei leoli? Sut maent yn gweithio rhwng lleoliadau?
- Trafodwch beth mae cael y peilot hwn yn eich ICC wedi golygu i'ch rôl a gweithgareddau gwaith eich hun.
 - Beth fu'ch cysylltiad â'r peilot?
 - Faint o'ch amser a dreulir arno?
 - A ydych chi wedi cymryd rhan i'r fath raddau ag y byddech wedi gobeithio? Pam/pam ddim?
 - A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
- Beth mae cyfranogiad staff yn y peilot hwn yn eich ICC wedi golygu i staff canolfan blant parhaol eraill? Sut ydych chi'n meddwl fod staff ICC ac CF wedi ymateb i'r peilot yn yr ICC? O ran croeso cyffredinol, cymorth a

chefnogaeth, atgyfeiriadau ymlaen, dealltwriaeth o a derbynneidd i rôl y Cynghorydd a nodau'r peilot?

- Cyn belled ag y gwyddoch, pa weithgareddau mae'r Cynghorydd JCP yn eu cyflawni a sut mae ef/hi yn rhannu ei amser rhwng y rhain? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
- Faint o ddylanwad a gawsoch o ran sut mae'r Cynghorydd yn rhannu eu hamser?
 - Yw hyn cymaint ag y byddech wedi dymuno?
 - A oes unrhyw beth y byddech yn hoffi iddynt wneud mwy/llai ohono?
- Yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus fu'r PEA o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau allgymorth/ymgysylltu a gweithgareddau mwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar waith? A yw hyn wedi newid gydag amser?
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl fu'r PA o ran integreiddio ei hun i weithgareddau'r ICC a'r tîm o staff? Ymchwiliad: Pa benderfyniadau a wnaed parthed brandio'r gwasanaethau Cynghorydd JCP?
- Ym mha fodd mae'r ICC yn cefnogi'r peilot?
 - Ym mha fodd mae'r peilot wedi gallu cysylltu gydag ac elwa o weithgaredd presennol ICC? Unrhyw enghreifftiau/tystiolaeth?
 - A ddatblygwyd unrhyw weithgareddau newydd i gefnogi'r peilot? Beth fu effaith hyn? Unrhyw enghreifftiau/tystiolaeth?
 - A yw'r peilot yn cysylltu i ddarpariaeth arall yr ICC?
- A ydych chi'n teimlo'ch darparwyd â digon o wybodaeth a chanllaw i gefnogi'r peilot yn dda? Os nad, beth fyddai wedi gallu gwella?
- Sut mae sianelau cyfathrebu yn gweithio rhyngoch chi/CFP, ICC a JCP? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain?
- Faint o gyswllt sydd gennych chi'n bersonol gyda'r Cynghorydd? Beth yw natur hyn (cyfarfodydd ffurfiol/dal i fyny/e-bost)? A yw wedi gweithio fel y dymunoch?

- A oedd yna unrhyw anawsterau ymarferol neu logistaidd parhaus yn gysylltiedig â chyflawniad y peilot?
- A gafwyd unrhyw gerrig milltir parthed cyflenwi'r peilot? Allwch chi ddweud wrthyf am y rhain?

Targedau Prosiect

- Gan feddwl am y targedau deilliant yn gysylltiedig â'r peilot hwn...
 - A wyddoch chi sut y cytunwyd ar y targedau hyn?
 - A yw'r targedau hyn wedi newid i gwbl yn ystod y peilot? Sut?
 - Yn eich barn chi pa mor realistig yw'r targedau hyn?
 - I ba raddau y cyflawnwyd y targedau hyn? Allwch chi fy narparu ag unrhyw ddata neu dystiolaeth atodol (nad yw wedi ei gynnwys yn MI y peilot)?
 - Pa ffactorau fu fwyaf defnyddiol neu allweddol wrth gyflawni'r targedau hyn?
 - Sut ydych chi'n meddwl i'r targedau hyn ddylanwadu ar y gweithgareddau a gyflawnwyd?

Allgymorth ac Ymgysylltiad

- Sut mae'r peilot wedi ei hyrwyddo i ddefnyddwyr ICC?
- Sut y mae wedi ei hyrwyddo tu allan i'r ICC i rieni yn y gymuned ehangach? Casglwch enghreifftiau.
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl fu'r hyrwyddiad hwn o ran codi ymwybyddiaeth i'r gwasanaeth? A ydych chi'n teimlo fod y peilot wedi cyflawni lefel eang o ymwybyddiaeth? Pa dystiolaeth sydd o hyn? Ymchwiliwch unrhyw ffynonellau data a mynediad at werthusiad, e.e. ar ddefnyddwyr newydd, atgyfeiriadau ac ati.
- A oes yna unrhyw ddull penodol o ymgysylltu â rhieni/hyrwyddo'r peilot sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus? neu aflwyddiannus? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn wedi digwydd?
- A fu ymgysylltu â'r rhieni yn gymharol syml neu'n heriol? Pam fod hyn?

- A oes unrhyw grwpiau penodol o rieni yn defnyddio'r gwasanaeth mwy nag eraill (e.e. unig rieni, enillwyr ail gyflog posibl, yn ôl oedran y plentyn)?
- A ydych chi'n meddwl fod y peilot yn ymgysylltu gyda grwpiau mwy difreintiedig yn yr ardal leol (BME ac ati)? Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl y gallodd yr ICC ychwanegu gwerth i'r peilot o ran helpu ymgysylltu gyda'r anoddaf i'w cyrraedd? Unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y peilot yn gweithio gyda'r grwpiau targed allweddol a'r rhai sydd fwyaf angen cefnogaeth? (h.y. osgoi pwysau marw. Unrhyw dystiolaeth o hufennu?)
- A oes gennych deimlad pam nad yw rhai rhieni eisiau ymgysylltu â'r peilot?

Partneriaethau

- Gan feddwl am y berthynas weithredol rhwng CFP, ICC a'r JCP, sut maent wedi herio neu ddatblygu o ganlyniad i'r peilot?
- Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r partneriaethau hyn rhwng CF, JCP a'r ICC wedi gweithio? Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda? A gafwyd unrhyw heriau nodedig? Sut wnaethoch chi geisio datrys y rhain?
- Yn eich barn chi, beth yw manteision ac anfanteision cael yr ICC mewn ardal CF?
- A fydddech yn dweud y cafwyd anawsterau yn y peilot, yn deillio o beth allech alw'r gwahaniaethau 'diwylliannol' rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'r ICCs a'r CFP - er enghraifft, blaenoriaeth y Ganolfan Byd Gwaith ar ddeilliannau cyflogaeth yn hytrach na blaenoriaeth yr ICCs ar beth sydd orau i'r teulu?
 - Beth fu natur a graddau'r problemau hyn?
 - A fydddech chi'n dweud i'r materion hyn ei gwneud yn anodd i chi wneud eich gwaith?
 - Beth a wnaed i geisio eu trechu?

- A oes unrhyw bartneriaid neu randdeiliaid allweddol eraill y buoch yn gweithio gyda nhw yn ystod y peilot hwn?
 - Ym mha gymhwyster?
 - Sut fu'r sefydliadau hyn yn cymryd rhan? Sut mae'ch perthynas wedi datblygu yn ystod y peilot?
 - A oedd y partneriaethau yn bodoli cyn cyflwyno'r peilot neu a ydynt yn berthnasau newydd?
 - Pa wrth maent wedi ychwanegu?
- Ym mha ffordd ydych chi'n meddwl yr elwodd rhieni o gydweithrediad y JCP/ICC/CF ac unrhyw bartneriaid eraill? Ym mha fodd ydych chi'n meddwl yr elwodd y peilot? Casglwch enghreifftiau penodol ble fo'n bosibl.
- Ydych chi wedi cael cyswllt â'r tri pheilot arall yn ystod y prosiect i rannu profiadau? Sut y rheolwyd y cyfathrebu hyn a pha effaith a gawsant?
- Daw'r peilot i ben yn swyddogol ym mis Hydref? A wnaed unrhyw beth i sicrhau cynaliadwyedd rhywfaint o ddarpariaeth y prosiect neu i fewnosod dysgu allweddol o'r peilot wedi i'r cyllid ddod i ben?
- A ydych chi'n meddwl y bydd rhywfaint o'r trefniadau gwaith partneriaeth yn parhau wedi diwedd y peilot? Pa elfennau a ellir eu cynnal, ar ddiwedd cyllid y peilot?

Deilliannau a Gwersi a Ddysgwyd

- Ar y cyfan, sut brofiad fu cynnal y peilot yn eich ICC? Beth fu'n haws/anoddach na'r disgwyl?
- Yn eich barn chi, beth fu llwyddiannau allweddol y peilot? Beth oedd yr heriau mwyaf?
- A ydych wedi derbyn adborth gan rieni am y peilot? Beth oedd hyn?
- Sut mae'r peilot wedi perfformio parthed y targedau allweddol? Sicrhewch fod gennym yr holl dystiolaeth sydd ar gael.
- Faint o wahaniaeth ydych chi'n feddwl y gwnaeth y peilot hwn i rieni?

- Pa mor llwyddiannus oedd y peilot o ran annog rhieni i feddwl am waith fel opsiwn tymor canolig i hir? A oes gennych unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth o hyn? (Deilliannau meddal – beth yw'r pellter cyffredinol a deithiwyd yn ystod y peilot?)
- Beth yw'r gwahaniaeth cymharol rhwng deilliannau caled a meddal a gyflawnwyd?
- A fu yna unrhyw effeithiau ehangach yr oeddech yn ymwybodol ohonynt tu hwnt i waith y JCP yn yr ardaloedd peilot?
- Beth ydych chi'n meddwl y cyflawnodd y peilot yn nhermau dulliau newydd o weithio a chydweithio?
- A ydych chi'n meddwl fod staff (o bob sefydliad) yn gweithio yn yr ICC neu'n rhan i'r peilot wedi gwella dealltwriaeth o rôl gwaith wrth liniaru tloedi plant – o ganlyniad i'r peilot hwn?
- A oes unrhyw ffactorau tu hwnt i'ch rheolaeth y teimlwch sydd wedi effeithio'n negyddol ar beth mae'r peilot wedi gallu cyflawni? Beth oedd y rhain a pha effaith ydych chi'n meddwl y cawsant? Ymchwiliwch os nad yw eisoes wedi ei drafod:
 - anawsterau neu oedi yn y cyfnod i sefydlu'r peilot
 - pryderon ymarferol megis diffyg lle neu breifatrwydd i gwrdd â rhieni
 - diffyg mynychwyr i'r ICC
 - materion diogelwch TG/data
 - newidiadau staff neu absenoldeb staff mewn rolau allweddol
 - nodweddion y farchnad lafur leol
 - bylchau mewn gwasanaethau cefnogaeth lleol sydd ar gael i rieni, e.e. gofal plant, ESOL, hyfforddiant arall neu ddarpariaeth amlapiad
- Yn seiliedig ar eich dealltwriaeth bresennol o lefelau adnoddau, sut ydych chi'n rhagweld fydd ymddangosiad y gyflogaeth a chefnogaeth sydd ar gael yn yr ICC wedi'r peilot?

- A yw'r peilot wedi effeithio ar eich barnau ar rôl cysylltiadau allgymorth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith?
- A ydych chi wedi dysgu unrhyw wersi gwerthfawr? Beth fydddech chi'n wneud yn wahanol os bydddech yn dechrau eto?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r ffactorau allweddol i lwyddiant?
- Unrhyw sylwadau eraill?

Cynghorydd Cyflogaeth Rhiant

Cefndir

- Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio fel Cynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith? Beth oeddech chi'n wneud cyn hyn? A ydych chi wedi ymwneud â'r hwn peilot o'r cychwyn?
- A ydych chi wedi gwneud unrhyw waith yn neu gyda chanolfannau plant o'r blaen? Pryd ac ym mha gymhwyster? Ydych chi wedi gwneud unrhyw waith allgymorth o'r blaen?
- Sut wnaethoch chi ddod yn rhan o'r peilot hwn? A wnaethoch chi wirfoddoli ar gyfer y rôl hon neu a gawsoch eich dethol? Sut?
- A oedd y lefel o gefnogaeth Canolfan Byd Gwaith/cyflogaeth ar gael yn yr ICC cyn y peilot?
- Pa berthynas weithredol oedd yn bodoli rhwng y Ganolfan Byd Gwaith, ICCs a'r CFP cyn y peilot?

Cyflawniad y Peilot – Gweithgareddau Cynghorydd

- Allwch chi ddisgrifio'n gryno'r gwahanol weithgareddau yr ydych yn eu cyflawni yn eich rôl fel Cynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith, yn rhan o'r peilot hwn? Gwrandewch am fanylion y canlynol a chael enghreifftiau o weithgareddau penodol a gyflawnwyd:
 - addysgu staff yr ICC a CFP ynglŷn â pholisi cyflogaeth LIC a sut mae'n cyd-fynd â'r agenda tlodi plant
 - gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu yn yr ICC, cyfleusterau cymunedol ac yn y gymuned ehangach
 - swyddogaethau safonol Cynghorydd JCP i gleientiaid y JCP (e.e. WFIs, trefnu apwyntiadau a gweithgaredd llwyth achos) a chynnig cefnogaeth i enillwyr ail gyflog posibl
 - rhedeg seminarau a digwyddiadau cyflogwyr
 - gwneud atgyfeiriadau perthnasol

- cefnogaeth a gwasanaethau unigol ad hoc – casglwch enghreifftiau o'r rhain
- Sut ydych chi'n rhannu'ch amser rhwng y gweithgareddau hyn? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
- PA ffactorau sy'n dylanwadu ar sut ydych chi'n rhannu'ch amser? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot? Ymchwiliad:
 - anghenion rhieni
 - pwysau gan y JCP
 - pwysau gan staff yr ICC neu CFP
 - targedau
 - cyfleusterau sydd ar gael
 - menter eich hun
- Yn eich barn chi, ai dyma'r defnydd mwyaf effeithiol o'ch amser? Os nad, sut ydych chi'n meddwl y gallech drefnu'ch amser yn well a beth fyddai'n eich helpu i wneud hyn?
- Faint o oriau ydych chi'n gweithio pob wythnos? A welwch fod gennych amser dros ben yn rheolaidd, neu i'r gwrthwyneb, nad oes digon o amser yn rheolaidd? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
- A gafwyd unrhyw gerrig milltir wrth gyflenwi'r peilot? Beth oedd y rhain?
- Ble ydych chi fel arfer yn cwrdd â rhieni? Yn yr ICC? Lleoliadau cymunedol?
- A oedd yna unrhyw anawsterau ymarferol neu logistaidd parhaus yn gysylltiedig â chyflawniad y peilot?
- Pa rai o'ch gwasanaethau y mae mwyaf o alw amdanynt (IAG am gyflogaeth neu hyfforddiant, chwilio am swydd, WFIs, cyngor budd-daliadau a chyfrifiadau gwell eich byd, arall)?
 - A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
 - Beth yw'r rhaniad rhwng y lefel o gefnogaeth gysylltiedig â gwaith a chefnogaeth amlapiad mwy cyffredinol mae rhieni angen?

Targedau Deilliant

- Gan feddwl am y targedau deilliant yn gysylltiedig â'r peilot hwn...
 - A wyddoch chi sut y cytunwyd ar y targedau hyn?
 - A yw'r targedau hyn wedi newid i gwbl yn ystod y peilot? Sut?
 - Yn eich barn chi pa mor realistig yw'r targedau hyn?
 - Sut ydych chi'n casglu tystiolaeth ac adrodd ar ddeilliannau? A oes yna weithdrefnau safonol? A ydych wedi datblygu unrhyw dechnegau cipio data/adrodd eich hun? Casglwch dystiolaeth.
 - A fu yna unrhyw heriau penodol yn gysylltiedig â'r broses cipio/adrodd ar ddata? Sut y datryswyd y rhain?
 - I ba raddau ydych chi wedi cyflawni'r targedau hyn? Allwch chi fy narparu ag unrhyw ddata neu dystiolaeth atodol (nad yw wedi ei gynnwys yn MI y peilot)?
 - Pa ffactorau fu fwyaf dylanwadol neu allweddol wrth gyflawni'r targedau hyn?
 - Sut mae'r targedau hyn wedi dylanwadu ar eich rôl a'r gweithgareddau yr ydych yn eu cyflawni?
 - A ydych chi'n meddwl bod y targedau hyn wedi dylanwadu ar beth mae'r peilot wedi gallu ei gyflawni?

Gweithio mewn Partneriaeth

- Allwch chi ddisgrifio'n gryno beth yw'r cyfrifoldebau (fel yr ydych yn eu gweld) sydd gan yr ICC a'r staff CF parthed y peilot hwn?
 - Beth mae pob un yn cyflawni/cyflwyno i'r peilot?
- Allwch chi ddisgrifio sut ydych chi'n gweithio gyda staff ICC a CF o ddydd i ddydd?
 - Beth yw rolau gwaith y staff yr ydych chi'n gweithio fwyaf â nhw?
 - Beth fu rôl y gweithiwr craidd CF?
 - Sut mae'r perthnasau hyn wedi datblygu yn ystod y peilot?

- Sut y rheolir y cyfathrebu hyn rhyngoch? Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r trefniadau hyn yn gweithio?
- Sut ydych chi'n meddwl fod staff ICC ac CF wedi ymateb i'ch gwasanaethau yn yr ICC? O ran croeso cyffredinol, cymorth a chefnogaeth, atgyfeiriadau ymlaen, dealltwriaeth o a derbynnedd i'ch rôl a'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni?
- Pa mor bwysig fu'r mewnbwn hwn o'r partneriaethau hyn wrth eich helpu yn eich rôl? A oes unrhyw enghreifftiau da neu dystiolaeth o hyn?
- Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r partneriaethau hyn wedi gweithio? Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda? A gafwyd unrhyw heriau nodedig? Sut wnaethoch chi geisio datrys y rhain?
- A fydddech yn dweud y cafwyd anawsterau yn y peilot, yn deillio o beth allech alw'r gwahaniaethau 'diwylliannol' rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'r ICCs a'r CFP - er enghraifft, blaenoriaeth y Ganolfan Byd Gwaith ar ddeilliannau cyflogaeth yn hytrach na blaenoriaeth yr ICCs ar beth sydd orau i'r teulu?
 - Beth fu natur a graddau'r problemau hyn?
 - A fydddech chi'n dweud i'r materion hyn ei gwneud yn anodd i chi wneud eich gwaith?
 - Beth a wnaed i geisio eu trechu?
- A oes unrhyw bartneriaid neu randdeiliaid allweddol eraill y buoch yn gweithio gyda nhw yn ystod y peilot hwn?
 - Ym mha gymhwyster?
 - Sut fu'r sefydliadau hyn yn cymryd rhan?
 - A oedd y partneriaethau yn bodoli cyn cyflwyno'r peilot neu a ydynt yn berthnasau newydd?
 - Pa wrth maent wedi ychwanegu?
- Ym mha ffordd ydych chi'n meddwl yr elwa rhieni o gydweithrediad y JCP/ICC/CF ac unrhyw bartneriaid eraill? Ym mha fodd ydych chi'n meddwl yr elwodd y peilot? Casglwch enghreifftiau penodol ble fo'n bosibl.

- Ydych chi wedi cael cyswllt â'r tri pheilot arall yn ystod y prosiect i rannu profiadau? Sut y rheolwyd y cyfathrebu hyn a pha effaith a gawsant?
- Faint o gyswllt a gawsoch gyda'ch cydweithwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith yn ystod y peilot? A ydynt yn croesawu nodau'r peilot? A ydynt wedi cynnig cymorth neu gefnogaeth?
- O ystyried, a oes unrhyw un yn benodol, neu unrhyw sefydliad y teimlwch sydd wedi cynnig y gefnogaeth fwyaf i chi yn eich rôl fel Cynghorydd Canolfan Byd Gwaith yn ystod y peilot hwn?

Marchnata ac Allgymorth

a) Yn yr ICC

1. Sut mae'r peilot hwn wedi ei farchnata a'i hyrwyddo yn yr ICC? Casglwch gopïau neu daflenni, manylion digwyddiadau, hyrwyddiad wyneb yn wyneb ac ati.
 - Beth fu'r rôl a chwaraewyd gennych chi/ICC/CFP? Pa mor bwysig fu pob un o'r partneriaid hyn?
 - A yw hyn wedi amrywio yn ystod y peilot?
2. yn eich barn chi, pa ddulliau marchnata/allgymorth fu fwyaf a lleiaf effeithiol? Beth yw'r dystiolaeth o hyn?
3. A ydych chi'n teimlo fod y peilot wedi cyflawni lefel eang o ymwybyddiaeth ymysg rhieni sy'n defnyddio'r ganolfan blant? Faint o amser gymerodd hyn? Pa dystiolaeth sydd o hyn?
4. Beth ydych chi wedi canfod i fod y llwybr mwyaf llwyddiannus o sefydlu cyswllt cychwynnol gyda rhieni sydd eisoes yn defnyddio'r ICC? (Ymgysylltiad rhagweithiol eich hun, atgyfeiriadau ymlaen gan staff yr ICC/CF, hunan gyfeiriadau trwy dafod lleferydd, arall?)

b) Yn y gymuned ehangach

Ailadroddwch 1-4 uchod gan gyfeirio at ymgysylltu â rhieni yn y gymuned ehangach.

Ymgysylltiad

- O ble daw'r rhan fwyaf o'ch atgyfeiriadau (JCP/ICC/CFP/hunan gyfeirio/partneriaid eraill)?
 - Ydych chi wedi wynebu unrhyw heriau o ran derbyn atgyfeiriadau? Sut y datryswyd y rhain?
 - A yw'r llwybr cyfeirio yn effeithio ar ba mor hawdd ydi hi i ymgysylltu â'r rhiant mewn gweithgaredd sy'n canolbwyntio ar waith yn ddilynol?
- Ym mha ffordd ydych chi, yn eich rôl fel Cynghorydd Canolfan Byd Gwaith, yn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhieni? Sut mae rhieni wedi ymateb i'ch ymdrechion i ymgysylltu â nhw?
- A ydych chi wedi canfod fod dulliau gwahanol o waith ymgysylltu yn gweithio'n well i rai grwpiau o rieni nag eraill? Allwch chi ddweud wrthyf am hyn?
- A fu'r gwaith o ymgysylltu â'r rhieni yn gymharol syml neu'n heriol? Pam fod hyn?
- Pa gyfran o rieni y gwnaethoch chi gysylltu â nhw sy'n cefnogi'r peilot?
 - Beth yw cyrhaeddiad cymharol bob gwasanaeth i bob un o'r grwpiau targed? A oes unrhyw grwpiau cleient sy'n cofrestru ar gyfer ac yn defnyddio eich gwasanaethau mwy nag eraill?
 - A fu unrhyw un o'r grwpiau targed yn arbennig o anodd i ymgysylltu â nhw? Sut wnaethoch chi geisio datrys hyn?
 - Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw dueddiadau yn y lefelau ymgysylltu gydag amser?
- Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn gweithio gyda'r grwpiau targed allweddol a'r rhai sydd fwyaf angen eich cefnogaeth (h.y. osgoi pwysau marw. Unrhyw dystiolaeth o hufennu?) yn arbennig os yw'ch llwyth achosion yn sylweddol?

Profiadau Cynghorydd

- Ar y cyfan, sut brofiad fu gweithio mewn amgylchedd gwahanol? Beth fu'n haws/anoddach na'r disgwyl?

- A ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch cynnwys yn llawn yn nhîm staff yr ICC/CFP? Os nad: pam fod hyn? Os ydych: Faint o amser gymerodd hyn? Beth helpodd y broses hon?
 - Ymchwiliad: Pa benderfyniadau a wnaed parthed brandio'r gwasanaethau Cyngorydd JCP?
- A ydych wedi wynebu unrhyw heriau penodol yn ystod y peilot? Beth oeddynt a pha effaith a gawsant ar beth y galloch ei gyflawni? A ddatryswyd y materion hyn?
- A ydych chi'n teimlo'ch darparwyd â digon o wybodaeth a chanllaw i wneud eich gwaith yn dda? Os nad, beth fyddai wedi gallu gwella?
- Pa sgiliau a phriodoleddau ydych chi'n meddwl y mae Cyngorydd angen i wneud eu gwaith yn dda?
- Daw'r peilot i ben yn swyddogol yn xxxx. Pa gyngor a roddwyd i chi ynglŷn â'r lefel o ymgysylltiad parhaus gyda chwsmeriaid? Sut fydd y gefnogaeth gorffen?
- A ydych chi'n meddwl y bydd rhywfaint o'r trefniadau gwaith partneriaeth yn parhau wedi diwedd y peilot? Pa elfennau a ellir eu cynnal, ar ddiwedd cyllid y peilot?

Deilliannau a Gwersi a Ddysgwyd

- Yn eich barn chi, beth fu llwyddiannau allweddol y peilot? Beth oedd yr heriau mwyaf?
- Sut mae'r peilot wedi perfformio parthed y targedau allweddol? Sicrhewch fod gennym yr holl dystiolaeth sydd ar gael.
- Faint o wahaniaeth ydych chi'n feddwl y gwnaeth y peilot hwn i rieni?
 - A fu unrhyw ddeilliannau atodol, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y targedu hyn? (Deilliannau meddal – beth yw'r pellter cyffredinol a deithiwyd yn ystod y peilot?)
 - Beth yw'r gwahaniaeth cymharol rhwng deilliannau caled a meddal a gyflawnwyd?

- A fu yna unrhyw effeithiau ehangach yr oeddech yn ymwybodol ohonynt tu hwnt i waith y JCP yn yr ardaloedd peilot?
- A ydych chi'n meddwl fod staff (o bob sefydliad) yn gweithio yn yr ICC neu'n rhan i'r peilot wedi gwella dealltwriaeth o rôl gwaith wrth liniaru tloedi plant – o ganlyniad i'r peilot hwn?
- A oes unrhyw ffactorau tu hwnt i'ch rheolaeth y teimlwch sydd wedi effeithio'n negyddol ar beth mae'r peilot wedi gallu cyflawni? Beth oedd y rhain a pha effaith ydych chi'n meddwl y cawsant? Ymchwiliwch os nad yw eisoes wedi ei drafod:
 - anawsterau neu oedi yn y cyfnod i sefydlu'r peilot
 - pryderon ymarferol megis diffyg lle neu breifatrwydd i gwrdd â rhieni
 - diffyg mynychwyr i'r ICC
 - materion diogelwch TG/data
 - newidiadau staff neu absenoldeb staff mewn rolau allweddol
 - nodweddion y farchnad lafur leol
 - bylchau mewn gwasanaethau cefnogaeth lleol sydd ar gael i rieni, e.e. gofal plant, ESOL, hyfforddiant arall neu ddarpariaeth amlapiad
- A ydych chi wedi dysgu unrhyw wersi gwerthfawr? Beth fydddech chi'n wneud yn wahanol os bydddech yn dechrau eto?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r ffactorau allweddol i lwyddiant?
- Unrhyw sylwadau eraill?

Staff Cymunedau yn Gyntaf

Cefndir

- Allwch chi sôn rhywfaint am y CFP yn yr ardal leol hon?
- A allech ddisgrifio eich rôl gwaith yn CF yn gryno? Ers faint ydych chi wedi gweithio yn y rôl hon?
- Sut wnaethoch chi ddod yn rhan o'r peilot? *Ymchwiliwch* am wahoddiad i bartner neu drefniadau eraill.
- Beth yw eich cyfrifoldebau parthed y peilot ICC?
 - A ydych chi wedi ymwneud â'r peilot o'r cychwyn?
 - A wnaethoch chi wirfoddoli/ymgeisio ar gyfer y rôl hon, neu a oedd yn rhan o'ch gwaith arferol?
 - Faint o'ch amser a dreulir arno?
 - A yw'ch rôl wedi newid neu ddatblygu yn ystod y peilot?
 - Gyda phwy ydych chi'n cyfathrebu am y peilot hwn yn rheolaidd?

Cyflawniad y Peilot

- Ym mha fodd mae'r CFP yn cefnogi'r peilot?
 - Ym mha fodd mae'r peilot wedi gallu cysylltu gydag ac elwa o weithgaredd presennol CF? *Unrhyw enghreifftiau/tystiolaeth?*
 - Pa weithgareddau newydd a ddatblygwyd i gefnogi'r peilot? Beth fu effaith hyn? *Unrhyw enghreifftiau/tystiolaeth?*
 - A yw'r peilot yn cysylltu i ddarpariaeth arall yr ardal? Sut mae'r CFP yn helpu cefnogi'r cysylltiadau hyn?
- Faint ydych chi'n teimlo ydych chi wedi gallu bod yn rhan o'r peilot hwn? Yw hyn cymaint ag y byddech chi wedi dymuno? *Edrychwch ar pam/pam ddim.*
- A ydych chi'n teimlo'ch darparwyd â digon o wybodaeth a chanllaw i gefnogi'r peilot yn dda? Os nad, beth fyddai wedi gallu gwella?

- A ydych wedi cael unrhyw ddylanwad parthed y gweithgareddau mae'r Cynghorydd yn cyflawni a sut maent yn rhannu eu hamser? Ym mha fodd?
- Sut mae sianelau cyfathrebu yn gweithio rhyngoch chi/CFP, ICC a JCP? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain?
- Faint o gyswllt sydd gennych chi'n bersonol gyda'r Cynghorydd? Beth yw natur hyn (cyfarfodydd ffurfiol/dal i fyny/e-bost)? A yw wedi gweithio fel y dymunoch?
- A oedd yna unrhyw anawsterau ymarferol neu logistaidd parhaus yn gysylltiedig â chyflawniad y peilot?
- A gafwyd unrhyw gerrig milltir parthed cyflenwi'r peilot? Allwch chi ddweud wrthyf am y rhain?
- Yn eich barn chi, pa mor llwyddiannus fu'r PA o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau allgymorth/ymgysylltu a gweithgareddau mwy traddodiadol sy'n canolbwyntio ar waith? Pa gyfyngiadau maent yn wynebu? A yw hyn wedi newid gydag amser?
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl fu'r PA o ran integreiddio ei hun i weithgareddau'r ganolfan a'r tîm o staff? *Ymchwiliad*: Pa benderfyniadau a wnaed parthed brandio'r gwasanaethau Cynghorydd JCP?
- Sut ydych chi'n meddwl yr ymatebodd CF i'r peilot? O ran croeso cyffredinol, cymorth a chefnogaeth, atgyfeiriadau ymlaen, dealltwriaeth o a derbynneidd i rôl y Cynghorydd a nodau'r peilot?

Targedau Prosiect

- A ydych chi'n gyfarwydd â'r targedau deilliant sy'n gysylltiedig â'r peilot hwn?
 - A wyddoch chi sut y cytunwyd ar y targedau hyn?
 - A yw'r targedau hyn wedi newid i gwbl yn ystod y peilot? Sut?
 - Yn eich barn chi pa mor realistig yw'r targedau hyn?
 - I ba raddau y cyflawnwyd y targedau hyn? Allwch chi fy narparu ag unrhyw ddata neu dystiolaeth atodol (nad yw wedi ei gynnwys yn MI y peilot)?

- Pa ffactorau fu fwyaf defnyddiol neu allweddol wrth gyflawni'r targedau hyn?
- Sut ydych chi'n meddwl i'r targedau hyn ddylanwadu ar y gweithgareddau a gyflawnwyd?
- A ydych chi'n meddwl bod y targedau hyn wedi dylanwadu ar beth a gyflawnodd y peilot?

Allgymorth ac Ymgysylltiad

- Beth fu cyfraniad CF i hyrwyddo'r peilot i ddefnyddwyr ICC a rhieni yn y gymuned ehangach? Sut ydych chi'ch hun wedi cymryd rhan? *Casglwch enghreifftiau.*
- I ba raddau ydych chi'n meddwl y gallodd y CFP ychwanegu gwerth i'r peilot o ran helpu ymgysylltu gyda'r anoddaf i'w cyrraedd? *Unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth?*
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl fu'r hyrwyddiad hwn o ran codi ymwybyddiaeth i'r gwasanaeth? A ydych chi'n teimlo fod y peilot wedi cyflawni lefel eang o ymwybyddiaeth? Pa dystiolaeth sydd o hyn?
- A oes yna unrhyw ddull penodol o ymgysylltu â rhieni/hyrwyddo'r peilot sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus? neu aflwyddiannus? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn wedi digwydd? A oes unrhyw ddulliau penodol sy'n effeithiol o ran cyrraedd rhieni anodd eu cyrraedd?
- A fu ymgysylltu â'r rhieni yn gymharol syml neu'n heriol? Pam fod hyn?
- A oes unrhyw grwpiau penodol o rieni yn defnyddio'r gwasanaeth mwy nag eraill (e.e. unig rieni, enillwyr ail gyflog posibl, yn ôl oedran y plentyn)? A oes gennych dystiolaeth i ddangos hyn?
- A ydych chi'n meddwl fod y peilot yn ymgysylltu gyda grwpiau mwy difreintiedig yn yr ardal leol (BME ac ati)? Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod y peilot yn gweithio gyda'r grwpiau targed allweddol a'r rhai sydd fwyaf angen cefnogaeth? *(h.y. osgoi pwysau marw. Unrhyw dystiolaeth o hufennu?)* A oes gennych dystiolaeth i ddilysu hyn?

- A oes gennych deimlad pam nad yw rhai rhieni eisiau ymgysylltu â'r peilot?

Partneriaethau

- Yn hanesyddol, beth fu'r berthynas weithredol rhwng CFP, ICC a'r JCP cyn y peilot? Sut maent wedi newid neu ddatblygu o ganlyniad i'r peilot?
- Yn eich barn chi, pa mor dda mae'r partneriaethau rhwng CF, JCP a'r ICC wedi gweithio? Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda? A gafwyd unrhyw heriau nodedig? Sut wnaethoch chi geisio datrys y rhain?
- A fydddech yn dweud y cafwyd anawsterau yn y peilot, yn deillio o beth allech alw'r gwahaniaethau 'diwylliannol' rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a'r ICCs a'r CFP - er enghraifft, blaenoriaeth y Ganolfan Byd Gwaith ar ddeilliannau cyflogaeth yn hytrach na blaenoriaeth yr ICCs ar beth sydd orau i'r teulu?
 - Beth fu natur a graddau'r problemau hyn?
 - A fydddech chi'n dweud i'r materion hyn ei gwneud yn anodd i chi wneud eich gwaith?
 - Beth a wnaed i geisio eu trechu?
- A oes unrhyw bartneriaid neu randdeiliaid allweddol eraill y buoch yn gweithio gyda nhw yn ystod y peilot hwn?
 - Ym mha gymhwyster?
 - Sut fu'r sefydliadau hyn yn cymryd rhan? Sut mae'ch perthynas wedi datblygu yn ystod y peilot?
 - A oedd y partneriaethau yn bodoli cyn cyflwyno'r peilot neu a ydynt yn berthnasau newydd?
 - Pa wrth maent wedi ychwanegu?
- Ym mha ffordd ydych chi'n meddwl bydd rhieni yn elwa o gydweithrediad y JCP/ICC/CF ac unrhyw bartneriaid eraill? Ym mha fodd ydych chi'n meddwl yr elwodd y peilot? *Casglwch enghreifftiau penodol ble fo'n bosibl.*
- Ydych chi wedi cael cyswllt â'r tri pheilot arall yn ystod y prosiect i rannu profiadau? Sut y rheolwyd y cyfathrebu hyn a pha effaith a gawsant?

- Daw'r peilot i ben yn swyddogol yn xxxx. A wnaed unrhyw beth i sicrhau cynaliadwyedd rhywfaint o ddarpariaeth y prosiect neu i fewnosod dysgu allweddol o'r peilot wedi i'r cyllid ddod i ben?
- A ydych chi'n meddwl y bydd rhywfaint o'r trefniadau gwaith partneriaeth yn parhau wedi diwedd y peilot? Pa elfennau a ellir eu cynnal, ar ddiwedd cyllid y peilot?

Deilliannau a Gwersi a Ddysgwyd

- Yn eich barn chi, beth fu llwyddiannau allweddol y peilot? Beth oedd yr heriau mwyaf?
- A ydych wedi derbyn adborth gan rieni am y peilot? Beth oedd hyn?
- Sut mae'r peilot wedi perfformio parthed y targedau allweddol? *Sicrhewch fod gennym yr holl dystiolaeth sydd ar gael.*
- Faint o wahaniaeth ydych chi'n feddwl y gwnaeth y peilot hwn i rieni?
 - Pa mor llwyddiannus oedd y peilot o ran annog rhieni i feddwl am waith fel opsiwn tymor canolig i hir? A oes gennych unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth o hyn? (Deilliannau meddal – beth yw'r pellter cyffredinol a deithiwyd yn ystod y peilot?) *Ymchwiliwch i ffynonellau tystiolaeth.*
 - Beth yw'r gwahaniaeth cymharol rhwng deilliannau caled a meddal a gyflawnwyd? *Ymchwiliwch i ffynonellau tystiolaeth.*
- A fu yna unrhyw effeithiau ehangach yr oeddech yn ymwybodol ohonynt tu hwnt i waith y JCP yn yr ardaloedd peilot? Beth yw'r rhain? Tystiolaeth?
- Beth ydych chi'n meddwl y cyflawnodd y peilot yn nhermau dulliau newydd o weithio a chydweithio?
- A ydych chi'n meddwl y bu unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r peilot o ran sut mae staff ar draws y CFP a'r ICC yn deall neges cyflogaeth y Llywodraeth a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda Tlodi Plant? (*Ymchwiliwch i natur unrhyw newidiadau a sut y digwyddont.*)
- A oes unrhyw ffactorau tu hwnt i'ch rheolaeth y teimlwch sydd wedi effeithio'n negyddol ar beth mae'r peilot wedi gallu cyflawni? Beth oedd y

rhain a pha effaith ydych chi'n meddwl y cawsant? *Ymchwiliwch os nad yw eisoes wedi ei drafod:*

- anawsterau neu oedi yn y cyfnod i sefydlu'r peilot
 - pryderon ymarferol megis diffyg lle neu breifatrwydd i gwrdd â rhieni
 - diffyg mynychwyr i'r ICC
 - materion diogelwch TG/data
 - newidiadau staff neu absenoldeb staff mewn rolau allweddol
 - nodweddion y farchnad lafur leol
 - bylchau mewn gwasanaethau cefnogaeth lleol sydd ar gael i rieni, e.e. gofal plant, ESOL, hyfforddiant arall neu ddarpariaeth amlapiad
- Yn seiliedig ar eich dealltwriaeth bresennol o lefelau adnoddau, sut ydych chi'n rhagweld fydd ymddangosiad y gyflogaeth a chefnogaeth sydd ar gael yn yr ICC wedi'r peilot?
 - A yw'r peilot wedi effeithio ar eich barnau ar rôl cysylltiadau allgymorth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith?
 - A ydych chi wedi dysgu unrhyw wersi gwerthfawr? Beth fydddech chi'n wneud yn wahanol os bydddech yn dechrau eto? Beth ydych chi'n feddwl yw'r ffactorau allweddol i lwyddiant?
 - Unrhyw sylwadau eraill?

Partneriaid Cymunedau yn Gyntaf

Cefndir

- Allwch chi ddisgrifio'n gryno eich rôl a'r sefydliadau yr ydych yn gweithio iddo? Beth mae'r sefydliad yn wneud? Ers faint ydych chi wedi gweithio yn y rôl hon?
- Beth yw'r berthynas rhwng eich sefydliad a'r CFP neu'r ICC?
 - Beth yw natur y berthynas? Ffurfiol/Anffurfiol?
 - Pryd y sefydlwyd y berthynas/partneriaeth hon?
 - A oedd yn bodoli cyn y peilot, neu a gafodd ei sefydlu o ganlyniad i'r peilot?
- Pa ran sydd gan eich sefydliad yn y peilot JCP/ICC?
 - Pa gefnogaeth/gwasanaethau mae'ch sefydliad yn gynnig parthed y peilot hwn? Ble? A beth mae hyn yn gynnig i'r peilot?
 - Pryd ddaeth eich sefydliad yn rhan o'r peilot? Sut y dechreuodd gymryd rhan?
- Beth yw eich cyfrifoldebau parthed y peilot ICC?
 - Beth ydych chi'n cyflawni?
 - A ydych chi wedi ymwneud â'r peilot o'r cychwyn?
 - A yw'ch rôl wedi newid neu ddatblygu yn ystod y peilot? Sut?
 - Faint o'ch amser sy'n mynd ar weithio ar y peilot? Ar beth? A yw hyn wedi newid yn ystod y peilot?
 - Gyda phwy ydych chi'n cyfathrebu/pa gyfathrebu ydych chi'n derbyn ynglŷn â'r peilot yn rheolaidd?
 - Sut mae hyn yn cyd-fynd â'ch cyfrifoldebau eraill?
- A ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth gydag unrhyw sefydliadau eraill i gefnogi'r peilot (heblaw'r ICC/JCP)? Pa sefydliadau ac ym mha gymhwyster? Sut ddatblygodd y perthnasau hyn? Beth maent yn cynnig i'r peilot?

Cyflawniad y Peilot

- Sut mae sianelau cyfathrebu yn gweithio rhyngoch chi/eich sefydliad, CFP lleol, ICC a JCP? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain? A gafwyd unrhyw heriau? Sut y datryswyd y rhain?
- Gyda phwy ydych chi'n cyfathrebu amlaf parthed y peilot? Ar ba ffurf mae hyn? Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r cyfathrebu hyn?
- Faint ydych chi'n teimlo ydych chi wedi gallu bod yn rhan o'r peilot hwn? Yw hyn cymaint ag y byddech wedi dymuno? *Edrychwch ar pam/pam ddim.*
- A ydych chi wedi cael unrhyw ddylanwad o ran y gweithgareddau a gyflawnwyd? Ym mha fodd?
- Cyn belled ag y gwyddoch chi, a fu unrhyw anawsterau ymarferol neu logistaidd parhaus yn gysylltiedig â'r gwasanaethau mae'ch sefydliad yn cyflenwi parthed y peilot?
- A gafwyd unrhyw gerrig milltir parthed cyflenwi'r peilot? Allwch chi ddweud wrthyf am y rhain?

Targedau Prosiect

- A ydych yn ymwybodol o'r targedau deilliant swyddogol sy'n gysylltiedig â'r peilot hwn?
- A yw unrhyw un o'r targedau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gefnogaeth a gwasanaethau mae'ch sefydliad yn darparu yn rhan o'r peilot? Pa rai?
- A oedd eich sefydliad yn gysylltiedig â datblygu'r targedau hyn?
- A yw'r targedau hyn wedi newid i gwbl yn ystod y peilot? Sut?
- Yn eich barn chi pa mor realistig yw'r targedau hyn?
- Sut y cesglir y data parthed y targedau hyn? Sut yr adroddwyd ar y deilliannau?
- A fu yna unrhyw heriau penodol yn gysylltiedig â'r broses cipio/adrodd ar ddata? Sut y datryswyd y rhain?

- I ba raddau ydych chi'n meddwl y cyflawnwyd y targedau hyn? *Unrhyw dystiolaeth (ar wahân i'r hyn sydd gennym yn barod)?*
- A ydych chi'n meddwl bod y targedau hyn wedi effeithio ar beth a gyflawnodd y peilot?
- A yw'r targedau hyn wedi dylanwadu ar y math o weithgareddau mae'ch sefydliad yn eu cyflawni yn rhan o'r peilot? Ym mha fodd?
- A yw'ch sefydliad yn cofnodi unrhyw wybodaeth atodol? e.e. deilliannau meddal, neu bellter a deithiwyd? *Unrhyw dystiolaeth ar gael?*

Allgymorth ac Ymgysylltiad

Os yn berthnasol...

- Sut mae'r gwasanaethau a gynigir gan eich sefydliad wedi eu hyrwyddo i ddefnyddwyr ICC?
- Sut y mae wedi ei hyrwyddo tu allan i'r ICC i rieni yn y gymuned ehangach? *Casglwch enghreifftiau.*
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl bu'r hyrwyddiad hwn o ran codi ymwybyddiaeth i'r gwasanaeth? A ydych chi'n teimlo bod lefel eang o ymwybyddiaeth? Pa dystiolaeth sydd o hyn?
- A fu ymgysylltu â rhieni yn gymharol syml neu'n heriol? Pam fod hyn?
- Pa mor dda ydych chi'n meddwl oedd defnydd ac ymgysylltiad â'r gwasanaethau?
 - Faint o amser a gymerodd i gyflawni'r lefelau hyn o ymgysylltiad?
 - Beth am yn benodol parthed rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr y ganolfan blant yn y gymuned ehangach?
- Pa mor bell ydych chi'n meddwl yr ymgysylltodd y peilot â'i gwsmeriaid targed arfaethedig? A yw'r gwasanaethau yn cyrraedd y teuluoedd mwyaf difreintiedig? Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn? A oedd unrhyw anawsterau?

- I ba raddau ydych chi'n meddwl y gallodd eich sefydliad ychwanegu gwerth i'r peilot o ran helpu ymgysylltu gyda'r anoddaf i'w cyrraedd? *Unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth?*
- Pa mor dda ydych chi'n meddwl fu derbyniad y gwasanaeth gan rieni? A yw hyn yn cyd-fynd â'ch disgwyliadau gwreiddiol?
- A oes gennych deimlad pam nad yw rhai rhieni eisiau ymgysylltu â'r peilot?
- Wrth edrych yn ôl, beth ydych chi'n meddwl gellid ei wella o ran allgymorth ac ymgysylltu?

Deilliannau a Dysgu

- Pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl y gwnaeth cynhwysiant eich sefydliad yn y peilot i rieni a theuluoedd lleol? *Unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth?* Sut mae rhieni wedi ymateb?
- Beth am y peilot yn gyffredinol?
- A ydych wedi derbyn adborth gan rieni am y peilot? Beth oedd hyn?
- I ba raddau ydych chi'n meddwl i'r peilot hwn lwyddo o ran cyrraedd a gweithio gyda'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yn yr ardal?
- A fu yna unrhyw effeithiau ehangach o'r peilot yr oeddech yn ymwybodol ohonynt tu hwnt i waith y JCP yn yr ardaloedd peilot?
- Beth ydych chi'n meddwl y cyflawnodd y peilot yn nhermau dulliau newydd o weithio a chydweithio? Sut mae rhieni yn elwa o hyn?
- A ydych chi'n meddwl fod staff (o bob sefydliad) yn gweithio yn yr ICC neu'n rhan i'r peilot wedi gwella dealltwriaeth o rôl gwaith wrth liniaru tloidi plant – o ganlyniad i'r peilot hwn?
- A oes unrhyw ffactorau tu hwnt i'ch rheolaeth y teimlwch sydd wedi effeithio'n negyddol ar beth mae'r peilot wedi gallu cyflawni? Beth oedd y rhain a pha effaith ydych chi'n meddwl y cawsant? *Ymchwiliwch os nad yw eisoes wedi ei drafod:*
 - anawsterau neu oedi yn y cyfnod i sefydlu'r peilot
 - pryderon ymarferol megis diffyg lleoliad i gyflenwi gwasanaethau

- newidiadau staff neu absenoldeb staff mewn rolau allweddol
- nodweddion y farchnad lafur leol
- bylchau mewn gwasanaethau cefnogaeth lleol sydd ar gael i rieni, e.e. gofal plant, ESOL, hyfforddiant arall neu ddarpariaeth amlapiad
- Daw'r peilot i ben yn swyddogol yn xxxx. Cyn belled ag y gwyddoch, a wnaed unrhyw beth i sicrhau cynaliadwyedd rhywfaint o ddarpariaeth y prosiect neu i fewnosod dysgu allweddol o'r peilot wedi i'r cyllid ddod i ben?
- A ydych chi'n meddwl y bydd rhywfaint o'r trefniadau gwaith partneriaeth yn parhau wedi diwedd y peilot? Pa elfennau a ellir eu cynnal, ar ddiwedd cyllid y peilot?
- A chi'n meddwl bod yna unrhyw wersi penodol i'ch sefydliad sydd wedi codi o'r peilot hwn? Beth fydddech chi'n wneud yn wahanol os bydddech yn dechrau eto?
- Beth ydych chi'n feddwl yw'r ffactorau allweddol i lwyddiant?
- Unrhyw sylwadau eraill?

Grwpiau Trafod Rhieni

Cefndir [peidiwch â gofyn - cesglir ar daflen monitro]

Yn gyntaf oll hoffem gasglu ychydig o wybodaeth gefndirol am eich bywyd teuluol. Efallai'ch bod i gyd yn adnabod eich gilydd yn barod, ond byddai'n ddefnyddiol i mi pe gallem fynd amgylch y cylch, ac os gallech gyflwyno'ch hun a rhoi gwybod i mi:

- Faint o blant sydd gennych
- Oedran eich plant
 - Statws/cyfansoddiad presennol y cartref? Priod/sengl/partner?
 - A yw'r partner/cymar yn gweithio?
- Mae'r **daflen data monitro** yn gofyn am wybodaeth am fudd-daliadau, iechyd/rhwystrau iechyd i waith, ac amgylchiadau teuluol (*gweler diwedd y canllaw pwnc*)

Cynhesu/cyflwyniadau

Gofynnwch i bob cyfranogwr gyflwyno'i hun, gan ganolbwyntio ar eu:

Enw cyntaf (cwblhewch gerdyn enw)

Nifer/oed y plant

Chwilio am waith? Pa fath o waith fyddent yn hoffi ei wneud?

Amgylchiadau Presennol [GOFYNNWCH I BAWB]

Hoffwn ddeall ychydig am eich amgylchiadau presennol.

- A ydych chi mewn gwaith ar hyn o bryd? Allwch chi ddweud wrthyf beth ydych yn ei wneud? Rôl swydd, oriau a weithir? Ers faint ydych chi wedi bod yn gwneud hyn? Sut wnaethoch chi ddod o hyd i'r swydd hon? A yw'n lleol?
- A oes unrhyw un ohonoch yn derbyn unrhyw hyfforddiant ar hyn o bryd – neu'n gobeithio gwneud hyfforddiant yn y dyfodol? Allwch chi ddweud wrthyf am hyn? Ymhle ydych chi'n astudio? Ble? Ers faint ydych chi wedi bod yn gwneud hyn? Beth sy'n eich ysgogi?

I'r rhai nad ydynt yn gweithio

- Ydych chi wedi gweithio yn y gorffennol? Pa fathau o swyddi ydych chi wedi eu gwneud? Pa mor ddiweddar oedd hyn?
- A oes unrhyw un ohonoch yn chwilio am waith ar hyn o bryd?
- Os nad, Beth sy'n dylanwadu ar eich penderfyniad i beidio gweithio ar hyn o bryd? Pa ffactorau sydd bwysicaf?
 - Cyfrifoldebau gofal plant, neu gyfrifoldebau gofal eraill
 - Effaith ar sefyllfa ariannol y cartref (ofn bod yn waeth eich byd na bod ar fudd-daliadau, trwy gostau ychwanegol gofal plant neu drafnidiaeth/teithio)
 - Sefyllfa gyflogaeth eich partner (h.y. oriau gwaith, tâl ac ati)
 - Iechyd neu anabledd (eich hun neu eraill)
 - Eich lefelau sgil, profiad blaenorol o waith
 - Oed eich plant, eisiau cael mwy o blant
 - Amgylchiadau'r farchnad lafur, hyblygrwydd y gwaith a chwenychir
 - Eich barnau am fanteision ac anfanteision gweithio
 - Barn eich partner/teulu am weithio/peidio gweithio
 - Ffactorau eraill

Ymwybyddiaeth o wasanaethau Cyngorydd y ganolfan blant a'i integreiddiad i'r ICC [GOFYNNWCH I BAWB]

- Allwch chi roi gwybod i mi ar gyfer beth ydych chi'n defnyddio'r ICC hon ar hyn o bryd? Pa leoliadau ydych chi'n ymweld â nhw? Pa wasanaethau ydych chi'n cael mynediad atynt?
- Ers faint ydych chi wedi bod yn ymweld â'r ICC hon? Pryd wnaethoch chi ddechrau dod i'r ICC?
- Ar gyfartaledd, pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r ICC hon?

- A yw unrhyw un ohonoch yn ymwybodol fod y Ganolfan Blant hon yn cynnig gwasanaethau cyflogaeth i rieni (trwy gael Cynghorydd ymroddedig wedi ei lleoli yma yn y ganolfan)?

YDW:

- Sut glywsoch chi am hyn? (e.e. poster, taflen, cyswllt personol – ceisiwch sefydlu a wnaethant fynd ati i geisio'r wybodaeth hon, neu a ddsbarthwyd yr wybodaeth yn rhyngweithiol gan yr ICC/CFP/JCP PA)
- A gafodd ei hyrwyddo o gwbl gan rai i staff y Ganolfan Blant/CFP? (e.e. dyddiau lansio, atgyfeiriadau)
- A wyddoch chi'n union beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig? (ysgogwch os oes angen: chwilio am swydd, IAG, WFIs, cyngor/help gyda budd-daliadau...)
- A sut yr adnabyddir y Cynghorydd yn y Ganolfan Blant – h.y. a ydych yn gwybod beth yw eu teitl swydd? (sefydlu sut mae'r PA wedi ei frandio yn y CC)
- A ydych yn cael teimlad fod y Cynghorydd yn rhan o dîm yn Ganolfan Blant o staff, neu ar wahân? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn? (ceisiwch gael teimlad o ba mor dda mae'r PA wedi integreiddio gyda gweill y CC)
- Pa mor hawdd ydi hi i gysylltu â'r Cynghorydd yn y Ganolfan Blant neu'r gymuned ehangach? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn? *Ysgogiad:*
 - Ble mae'r Cynghorydd yn eistedd? Ydych chi angen apwyntiad?
 - Ydych chi wedi gweld y PA yn mynychu digwyddiadau penodol yn y Ganolfan Blant? Mewn lleoliadau cymunedol?
 - Ydych chi wedi gweld y PA yn cerdded o amgylch y CC, yn sgwrsio gyda rhieni?
 - Ydych chi wedi clywed gan rieni eraill sydd wedi ei weld ef neu ei gweld hi yn y CC?
 - Pa mor hawdd ydi hi i fynd atynt yn eich barn chi?

- Ydych chi wedi dweud wrth unrhyw un arall am y gwasanaeth hwn? Beth a ddywedoch chi wrthynt?

NA:

- I'r rhai ohonoch nad oeddech yn ymwybodol o hyn o'r blaen, nawr eich bod yn gwybod am y gwasanaeth, a ydych yn credu y bydd yn ddefnyddiol?
- Os felly, ar gyfer beth?
- A yw'n wasanaeth y credwch fyddai'n berthnasol i chi yn y dyfodol agos? (h.y. yn y 3 mis nesaf); yn y tymor byr i ganolig (h.y. y 3-18 mis nesaf) neu yn y tymor hirach (18 mis +)?
- Ar beth mae'r amseriad hwn yn ddibynol? (*casglwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch yma*)
- Sut ydych chi'n teimlo am y ffaith nad oeddech yn gwybod am y gwasanaeth hwn?
- A ydych yn cael mynediad at unrhyw wasanaethau eraill yn gysylltiedig â chyflogaeth neu hyfforddiant ar hyn o bryd (heb fod trwy'r ICC na'r peilot)? Beth? Sut daethoch i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn? *Cyrsiau cymunedol JCP*

[GOFYNNWCH I BAWB]

- Gan feddwl yn fwy cyffredinol, a ydych yn meddwl ei bod yn syniad da i gynnig gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant mewn Canolfannau Plant? Pam/pam ddim? (*ymchwiliwch*)
- A wyddoch am bobl nad ydynt yn defnyddio'r Ganolfan Blant? A wyddoch chi pam nad ydynt yn defnyddio'r ICC? A ydych chi'n meddwl eu bod yn gwybod am y gwasanaethau cyflogaeth yma? Beth sy'n atal pobl rhag dod i'r ganolfan?

Defnydd o wasanaeth y Cynghorydd canolfan blant [GOFYNNWCH I BAWB – nid ydym yn disgwyl i'r grŵp nad ydynt yn ddefnyddwyr i ateb, ond dylid gwirio]

- A oes unrhyw un ohonoch wedi defnyddio'r gwasanaeth/wedi gweld y Cynghorydd?
 - **DO:** Sut gawsoch chi weld y Cynghorydd (atgyfeiriad trwy'r JCP am gyfweliad, y PA yn dod atoch wrth ddefnyddio gwasanaethau plant eraill, a ofynnoch i'w gweld am eich bod yn gwybod bod un ar y safle ac ati)
 - Ar gyfer beth wnaethoch chi weld y Cynghorydd? IAG, cyngor budd-daliadau, chwilio am swydd/paru swydd, WFI, cyngor/cymorth mynediad at hyfforddiant
 - Beth wnaethoch chi yn eich cyfarfodydd?
 - Sawl gwaith wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn?
 - Ymhle y cynhaliwyd eich apwyntiadau?
 - Oedd y Cynghorydd yn gymwynasgar? Ym mha ffordd oedd ef neu hi yn gymwynasgar? (*Cyfeillgar, gwybodus, croesawgar, llawn dealltwriaeth ac ati?*)
 - A ydych chi'n teimlo bod y Cynghorydd yn deall eich amgylchiadau/anghenion? Os nad, pam ddim? *Archwilio.*
 - Beth (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd wedi newid o ganlyniad i'ch ymweliad neu ymweliadau at y Cynghorydd? *Ymchwilio – agwedd tuag at waith; mwy gwybodus; wedi'ch calonogi; newid ymddygiad, nawr yn derbyn hyfforddiant neu addysg, mewn gwaith ac ati.*
 - Beth ydych chi'n meddwl fydd eich camau nesaf? A fyddech chi'n dweud bod hyn o ganlyniad i weld y Cynghorydd, neu a ydych yn meddwl y byddech wedi gwneud hyn beth bynnag?
 - [*Os nad yw'r Cynghorydd wedi cael llawer o effaith – sefydlwch pam*]
 - A ydych wedi cael cyswllt gyda Chynghorwyr JCP yn y gorffennol? A ydych chi'n meddwl iddo ef neu hi fod yn wahanol i Gynghorwyr Canolfan Byd Gwaith eraill y buoch mewn cysylltiad â nhw? Sut, ac ym mha ffordd?
 - **NA:** pam fod hyn? *Ymchwiliwch* – am nad oeddech yn ymwybodol o'r Cynghorydd, heb gael amser, ddim yn chwilio am waith, addysg na

hyfforddiant, materion gofal plant tra'n gweld y Cynghorydd, mae'n well gennych gael mynediad at wasanaethau cyflogaeth yn rhywle arall.

- A fyddai unrhyw beth yn newid eich meddwl am gwrdd â'r Cynghorydd yma?

Atgyfeiriadau/Defnydd o hyfforddiant arall neu wasanaethau cefnogaeth amlapiad [GOFYNNWCH I BAWB – nid ydym yn disgwyl i'r grŵp nad ydynt yn ddefnyddwyr i ateb, ond dylid gwirio]

- A ydych yn defnyddio unrhyw wasanaeth cefnogaeth cyflogaeth (ac eithrio'r hyn a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y Cynghorydd) trwy'r Cynghorydd neu Gynghorwyr yma (h.y. yn y ganolfan blant, fel hyfforddiant)? Neu du allan i'r ganolfan hon?
 - **os ydych** – pwy â'ch cyfeiriodd at y gwasanaethau hyn? Ai'r Cynghorydd? Staff ICC? Staff CFP?
 - A wnaethoch chi fynychu?
 - Beth ddylanwadodd ar eich penderfyniad i dderbyn/peidio derbyn y gwasanaeth/hyfforddiant?
- A ydych wedi'ch cyfeirio at unrhyw wasanaeth arall nad yw'n ymwneud â chyflogaeth o ganlyniad i'ch cyswllt â'r cynghorydd yma?
 - **os ydych** – pwy â'ch cyfeiriodd at y gwasanaethau hyn? Ai'r Cynghorydd? Staff ICC? Staff CFP?
 - A wnaethoch chi fynychu?
 - Beth ddylanwadodd ar eich penderfyniad i dderbyn/peidio derbyn y gwasanaeth/hyfforddiant?
- A fu'r gwasanaethau hyn yn ddefnyddiol?
- Beth (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd wedi newid o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaethau eraill hyn?
- A fyddech chi wedi defnyddio'r gwasanaeth p'un bynnag, os ba fyddech wedi'ch atgyfeirio trwy'r peilot?
- [Os nad yw'r gwasanaeth wedi cael llawer o effaith – sefydlwch pam]

- A ydych yn ymwybodol o, neu'n gysylltiedig â, Cymunedau yn Gyntaf? Beth yw'ch barn o Cymunedau yn Gyntaf?

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol [GOFYNNWCH I BAWB]

- Yn gyffredinol, beth yw'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol?
- A ydych yn gweld eich hun yn gweithio yn y cynlluniau hyn? Os ydych, a ydych yn meddwl y bydd hyn yn 12 mis nesaf, 1-2 flynedd, 5 mlynedd, mwy?
- Os ydych chi eisoes yn gweithio – ydych chi'n bwriadu dal i weithio?
- A ydych chi'n chwilio am hyfforddiant ar hyn o bryd?
- A gaf i ofyn pa ffactorau sy'n dylanwadu ar eich penderfyniad u chwilio am waith neu hyfforddiant? A yw hyn yn ddibynnol ar newid yn eich amgylchiadau (e.e. eich plentyn ieuengaf yn cyrraedd oed penodol)?

Ymchwiliad:

- gwella incwm
- nodau a chynlluniau gyrfa eich hun
- argaeledd gofal plant ffurfiol y Ganolfan Blant neu trwy nani, gofalwr plant ac ati
- argaeledd gofal plant anffurfiol (teulu, ffrindiau, partner)
- amgylchiadau cyflogaeth eich partner
- gosod esiampI i'ch plant
- hyblygrwydd/agwedd/arferion gwaith cyflogwr
- A ydych wedi ystyried pa fath o swydd/hyfforddiant yr hoffech wneud? Sefydlwch ar beth mae hyn yn seiliedig – profiad gwaith blaenorol, maes diddordeb, lefel sgiliau presennol, hyblygrwydd swydd neu gwrs.
- A yw'r cyswllt a gawsoch gyda'r Cynghorydd/canolfan blant yn gyffredinol wedi dylanwadu ar eich penderfyniad i chwilio am waith/hyfforddiant? Os felly, sut?
- Pa gefnogaeth maent yn darparu gyda hyn?

- Pa fath o gymorth (arall) a chefnogaeth (os o gwbl) ydych chi'n meddwl byddwch chi angen i ddechrau gweithio yn y dyfodol? *E.e. help i wella sgiliau, ysgrifennu CV, hyfforddiant sgiliau meddal, chwilio am swydd, gwybodaeth ar addysg a hyfforddiant.*
- Pwy fydddech chi'n hoffi cael yn darparu'r gefnogaeth hon?
- Ble fyddai'n ddefnyddiol i chi gael mynediad at gymorth o'r fath? *JCP, ICC, darparwr hyfforddiant*
- I ba raddau ydych chi'n meddwl byddai Cyngorydd canolfan blant yn gallu eich helpu i hyfforddiant/cyflogaeth?

Os **nad** yn chwilio am waith neu hyfforddiant yn y dyfodol:

- Beth sydd wedi dylanwadu ar eich penderfyniad i beidio gweithio/chwilio am waith ar hyn o bryd? Ymchwiliwch am ffactorau eraill, ar wahân i ofal plant, sy'n debygol o fod y prif reswm:
 - Beth yw'ch cynlluniau ar gyfer gweithio yn y dyfodol? Pryd ydych chi'n rhagweld y byddwch yn mynd yn ôl i weithio?
 - A ydych yn derbyn unrhyw gefnogaeth gyffredinol trwy'r Cyngorydd/canolfan blant/peilot allai wneud i chi ystyried gweithio'n gynt?
 - Beth allai helpu gwneud gwaith yn ddewis i chi nawr?
- Beth ydych chi'n meddwl bydd y ffactor bwysicaf wrth benderfynu gweithio/dychwelyd i weithio?

[GOFYNNWCH I BAWB]

A hoffech ddweud unrhyw beth arall am y gwasanaethau cyflogaeth a ddarperir yn yr ICC hon/yn rhan o'r peilot hwn?